Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 06/2011

www.cymru.gov.uk

# Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG) ADRODDIAD GWERTHUSO

**Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG)**
**ADRODDIAD GWERTHUSO**

**Joan Stead, Gwynedd Lloyd, Adela Baird, Jane Brown, Sheila Riddell, Elisabet Weedon (Prifysgol Caeredin) a Janet Laugharne (Prifysgol Cymru, Caerdydd).**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannu'r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Robert Willis
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
01685 729138
Ffôn: 01685 729138
Ebost: Robert.willis@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011
ISBN 978 0 7504 6030 9
© Hawlfraint y Goron 2011

## Cynnwys

**Rhestr o fyrfoddau**

**Crynodeb Gweithredol**
- Cefndir
- Prif Ganfyddiadau
- Cryfderau
- Problemau
- Oblygiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru
- Oblygiadau i RhGCYCG
- Oblygiadau i ysgolion ac awdurdodau lleol
- Oblygiadau i'r Heddlu

**1. Cyflwyniad a disgrifiad o'r RhGCYCG**
- 1.1 Cyflwyniad
- 1.2 Disgrifiad o'r RhGCYCG

**2. Cwestiynau, dyluniad a dulliau'r ymchwil**
- 2.1 Cwestiynau Ymchwil
- 2.2 Dyluniad a dulliau'r ymchwil
- 2.3 Problemau a gododd o ran dull

**3. Crynodeb o'r canfyddiadau o adolygiad o ddeunydd printiedig**
- 3.1 Cyflwyniad
- 3.2 Tystiolaeth o ymyraethau mewn ysgolion
- 3.2 Tystiolaeth o ymyraethau a arweiniodd at weld yr heddlu yn yr ysgol

**4. Proses o Werthuso**
- 4.1 Cyflwyniad
- 4.2 Rolau a chylch gorchwyl SHCYau
- 4.3 ABCh a RhGCYCG
- 4.4 Ymlyniad ysgolion i'r RhGCYCG
- 4.5 Y gyfran o ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen
- 4.6 Ymwneud disgyblion sydd wedi ymddieithrio â'r rhaglen
- 4.7 Systemau a ddefnyddir gan y RhGCYCG ar gyfer monitro mewnol

**5. Gwerthuso Canlyniadau**
- 5.1 Cyflwyniad
- 5.2 Effaith ac effeithiolrwydd y RhGCYCG
- 5.4 Barn disgyblion
- 5.5 Y dystiolaeth a ddefnyddir gan randdeiliaid
- 5.6 Tystiolaeth o'r ffynonellau data sy'n bodoli
- 5.7 Nodweddion ymyrraeth effeithiol
- 5.8 Defnyddio data o ffynonellau sy'n bodoli

5.9 Data newydd ar gyfer monitro a gwerthuso arferion yn y dyfodol

6. Trafodaeth a chasgliadau

6.1 Trafodaeth

6.2 Oblygiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru

6.3 Oblygiadau i RhGCYCG

6.4 Oblygiadau i ysgolion ac awdurdodau lleol

6.5 Oblygiadau i'r Heddlu

7. Cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Aelodau'r Grŵp Gwerthuso Ymgynghorol |
| Atodiad 11 | Adolygiad o Ddeunydd Printiedig |
| Atodiad 111 | Offer Ymchwil |
| Atodiad 1V | Golwg gyffredinol ar y data a gynhyrchwyd |
| Atodiad V | Canfyddiadau Holiadur Disgyblion |

## Rhestr o Fyrfoddau

| | |
|---|---|
| ABCh | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| AECY | Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiad |
| APADGOS | Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| AYEC | Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol |
| D.A.R.E. | Hyfforddiant Camddefnyddio ac Ymwrthod â Chyffuriau |
| ESTYN | Arolygiaeth Ysgolion a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru. |
| HBSC | Astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant o Oedran Ysgol |
| KUSAB | Gwybodaeth, Dealltwriaeth, Sgiliau, Agweddau ac Ymddygiad |
| RhGCYCG | Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan |
| SHCY | Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol |
| UCD | Unedau Cyfeirio Disgyblion |

## Crynodeb Gweithredol

**Cefndir:**
Datblygwyd Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG) i gydnabod y rôl sydd gan ysgolion ac addysg wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a phroblemau sy'n gysylltiedig â diogelwch personol. Yn gyffredinol mae dull y Rhaglen yn un ataliol, cyffredinol ac eang sy'n canolbwyntio ar wersi ffurfiol gan heddlu yn eu hiwnifform yn y dosbarth, ynghyd â gweithgareddau cefnogol gan yr heddlu. Nodau'r rhaglen yw:

- gweithio tuag at gyflawni lleihad mewn trosedd ac anhrefn ym mhobl ifanc ein cymunedau, trwy gyfrwng addysg
- hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol mewn ysgolion a'u cymunedau ehangach.

Roedd Adroddiad Flanagan ar Blismona yng Nghymru a Lloegr (2008) yn cydnabod bod y gwasanaeth heddlu yn awr, nid yn unig yn cymryd cyfrifoldeb am ei swyddogaethau 'traddodiadol', ond hefyd am nifer o rai newydd, sy'n gofyn am sgiliau gwahanol a ffyrdd gwahanol o weithio. Mae'r datblygiadau hyn yn golygu bod plismona yn awr yn amrywio o wrth derfysgaeth ac argyfyngau sifil, i ddiogelu plant, rheoli troseddwyr rhyw yn y gymuned, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a phlismona cymunedol. Mae'r RhGCYCG yn enghraifft o'r modd y mae'r heddlu yn ymwneud â phobl ifanc yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae'r Rhaglen yn cael ei chynnig ar draws Cymru mewn 98% o ysgolion gan 87 Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol (SHCY). Y bwriad yw i'r Rhaglen gael ei defnyddio ar y cyd â mentrau eraill i weithio tuag at leihau troseddu ac anhrefn ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r pwyslais ar weithio mewn partneriaeth ac mae'r Rhaglen yn cydweithio gydag amrywiaeth o ddarparwyr eraill.

Mae'r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar edrych a yw'r negeseuon sydd yng ngwersi'r Rhaglen, a'r rôl gefnogol sy'n cael ei chyflawni gan y SHCY, yn bwydo i lunio:

- lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ysgolion a chymunedau
- mwy o ymdeimlad o ddiogelwch personol i ddisgyblion
- lleihad mewn camddefnyddio sylweddau.

Cynhaliwyd y gwerthusiad hwn rhwng Rhagfyr 2008 a Rhagfyr 2010, ac mae'n tynnu ar ddata ansoddol a meintiol i ddynodi arfer da wrth weithredu'r Rhaglen. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys adolygiad o'r deunydd printiedig, a chyfweliadau gyda phobl allweddol. Dynodwyd deg ysgol ar draws Cymru (pedair ysgol gynradd, pum ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig). Dewiswyd yr ysgolion hyn yn benodol oherwydd bod ganddynt berthynas dymor hir bositif â'r Rhaglen. Roedd hyn oherwydd ei bod yn cael ei gydnabod, â'r disgyblion ar gyfartaledd yn derbyn llai na 2 wers y flwyddyn, y byddai effeithiau'r rhaglen yn annhebygol o fod yn fawr, ac y byddent yn fwy tebygol o ddod i'r amlwg mewn ysgolion lle'r oedd y rhaglen wedi ei sefydlu'n gadarn.

Dewiswyd yr ysgolion hyn hefyd er mwyn archwilio effaith plismona cefnogol sy'n cael ei ddarparu gan SHCYau. Treuliodd dau ymchwilydd, ar gyfartaledd, ddau ddiwrnod ym mhob ysgol a chymuned leol yn cynnal cyfanswm o dros 80 cyfweliad gyda staff ysgol, SHCYau, rhieni a gweithwyr proffesiynol yn y gymuned. Bu'r ymchwilwyr hefyd yn arsylwi ar saith o wersi'r RhGCYCG, ac fe gynhaliwyd 23 o grwpiau ffocws disgyblion. Cynhaliwyd arolwg disgyblion i bawb ym mlynyddoedd 6, 8 ac 11 ym mhob un o'r deg ysgol yr ymwelwyd â nhw (dros 1,500 o holiaduron disgyblion wedi eu llenwi). Roedd y cyswllt gyda'r ysgolion trwy Gydlynydd Cenedlaethol RhGCYCG a'r SHCY. Yn aml iawn byddai'r SHCY yn dynodi pa unigolion yn yr ysgol a'r gymuned y dylem gael gair â nhw. Mewn rhai enghreifftiau, roedd y berthynas rhwng y SHCY a'r ysgol yn agos iawn gan y gallai'r SHCY fod â phlant yn yr ysgol a/neu fod yn llywodraethwr: Gallai hyn fod wedi cael effaith ar yr hyn a ddywedwyd.

Er bod amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn un maen prawf ar gyfer dewis ysgolion, mae'n amlwg, wrth ddefnyddio hawl i ginio ysgol am ddim (CYADd) fel dangosydd, bod ysgolion gyda lefelau uwch o CYADd yn cael eu tangynrychioli. Mae'r nifer fechan o ysgolion yr ymwelwyd â nhw hefyd yn golygu na ellir ystyried y canfyddiadau fel rhai cynrychioliadol yn ystadegol nac yn rhai y gellir eu cyffredinoli i bob ysgol, er bod swm, ansawdd a chysondeb y data yn caniatáu i ni lunio rhai dyfarniadau ar effeithiolrwydd ac effaith y rhaglen. Mae llawer o'n canfyddiadau hefyd yn cyd-fynd â rhai gwerthusiadau annibynnol cynharach (Tregidga, Williamson & Noaks, 2005, Markit Training & Consultancy 2007), a gydag Adroddiad Estyn (2007) ar effaith cyfarwyddyd camddefnyddio sylweddau ar blant a phobl ifanc.

Mae'n bwysig pwysleisio yn y fan hyn, nad oes yr un rhaglen unigol, yn y Deyrnas Unedig, nac yn rhyngwladol, y canfuwyd ei bod wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol tymor hir i'r prif broblemau cymdeithasol o gamddefnyddio sylweddau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, fe fu rhaglenni y gellir gweld eu bod wedi gwneud gwahaniaeth i unigolion neu grwpiau o bobl ifanc ar gyfnodau gwahanol yn eu bywydau. Mae rhaglenni o'r fath yn debygol o wneud mwy o wahaniaeth pan fyddant yn gysylltiedig ag amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymdeithasol, economaidd ac addysgol. Rhaid i unrhyw adroddiad ar raglenni a ddyluniwyd i leihau camddefnyddio sylweddau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol gael ei ddarllen yn y cyd-destun hwn.

**Prif Ganfyddiadau**

Mae natur gynyddol beryglus profiadau bywyd pobl ifanc, a'r gydnabyddiaeth gynyddol bod pobl ifanc heddiw yn llai a llai tebygol o gael profiadau cyffredin, yn golygu ei bod yn anodd priodoli newid cymdeithasol uniongyrchol i unrhyw un ymyrraeth unigol. Fodd bynnag mae peth ymchwil yn dangos bod ymyraethau sy'n holistaidd, cyffredinol, ac sy'n defnyddio arddull dysgu rhyngweithiol ar sail sgil yn fwy effeithiol yng nghyswllt ymddygiad pobl ifanc. Mae deunydd sylweddol printiedig hefyd yn cefnogi'r farn y gall gwaith amlasiantaethol effeithiol gyfrannu at ymyraethau llwyddiannus. Gan gadw hyn mewn cof, roedd llawer o'r ymatebwyr yn gweld y RhGCYCG fel cynllun oedd yn cydnabod y berthynas rhwng diogelwch cymunedol, cyfrifoldeb cymdeithasol, peidio â chymryd rhan mewn troseddau, a chamddefnyddio

sylweddau, ac felly yn gofyn am ddatblygu perthynas leol ar draws Cymru rhwng y gwasanaeth heddlu ac addysg. Dros y degawd diwethaf mae ystadegau'n dangos bod gostyngiad cyffredinol wedi bod mewn camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru (yn yr un modd â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig), er nad yw hyn yn wir, wrth gwrs, ym mhob ardal. Yn aml mae'r disgwyliadau o raglen fel RhGCYCG yn rhy uchel, a dylid eu barnu dros y tymor hir, gan groesawu a gwerthfawrogi llwyddiannau bychan fel rhai a all newid agweddau ac ymddygiad yn y dyfodol efallai.

> *Dwi'n gwybod ei bod hi'n anodd ei fesur yn iawn, ond dwi'n ei weld fel perthynas … mae'r* [SHCY] *yn cael effaith ar ysgolion … nid dim ond cyflwyno gwersi maen nhw, cyflwyno gwybodaeth – maen nhw'n creu perthynas* [â disgyblion a staff] *… dwi'n meddwl ei bod hi'n rhaid i hynny gael effaith*. (Prifathro Cynorthwyol, Ysgol Gyfun)

Mae ein canfyddiadau yn dynodi'r canlynol:

- Roedd y Rhaglen yn cael ei pharchu, ac yn cael ei gweld fel rhywbeth gwerthfawr a phwysig, gan bron bawb a gyfwelwyd. Er bod rhai sylwadau beirniadol, fe wnaed y rhain fel awgrymiadau ar gyfer gwella, neu roeddent yn aml yn cael eu cyfeirio at faterion oedd tu hwnt i gylch gorchwyl y Rhaglen.

- Roedd cefnogaeth gref iawn i barhau'r rhaglen a'r data yn awgrymu nifer o wahanol resymau dros y farn hon e.e. y byddai'r mewnbwn ar y pynciau yma trwy ABCh yn gyfyngedig mewn rhai ysgolion os na fyddai'r Rhaglen yn eu darparu; bod presenoldeb y SHCY mewn ysgolion yn helpu disgyblion a staff i deimlo'n ddiogel.

- Mae gan yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer y gwerthusiad hwn berthynas dymor hir ac agos iawn gyda'u SHCY penodol 'nhw', felly mae ein data yn adlewyrchu lefel o ymgysylltu sy'n annhebygol o fod yn nodweddiadol ar y cyfnod hwn yn natblygiad y rhaglen. Yr ysgolion a ddewiswyd oedd y rhai oedd fwyaf tebygol o fod wedi profi effaith gadarnhaol y Rhaglen, fel y gellid dynodi nodweddion ymyrraeth effeithiol.

- Roedd y nifer o wersi a ddarparwyd a lefel y cyswllt rhwng ysgol a'r SHCY yn amrywio o ysgol i ysgol. Roedd cyswllt tu hwnt i ddarparu'r rhaglen graidd yn dibynnu ar gais gan yr ysgol am fodylau ychwanegol a/neu am blismona cefnogol.

- Roedd barn gyffredin ymhlith y rhai a gyfwelwyd, bod y Rhaglen yn darparu gwerth ychwanegol sylweddol trwy ddarparu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth i *bob* disgybl y gallant eu defnyddio i gadw eu hunain yn ddiogel ac allan o helynt. Gwelir hyn yn arbennig o bwysig i'r disgyblion y gellir eu hystyried yn fregus ac a allai fod 'ar fin' cymryd rhan mewn ymddygiad anghyfreithlon.

- Mae arwyddion clir o'n cyfweliadau gyda SHCYau, staff ysgolion, gweithwyr cymunedol proffesiynol, a thrwy sylwadau a ddarparwyd gan rai disgyblion, bod y Rhaglen wedi newid ymddygiad ac agwedd at gamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er bod y data hwn yn gwrthddweud tystiolaeth o astudiaethau ehangach mai bach yw effaith ymyrraeth yn yr ysgol yn y meysydd hyn, mae'n bwysig cydnabod bod y gwerthusiad hwn wedi ei gyfeirio tuag at ddynodi arfer da mewn nifer fechan o ysgolion, ac nad oedd yn edrych ar effaith tymor hir.

- Rhoddodd athrawon a SHCYau enghreifftiau o ddisgyblion yn gweithredu ar wybodaeth oedd yng ngwersi'r Rhaglen oedd yn helpu i'w cadw yn ddiogel. Er enghraifft, rhoi adroddiad am ymddygiad amheus ar y rhyngrwyd. Gofynnodd rhai disgyblion am ragor o wersi gan y Rhaglen ar y pwnc hwn.

- Gwirfoddolodd bron i dri chwarter y disgyblion ysgol gynradd a dros draean o ddisgyblion uwchradd oedd yn llenwi ein holiadur i roi enghreifftiau o'r modd y maent wedi newid. Dim ond ychydig o sylwadau oedd yn negyddol.

- Roedd y sylwadau a gynigwyd gan ddisgyblion mewn atebion i'r holiadur yn awgrymu bod gwersi'r Rhaglen wedi cael effaith ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft '*Dwi'n ymddwyn yn well ar y strydoedd*' a '*Dwi ddim yn chwistrellu paent rŵan.'*

- Fe wnaeth y disgyblion hefyd gynnig enghreifftiau o'r ffordd mae eu hymddygiad wedi newid o ran camddefnyddio sylweddau. Er eu bod yn fwy prin o ran nifer na'r enghreifftiau eraill a roddwyd, maent yn awgrymu, serch hynny, bod y gwersi yn cael effaith yn y maes hwn. Er enghraifft fe ysgrifennodd disgyblion Blwyddyn 11: '*Dwi ddim yn meddwi bob penwythnos fel o'r blaen; 'Dwi'n yfed llai o alcohol a dwi ddim wedi cyffwrdd cyffuriau ers dwy flynedd a hanner'.*

- Roedd trafodaethau mewn rhai grwpiau ffocws disgyblion a sylwadau holiadur hefyd yn dynodi bod newidiadau wedi digwydd yn eu hagwedd gyffredinol a'u hymddygiad, yn arbennig tuag at y teulu a'r gymuned sydd yn galonogol ac yn awgrymu dinasyddion fydd yn ymgysylltu'n well ac yn fwy ystyriol yn y dyfodol. Er enghraifft, roedd y sylwadau gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cynnwys: *'Dwi wedi newid y ffordd dwi'n siarad hefo'r teulu a'n ffrindiau'; 'Dwi'n fwy cyfeillgar hefo pawb'*.

- Mae ochr ymarferol gweld ysgol uwchradd yn ymgysylltu yn effeithiol â'r Rhaglen yn ddibynnol, i raddau helaeth, ar statws a gofod ABCh ar yr amserlen mewn ysgolion unigol. Mewn ysgolion sydd â staff ABCh penodol ac amserlen wythnosol o wersi ABCh, mae'n haws ymgorffori'r Rhaglen yn y cwricwlwm ac i gynllunio ar gyfer gwersi paratoi a dilyniant mewn gwersi ABCh. Mewn ysgolion lle mae ABCh yn cael ei gyflwyno yn ystod amser cofrestru, neu os bydd ysgolion yn gweithredu dull 'bloc' o ddarparu ABCh, mae'r amser yn fwy cyfyngedig. Yn yr un

modd roedd yn ymddangos ei fod yn fwy effeithiol mewn ysgolion gydag athrawon ABCh arbenigol neu lle mae cohort cymharol gyson o staff sydd â diddordeb yn ymwneud ag ABCh. Roedd peth tystiolaeth hefyd bod staff yn cael eu dyrannu i addysgu ABCh, weithiau yn groes i'r graen, pan oedd ganddynt amserlen ysgafn.

- Mae ein canfyddiadau yn cynnig arwydd clir o'r ffactorau a'r amodau sy'n debygol o feithrin ymyrraeth effeithiol trwy'r RhGCYCG. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - Perthynas gadarnhaol rhwng SHCY a disgyblion ac ysgolion sy'n cael ei datblygu dros gyfnod o amser.
    - Rhoi statws amlwg i ABCh yn strategaeth yr ysgol, y cwricwlwm a'r amserlenni.
    - Sicrhau bod cynllunio ar y cyd yn digwydd rhwng y cydlynydd ABCh a'r SHCY ar gyfer cyflwyno gwersi yn effeithiol.
    - Darparu datblygiad staff o safon uchel i staff yr ysgol mewn ABCh a chefnogaeth barhaus ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus yn y pwnc.
    - Hwyluso paratoi ar gyfer gwersi RhGCYCG a dilyniant iddynt wedi ei gynllunio.
    - Sefydlu cyswllt cyson ar gyfer staff a dysgwyr â SHCY tu allan i amser darparu gwersi yn ffurfiol trwy'r rôl plismona cefnogol.

**Cryfderau**

- Roedd y berthynas gadarnhaol rhwng SHCYau ac ysgolion weithiau yn 'agor cil y drws' ar gyfer cyswllt gyda heddlu cymdogaeth ac asiantaethau eraill a oedd wedi ei chael yn anodd ymgysylltu â rhai ysgolion cyn hynny.

- Roedd barn gyffredinol mai SHCYau oedd yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r gwersi hyn. Ystyrid bod gan SHCYau sgiliau athrawiaethol da; profiad personol o'r materion dan sylw; a gwybodaeth gyfredol am y pwnc; a phresenoldeb cryf yn y dosbarth.

- Mae cyswllt cyson ac aml rhwng yr ysgol a'r SHCY, dywedai staff ysgolion, yn atgoffa dysgwyr am y gwersi; yn medru cyfrannu at ddisgyblaeth dda; ac, mewn rhai ysgolion, yn medru arwain at weld staff a dysgwyr yn teimlo'n ddiogelach yn yr ysgol.

- Soniodd staff ysgolion am bwysigrwydd hyfforddiant addysgol a gynhelir gan SHCYau, a'u hyder yn sgiliau addysgu SHCYau. Roedd y disgyblion yn gweld y gwersi a ddarparwyd gan y SHCY fel rhai gwerthfawr oedd yn ennyn eu diddordeb.

- Mewn llawer o ysgolion roedd y rôl plismona cefnogol yn cael ei gweld fel un bwysig, yn arbennig oherwydd gan nad oedd y presenoldeb hwn gan yr heddlu yn cael ei weld fel un bygythiol. Gallai plismona cefnogol, er enghraifft, gynnwys SHCY yn ymyrryd mewn digwyddiadau yn yr ysgol i atal, pan fydd hynny'n bosibl, troi pobl ifanc yn droseddwyr;

SHCY yn mynychu grwpiau cefnogi disgyblion; SHCY yn ymwneud â gwersylloedd haf a gweithgareddau awyr agored gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio; cyswllt SHCY gyda theuluoedd; a SHCY yn trefnu ymyraethau cyfiawnder adferol.

- Roedd cyfraniad SHCY at waith amlasiantaethol yn cael ei werthfawrogi gan ysgolion ac asiantaethau eraill.

- Dangosodd cyfweliadau yn glir y gallai'r ffaith bod ysgol yn ymwneud â'r Rhaglen wella'r berthynas rhwng pobl ifanc a'r SHCY; rhwng yr heddlu a'r ysgolion yn gyffredinol; a rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill.

- Nodwyd gan bron i bob un (91%) o'r ysgolion cynradd a thua 75% o'r disgyblion uwchradd a lenwodd ein holiadur bod y Rhaglen yn cynnig gwybodaeth newydd iddynt, a bod hyn yn cael ei gynnal ar wahanol gyfnodau allweddol a rhai olynol (e.e. roedd y disgyblion uwchradd yn yr arolwg, yn arbennig y rhai ym Mlwyddyn 11, yn parhau i gael y gwersi yn addysgiadol a gwerthfawr).

- Mae'n ymddangos bod y Rhaglen yn effeithio ar ddiogelwch personol y disgyblion. Rhoddwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn rhoi adroddiad am bryderon eu hunain am y rhyngrwyd a gweithgareddau pedoffilaidd posibl. Rhoddodd SHCYau hefyd enghreifftiau o achlysuron pan oedd plant a phobl ifanc wedi dweud wrthynt eu bod wedi cael eu 'cadw'n ddiogel' yn eu cymuned, oherwydd y wybodaeth a'r cyngor a roddwyd yn y gwersi.

- Roedd y ffaith bod SHCY yn cyfrannu at ddigwyddiadau yn yr ysgol yn atal rhai pobl ifanc rhag cael eu hystyried yn droseddwyr.

**Gwendidau**

- Mae angen datblygu'r dull a ddefnyddir ar gyfer gwerthuso yn fewnol ymhellach (e.e. i ddefnyddio samplo neu dargedu ysgolion/ardaloedd penodol; mwy o gyfraniad gan ddisgyblion at werthuso mewnol), fel bod cryfderau a gwendidau yn cael eu dynodi.

- Nid oedd yn ymddangos bod ymwneud ysgolion â'r Rhaglen bob amser wedi ei integreiddio yn ddigonol yn y cwricwlwm ABCh mewn rhai ysgolion cynradd a nifer o ysgolion uwchradd.

- Roedd beirniadaeth sylweddol gan ddisgyblion nad oedd cyfle i drafod rhagor ar wybodaeth o'r Rhaglen mewn gwersi ABCh. Teimlai amryw o ddisgyblion mewn grwpiau ffocws nad oeddent yn cael digon o gyfle yn yr ysgol i archwilio sut y maent yn ymdrin â phwysau gan eu cyfoedion.

- Roedd mwyafrif y rhai wnaeth ymateb, gan gynnwys athrawon, yn teimlo y byddai athrawon yn anghyfforddus wrth ymdrin â rhai o'r problemau sy'n cael eu trin gan SHCYau. Roedd hyn yn wir hyd yn oed

gyda hyfforddiant ychwanegol yn y meysydd hyn, gan dynnu sylw at hyder staff ABCh, neu rai athrawon cynradd, i ddarparu dilyniant addas, yn arbennig i ddisgyblion a all ddymuno datgelu gwybodaeth sensitif.

- Nid oedd y berthynas gadarnhaol rhwng SHCYau unigol a phobl ifanc yn cael ei gweld fel petai'n cael effaith ar y berthynas rhwng pobl ifanc a'r heddlu yn gyffredinol. Roedd hyn yn cael ei gydnabod gan nifer fechan o weithwyr ieuenctid, athrawon ac un SHCY, ac fe'i codwyd fel problem hefyd gan ddisgyblion mewn grwpiau ffocws, ac yn eu hymateb i'r holiadur.

- Er mai prin iawn oedd yr achlysuron pan oedd galw ar SHCYau i wneud gwaith heddlu arferol, roedd pryderon gan rai SHCYau y gallai'r amser fydd ganddynt yn y dyfodol i weithio mewn ysgolion fod yn gyfyngedig, oherwydd y wasgfa ar wariant cyhoeddus.

**Oblygiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru**

- I werthuso gweithredu'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol i rai 7 i 19 oed yng Nghymru.

- I weithio gydag awdurdodau lleol i wella datblygiad staff ar gyfer ABCh, a thrafod gyda sefydliadau hyfforddi athrawon sut i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ABCh i athrawon dan hyfforddiant.

- I weithio gydag awdurdodau lleol i fonitro pa mor ddiwnïad yw mentrau cenedlaethol sy'n cynnwys nifer o asiantaethau. Nid yw bob amser yn ymddangos yn glir beth yw'r meini prawf ar gyfer mentrau cydweithio effeithiol a llwyddiannus.

**Oblygiadau i'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan**

- Mae angen darparu data cenedlaethol a lleol yn olrhain cyfraddau troseddu a monitro cynnydd a newid mewn meysydd allweddol eraill. Mae data o'r fath yn anodd cael gafael arno ar hyn o bryd.

- Gall plant a phobl ifanc gymryd rôl fwy gweithredol wrth gynllunio a gwerthuso'r Rhaglen. Er enghraifft, roedd disgyblion yn yr astudiaeth hon yn gwerthfawrogi'r cyfle i roi eu barn yn ddienw.

- Dylai'r Rhaglen ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o werthuso eu gwaith gydag ysgolion sy'n cynnwys gwerthuso lefel yr ymrwymiad gan yr ysgol, a'r cydweithrediad gyda hi.

**Oblygiadau i ysgolion ac awdurdodau lleol**

- Angen datblygu trefniadaeth, strwythur a'r modd y darperir ABCh i ddiwallu anghenion y dysgwyr orau.

- Dylid cael mwy o integreiddio rhwng y Rhaglen ac ABCh mewn ysgolion uwchradd.

- Dylai ysgolion sicrhau bod athrawon yn cymryd rôl fwy gweithredol wrth gefnogi rhagor o ddysgu pan fydd asiantaethau allanol fel y Rhaglen yn arwain wrth ddarparu gwersi.

- Mae'r broblem o gyndynrwydd athrawon i ymgysylltu â'r problemau sy'n cael eu trin gan y SHCYau yn peri pryder. Rhaid i bobl ifanc gael gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant rannu eu pryderon am y materion hyn â nhw.

- Gallai effaith y Rhaglen gael ei archwilio ymhellach gydag ysgolion ac awdurdodau lleol yn chwarae rôl fwy yn y gwaith o fonitro a gwerthuso.

**Oblygiadau i'r heddlu**

- Dylai SHCYau sy'n gweithio mewn ysgolion barhau i gael blaenoriaeth, eu gwerthfawrogi a'u hariannu.

- Mae angen cryfhau a chadarnhau'r cyswllt rhwng SHCYau, heddlu cymdogaeth, ysgolion a sefydliadau cymunedol perthnasol.

- Er bod y berthynas rhwng disgyblion a SHCYau yn dda, rhaid gwneud mwy i annog swyddogion yr heddlu yn gyffredinol i ddatblygu perthynas gadarnhaol â phobl ifanc yn y gymuned.

# Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG)
# ADRODDIAD GWERTHUSO

## 1. Cyflwyniad a disgrifiad o'r Rhaglen

### 1. 1. Cyflwyniad

Erbyn hyn ystyrir bod gweithio rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol tu mewn a thu allan i leoliad yr ysgol yn rhan hanfodol o hyrwyddo cymunedau ysgol cryf sy'n cael eu gwreiddio yn effeithiol yn yr ardal ehangach, ac yn cael eu cefnogi ganddynt. Mae wedi ei hen sefydlu hefyd bod datblygu partneriaethau cydweithredol newydd yn allweddol i greu ysgolion a dinasyddion ifanc sy'n addas ar gyfer anghenion y 21ain Ganrif (Kennedy, 2003). Mae Adroddiad Flannigan ar Blismona yng Nghymru a Lloegr (2008), yn cydnabod bod y gwasanaeth heddlu yn awr, nid yn unig yn cymryd cyfrifoldeb am ei swyddogaethau 'traddodiadol', ond hefyd am lawer o rai newydd, sy'n gofyn am sgiliau gwahanol a ffyrdd gwahanol o weithio. Mae'r datblygiadau hyn yn golygu bod gan yr heddlu gyfrifoldeb am y meysydd amrywiol canlynol: gwrth derfysgaeth ac argyfyngau sifil; diogelu plant; rheoli troseddwyr rhyw yn y gymuned; rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol; a phlismona cymunedol.

Mae'r cefndir hwn yn rhoi'r cyd-destun ehangach ar gyfer deall y symudiad presennol tuag at greu partneriaethau sy'n pontio meysydd proffesiynol ac yn rhoi gwerth ar sefyllfa addysg a phlismona. Mae hefyd yn cydnabod bod amrywiaeth o agendau a phryderon cenedlaethol a mwy lleol yn sail ar gyfer defnyddio'r heddlu mewn ysgolion. Er enghraifft, bu bwlio, triwantiaeth a defnyddio cyffuriau yn agweddau sy'n peri pryder ar ymddygiad pobl ifanc ar draws holl wledydd y Deyrnas Unedig ers nifer o flynyddoedd, gydag effaith negyddol ar iechyd a datblygiad cymdeithasol pobl ifanc (Shaw, 2004). Mae pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn ymwneud ag amrywiaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol na rhai eraill (Smith, 2006). Tanlinellwyd rôl bwysig ysgolion wrth atal datblygiad ymddygiad tramgwyddus hefyd mewn adroddiad fel, er enghraifft, yr astudiaeth arhydol *Edinburgh Study of Youth Transitions and Crime* (gweler yn arbennig Smith, 2006a; Smith, 2006b)

Arweiniodd datganoli at wahaniaethau cynyddol rhwng polisi addysgol yng Nghymru a Lloegr (Rees, 2005). Ers sefydlu Adran Addysg y Swyddfa Gymreig ym 1970 a ffurfio Cyngor Cwricwlwm Cymru, datblygodd yr hyn y cyfeiriwyd ato fel 'y brand unigryw Gymreig o adfer diwylliannol' ar ffurf y *Cwricwlwm Cymreig* (ACCAC, 2003) traws gwricwlaidd. Roedd ymrwymiad Cyngor Cwricwlwm Cymru i feithrin y syniad o gymuned trwy ysgolion cyfun yn rhoi pwyslais ar gydraddoldeb a hawliau dynol, a thrwy hynny roedd yn hyrwyddo dealltwriaeth eang o gymuned sy'n parhau hyd heddiw. Ym meysydd addysg a hyfforddiant ymddangosodd 'Dewis Cymreig' sy'n wahanol i bolisïau Lloegr.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad clir i egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynhwysiant, ac i ymdrin ag achosion gwaelodol ymddygiad sy'n creu problemau. Dros y degawd ers datganoli gwelwyd nifer o ddatblygiadau polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n berthnasol i'r prosiect hwn, gan gynnwys, er enghraifft, yr adolygiad ar gwricwlwm ysgolion Cymru a diweddaru'r fframwaith ABCh i rai 7 i 19 oed yng Nghymru (2008); Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan; Gweithio Gyda'n Gilydd – Strategaeth camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd 2008-2018; Cynhwysiant/Cynorthwyo Disgyblion (2006); a Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach (2000).

Roedd y prosiect DARE yng Nghymru (Addysg i Wrthsefyll Camddefnyddio Cyffuriau) yn rhagflaenu RhGCYCG. Cyflwynir y prosiect DARE gan swyddogion heddlu wedi eu hyfforddi yn arbennig mewn ysgolion a dyma'r rhaglen atal cyffuriau ieuenctid a ddefnyddir fwyaf cyffredin yn Unol Daleithiau America. Mae'n derbyn cefnogaeth sylweddol gan rieni, athrawon, yr heddlu, ac asiantaethau ariannu'r llywodraeth, ac mae ei boblogrwydd yn parhau er gwaethaf nifer o werthusiadau a gynlluniwyd yn dda a meta-ddadansoddi sy'n gyson yn dangos ychydig neu ddim effeithiau o ran atal pobl rhag camddefnyddio sylweddau[1]. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth ar effeithiau'r cwricwlwm DARE traddodiadol, a weithredir yn safon 5 a 6 yn dangos bod y plant sy'n cymryd rhan yr un mor debygol o ddefnyddio cyffuriau â'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan. Fodd bynnag, fe ddangoswyd rhai effeithiau cadarnhaol o ran agweddau at yr heddlu. Er bod DARE yng Nghymru yn cael ei ystyried yn gwneud cyfraniad da at ddatblygu perthynas dda rhwng ysgolion, rhieni, cymunedau a'r heddlu lleol, roedd beirniadaeth o ran y diffyg cytundeb rhwng pawb oedd yn cymryd rhan ar y ffordd orau i ddysgu disgyblion, a'r effaith niweidiol a ddeilliodd o hynny ar ddull amlddisgyblaethol effeithiol (Adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, heb ddyddiad). Rhoddodd RhGCYCG ystyriaeth i'r feirniadaeth hon ac fe'i lansiwyd gyda modylau craidd, cymeradwyaeth amlasiantaethol, a gyda chytundeb pob un o'r Heddluoedd yng Nghymru.

### 1.2 Disgrifiad o'r RhGCYCG

Datblygwyd Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG) i gydnabod y rôl y gall ysgolion ac addysg eu chwarae wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a gwella diogelwch personol. Mae dull y Rhaglen yn bennaf yn un ataliol, cyffredinol ac eang ei sail sy'n canolbwyntio ar wersi ffurfiol a gyflwynir gan heddlu mewn iwnifform yn y dosbarth, ynghyd â gweithgareddau cefnogol gan yr heddlu. Nodau'r rhaglen yw:

- Gweithio tuag at gyflawni gostyngiad mewn troseddau ac anhrefn ymhlith pobl ifanc ein cymunedau, trwy gyfrwng addysg
- Hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol mewn ysgolion a'u cymunedau ehangach.

[1] Yn dilyn cyfres o werthusiadau manwl ar DARE, fe roddodd Prif Feddyg yr Unol Daleithiau y rhaglen yn y categori Ddim yn Gweithio, o ran atal camddefnyddio sylweddau (USA Surgeon General (2001)

Daeth y rhaglen yn weithredol ym Medi 2004 ac mae'n defnyddio dull troell, gan adeiladu ar wybodaeth a sgiliau plant a phobl ifanc trwy eu gyrfa yn yr ysgol. Mae'r Rhaglen yn gweithio gydag ysgolion i wella atal/lleihau troseddu fel rhan o raglen ABCh ysgolion. Mae'r ysgolion, felly, wedi cael eu hannog i ymuno â'r Rhaglen, ac yn 2008/2009 roedd 98% o ysgolion Cymru wedi gwneud hynny.

Dyluniwyd gwersi a deunyddiau cefnogol y Rhaglen gan y cydlynydd cenedlaethol a phum cydlynydd rhanbarthol, y cyfan ohonynt yn weithwyr addysg proffesiynol profiadol. Mae'r holl wersi yn cadw at elfennau allweddol y fframwaith ABCh ar gyfer rhai 7 i 19 mlwydd oed yng Nghymru, ac yn cydymffurfio â'r canllawiau arfer gorau a amlinellir yng Nghylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru*Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc*. Ym '*Mhecyn Athrawon'* diwygiedig y Rhaglen datblygwyd y rhaglen graidd a'i mireinio i ganiatáu mwy o ddewis a hyblygrwydd i ysgolion. Fel yr amlinellwyd gan y cydlynydd cenedlaethol yn ei llythyr cyflwyno i'r rhaglen ddiwygiedig:

> Mae'r RhGCYCG yn mabwysiadu dull corfforaethol i gyd-fynd ag ABCh ym maes Addysg Atal a Lleihau Troseddu. Fel cynllun gwaith troellog sy'n cynnwys y Cyfnod Sylfaen/Cyfnodau Allweddol 1 i 4, mae'n defnyddio arbenigedd yr heddlu i gyd-fynd â'r gwaith da mewn ysgolion a'i gefnogi. Mae'n canolbwyntio ar dair prif thema, sef cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau, ymddygiad cymdeithasol a chymuned a diogelwch.
>
> Mae'r problemau yn amrywio o ranbarth i ranbarth ac o ysgol i ysgol ac mae problemau newydd yn dod i'r amlwg sy'n ychwanegu cryfder at y gred bod raid i'r rhaglen fod yn fwy hyblyg i fedru addasu i alw rhanbarthol a newid. Er mwyn datrys y broblem hon, rydym wedi cadw'r fframwaith cyffredin i'r elfennau craidd, ond er mwyn caniatáu rhagor o ddewis cyflwynwyd dewislen ychwanegol ym Medi 2007.
>
> Ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol bydd swyddogion yn cyflwyno'r nifer ganlynol o wersi:
> 5 Gwers Cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau
> 5 Gwers Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned
> 5 Gwers diogelwch personol
> (Mae 15 o wersi ychwanegol ar y ddewislen ychwanegol)
> (*Pecyn Athrawon RhGCYCG* 2008)

Ar hyn o bryd mae'r Rhaglen yn cael ei chyflwyno ar draws Cymru gan 87 o Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCYau – oedd yn cael eu galw yn Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn y gorffennol). Swyddogion heddlu cyfredol yw'r SHCYau sydd â phrofiad o blismona ar y rheng flaen sy'n gwneud cais am swydd SHCY. Disgwylir i'r holl swyddogion gwblhau lefel pedwar o'r Radd Sylfaen mewn Addysg fel hyfforddiant gorfodol, ac maent yn cael eu hannog i barhau eu hastudiaethau trwy lefel pump i gael gradd sylfaen.

Mae cydlynydd ABCh yr ysgol a'r SHCY ar y cyd yn cynllunio'r modd y bydd y SHCY yn darparu'r rhaglen graidd ac unrhyw wersi ychwanegol o fatrics gwersi RhGCYCG. Yn ddiweddar mae'r RhGCYCG wedi cael ei hymestyn i gwmpasu gweithio gyda disgyblion mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau), ac ysgolion arbennig i ddisgyblion gydag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYECh).

Y bwriad yw i'r RhGCYCG gael ei defnyddio ar y cyd â mentrau/rhaglenni/ymyraethau eraill. Mae'r pwyslais ar weithio mewn partneriaeth ac mae'r rhaglen yn cydweithio gydag amrywiaeth o ddarparwyr eraill; fel, Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach, y Gwasanaeth Tân a Diogelwch ar y Ffordd Cymru. Mae'r RhGCYCG hefyd newydd ddechrau gweithio gyda Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Cymru.

Trwy ddwy enghraifft ddiweddar o'r RhGCYCG yn gweithio gydag asiantaethau eraill ceir blas ar y modd y mae cwmpas a gweledigaeth RhGCYCG yn ehangu. Yn 2008/2009 trefnodd y Rhaglen bedwar diwrnod o hyfforddiant i athrawon ledled Cymru, un ymhob ardal heddlu, i hyrwyddo addysg alcohol a cham-drin domestig mewn ysgolion. Roedd y nodau yn cynnwys:

- datblygu dull trwy bartneriaeth rhwng asiantaethau
- rhoi gwybodaeth i athrawon am y wybodaeth a'r tueddiadau cyfredol am ddefnydd a chamddefnydd ar alcohol a cham-drin domestig o safbwynt iechyd, cymdeithasol a chyfreithiol
- rhannu arfer da.

Ym Mai 2010, fe wnaeth y Rhaglen hefyd drefnu seminar dan y teitl 'Model Cefnogi'r Heddlu ar gyfer Ysgolion Uwchradd'. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Prif Gwnstabl, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), academig, a phennaeth ysgol uwchradd.

Mae monitro parhaus, mewnol ar y Rhaglen (e.e. Gwerthusiadau Cenedlaethol dyddiedig 2005, 2006 a 2009). Cyflwynwyd y model KUSAB (Gwybodaeth, Dealltwriaeth, Sgiliau, Agweddau ac Ymddygiad) fel offeryn gwerthuso yn 2007 (yn unol â chyfarwyddebau hyfforddi'r heddlu ac addysgol), fel dangosydd ar gyfer newid yng ngwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad pobl ifanc.

Bu dau werthusiad annibynnol ar y RhGCYCG. Roedd y gwerthusiad cyntaf (Tregidga, Williamson a Noaks, 2005) yn werthusiad ffurfiannol a ddynododd broblemau i'w hystyried wrth i'r prosiect ddatblygu. Er bod llawer o'r problemau wedi cael eu datrys erbyn hyn, mae'r canlynol yn ganolog i'r astudiaeth hon:

- Natur a maint ymgysylltiad ysgolion â'r rhaglen;
- Pwysigrwydd personoliaeth y SHCY a pharhad y cyswllt ar gyfer datblygu perthynas gadarnhaol â phobl ifanc;
- Pryderon gan rai SHCYau yn dynodi angen am gyfarwyddyd strategol cliriach ar eu rôl a'u cyfrifoldebau yn y dosbarth;
- Angen i fabwysiadu dull realistig o fesur llwyddiant o ran lleihau troseddau;

- Cymhlethdod mesur effeithiau tymor hir ar bobl ifanc.
- Agwedd plant a phobl ifanc at SHCYau, ac at yr heddlu yn y gymuned.

Roedd yr ail werthusiad annibynnol (Markit Training & Consultancy, 2007) yn dilyn y model KUSAB. Roedd y gwerthusiad hwn yn cynnwys holiaduron, cyfweliadau a grwpiau ffocws yn rhoi adroddiad ar sut yr oedd y Rhaglen yn cael ei derbyn gan ddisgyblion ac athrawon ar draws Cymru. Roedd y canfyddiadau yn cynnwys:

- Roedd plant a phobl ifanc yn bositif iawn am eu profiadau ac yn gyson yn disgrifio'r rhaglen fel un bwysig, ddiddorol a defnyddiol;
- Roedd athrawon yr un mor gadarnhaol am werth addysgol y Rhaglen, ond yn teimlo bod effaith y Rhaglen yn dibynnu, i raddau helaeth, ar y berthynas gyda'r SHCY unigol;
- Roedd staff yr ysgol yn gweld y Rhaglen fel un oedd yn cael effaith gadarnhaol ar wybodaeth disgyblion, eu dealltwriaeth, a datblygu sgiliau, ond ni allent, ac nid oeddynt am dadogi newidiadau cadarnhaol yn agweddau ac ymddygiad disgyblion i unrhyw ymyrraeth unigol;
- Wrth ateb holiaduron unigol i ddisgyblion, yn gyffredinol nid oedd disgyblion Blwyddyn 6 yn medru priodoli sut yr oedd gwersi RhGCYCG yn cysylltu â gwersi gan athrawon nac yn cyd-fynd â nhw. Fodd bynnag yn ystod trafodaethau grŵp ffocws roedd disgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion yn medru dynodi rhyw gyswllt rhwng y Rhaglen a'r cwricwlwm;
- Mae'r model ABCh a ddefnyddir mewn ysgolion yn cael effaith sylweddol ar y modd y cyflwynir y rhaglen graidd.

Mae Adroddiad gan Estyn (Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, 2007) dan y teitl '*Arfarniad o roi'r arweiniad 'Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc' yng Nghylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith mewn ysgolion a'i effaith ynddynt',* yn cyd-fynd yn arbennig â'r gwerthusiad hwn. Canfu'r adroddiad bod arwyddion y gall effaith Cylchlythyr 17/02 mewn ysgolion cynradd fod yn cael effaith gadarnhaol wrth helpu i godi'r oedran pan fydd y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn dechrau ysmygu ac arbrofi gyda sylweddau peryglus eraill, ond bod effaith y Cylchlythyr mewn ysgolion uwchradd yn llai sicr. Mae Estyn yn cydnabod bod gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion am rai o effeithiau corfforol a chanlyniadau cyfreithiol camddefnyddio sylweddau wedi gwella ers cyflwyno'r Cylchlythyr, a bod hyn yn bennaf oherwydd bod mwyafrif yr ysgolion wedi mabwysiadu 'Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan'.

Canfu Adolygiad Ymddygiad a Phresenoldeb Cenedlaethol (Reid, 2008) bod rheoli ymddygiad a phresenoldeb, yn yr ysgol a thu allan iddi yn dod yn faterion cynyddol gymhleth sy'n gofyn am gael blaenoriaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn benodol mae merched yn awr yr un mor debygol â bechgyn o ddangos nodweddion diffyg presenoldeb, ac mae canfyddiad bod cynnydd yn y nifer o ddisgyblion gydag anghenion cymdeithasol ac emosiynol ac anghenion cefnogi eraill. Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad hwn yn cydnabod bod gan Gymru hefyd nifer uwch o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig ac isel yn economaidd-gymdeithasol o'u cymharu â llawer o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

O ystyried yr uchod fe wnaethom ddatblygu cyfres o gwestiynau ymchwil oedd yn canolbwyntio ar weld a yw'r negeseuon yn y gwersi RhGCYCG, a'r rôl gefnogol a gymerir gan y SHCYau, yn cael effaith ar:

- leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ysgolion a chymunedau;
- hyrwyddo mwy o ymdeimlad o ddiogelwch personol i ddisgyblion;
- lleihau camddefnyddio sylweddau.

# 2. Cwestiynau, dyluniad a dulliau'r ymchwil

## 2.1 Cwestiynau Ymchwil

Mae ein cwestiynau ymchwil wedi eu dosbarthu dan bedwar pennawd. Fe wnaethom archwilio'r ddau gwestiwn cyntaf trwy adolygiad ar ddeunydd printiedig; mae'r chwe chwestiwn dilynol yn ymwneud â gwerthuso proses; mae'r pum cwestiwn nesaf yn ymwneud â gwerthuso canlyniad; ac mae'r ddau gwestiwn olaf yn ymwneud ag adolygiad ar systemau gwerthuso mewnol.

*Adolygiad o ddeunydd printiedig*

1. Pa dystiolaeth sydd ar gael bod ymyraethau yn yr ysgol yn medru newid agweddau ac ymddygiad pobl ifanc yng nghyswllt ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau a diogelwch personol?
2. Pa dystiolaeth mae'r deunydd printiedig yn ei darparu o ymyraethau effeithiol mewn ysgolion pan fydd yr heddlu yn ymwneud â'r ysgol?

*Gwerthuso proses*

3. Beth yw rolau a chylchoedd gorchwyl amrywiol y SHCYau yn ysgolion Cymru? Sut y mae eu cylch gorchwyl penodol (cyflwyno gwersi a phlismona cefnogol) yn cael eu deall gan weithredwyr gwahanol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach?
4. I ba raddau y mae cynnwys gwersi ABCh yn cyd-fynd â'r gwersi a ddarperir gan y SHCYau? Sut y mae SHCYau yn rhyngweithio gyda staff yr ysgol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyflwyno ABCh?
5. A yw ysgolion yn gwahaniaethu o ran y graddau y maent yn ymgysylltu â'r rhaglen?
6. Pa gyfran o'r disgyblion sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen, beth yw eu proffil cymdeithasol a beth oedd graddfa a natur eu hymwneud â hi?
7. A yw disgyblion sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd wedi 'ymddieithrio'' wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen, a beth fu natur hynny?
8. Pa systemau mae'r Rhaglen yn eu defnyddio ar gyfer monitro a gwerthuso mewnol?

*Gwerthusiad o ganlyniadau*

9. Ym marn amrywiaeth o'r rhai sy'n gweithredu yn yr ysgol a'r gymuned ehangach, beth yw effaith ac effeithiolrwydd y Rhaglen?
10. A yw'r dysgwyr yn teimlo bod y rhaglen wedi cael effaith ar eu hagweddau a'u hymddygiad o ran diogelwch personol, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?
11. Pa fath o dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio gan y rhanddeiliaid amrywiol wrth lunio barn am effeithiolrwydd y Rhaglen?
12. Pa dystiolaeth a ellir ei chael o gymharu ffynonellau data perthnasol sy'n bodoli ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddlu/cyfiawnder ieuenctid, ac ysgolion a fyddai'n awgrymu bod newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad disgyblion?
13. Beth yw nodweddion rhaglenni effeithiol pan fydd arwydd bod rhai effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a diogelwch personol?

*Archwiliad ar systemau gwerthuso mewnol*.

14. Sut y gall data o ffynonellau sy'n bodoli gael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth a gwella'r arferion presennol a'r systemau gwerthuso mewnol?
15. Pa ddata newydd fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer monitro a gwerthuso arferion yn y dyfodol?

## 2.2 Dyluniad a Dulliau

Mae'r gwerthusiad yn tynnu ar ddata ansoddol a meintiol o amrywiaeth o ffynonellau gan ddefnyddio nifer o ddulliau. Roeddem yn ymwybodol bod newidiadau mewn ymddygiad yn debygol o gael eu creu gan amrywiaeth o ffactorau personol, teuluol a lleol yn ogystal ag ymyrraeth mewn meysydd amrywiol fel addysg, iechyd, plismona a thlodi. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys adolygiad o ddeunydd printiedig, cyfweliadau, grwpiau ffocws, arsylwi, ac arolwg trwy holiadur i ddisgyblion.

Darparwyd taflenni gwybodaeth a llythyrau am y gwerthusiad i'r rhai â gwybodaeth allweddol, ysgolion, athrawon, gweithwyr proffesiynol yn y gymuned a disgyblion (gweler Atodiad 111). Pwysleisiwyd y byddai gwybodaeth oedd yn cael ei darparu ar gyfer y gwerthusiad yn cael ei defnyddio yn ddienw. Rhoddwyd manylion cyswllt fel y byddai unrhyw bryderon neu gwestiynau yn cael eu cyfeirio yn uniongyrchol at y tîm ymchwil. Darparwyd yr holl lenyddiaeth ymchwil yn Gymraeg a Saesneg. Cynigiwyd yr holl gyfweliadau a grwpiau ffocws yn y ddwy iaith, ac fe roddwyd cydnabyddiaeth a chefnogaeth i gyd-destun dwyieithog Cymru bob amser.

*Yr adolygiad o ddeunydd printiedig*

Adolygiad o ymyraethau cyfredol gan fentrau mewn ysgolion (2000-2008) ym meysydd camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a lles/diogelwch personol. Defnyddiodd yr adolygiad ddeunydd a gyhoeddwyd rhwng 2000 a 2008 yn bennaf. Defnyddiwyd adnoddau llyfrgell mewnol ym Mhrifysgol Caeredin a chronfeydd data cenedlaethol/rhyngwladol (e.e. ERIC, ASSIA). Fe wnaeth llyfrgell Bwrdd Iechyd yr Alban hefyd gynnal chwiliadau ar y cronfeydd data canlynol:

- CINAHL (Mynegai Cronnol o Gylchgronau Nyrsio yn ymwneud â nyrsio ac iechyd a Llenyddiaeth Iechyd Gysylltiedig),
- Adolygiadau Systematig Llyfrgell Cochrane ar lenyddiaeth meddygaeth, nyrsio a'r swyddi proffesiynol cysylltiedig
- MEDLINE.

Gan fod meysydd ymchwil fel camddefnyddio sylweddau a chyffuriau ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn feysydd sydd wedi eu hen sefydlu, mae'r adolygiad yn tynnu ar feta ddadansoddiadau ac adolygiadau systematig (e.e. EPPI Centre a Cochrane Collaboration) yn y meysydd hyn. Mewn cyferbyniad, mae'r wybodaeth ar bwnc diogelwch personol yn dod o amrywiaeth o ffynonellau felly bu'n rhaid dibynnu ar ddata perthnasol o arolygon a pheth astudiaethau sylfaenol. Bu'r adolygiad hwn hefyd yn ystyriol o'r ymchwil a wnaed yng nghyd-destun Cymru.

Fel y byddai rhywun yn disgwyl, mae cyfyngiadau gydag ymchwil gyda chymaint o gyfyngiadau amser a maes mor eang. Yn benodol, roedd ei faes eang yn gofyn am ddibynnu ar ddadansoddiadau systematig a meta-ddadansoddiadau pan oedd adolygiadau o'r fath ar gael. Roedd manteision ac anfanteision i'r dull hwn. Er mai cryfder adolygiadau systematig a meta-adolygiadau yw eu bod yn cynnig sylfaen o dystiolaeth sy'n gadarn o ran dull a chynnwys ar gyfer dynodi beth sy'n gweithio dros nifer o raglenni, nid ydynt yn cynnig data cyd-destunol mwy manwl a all fod yn sail i'n dealltwriaeth pam bod rhaglen yn gweithio mewn un lleoliad, ond ddim mewn un arall.

Cwblhawyd yr adolygiad ym Mehefin 2009.

*Cyfweliadau gyda'r Rhai â Gwybodaeth Allweddol*

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda deg o rai â gwybodaeth allweddol i gynnig cyd-destun a syniad o'r problemau presennol y dylid eu hystyried yn y gwerthusiad. Roedd y rhain yn cynnwys dau Uwch Swyddog o'r Heddlu; Ymgynghorydd Ysgolion Iach; Cydlynydd Cenedlaethol RhGCYCG; Cynrychiolydd ESTYN; Aelod o'r Panel Ymgynghorol; Cydlynydd Rhanbarthol ESIS (Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion); Rheolwr Tîm Troseddwyr Ifanc, Arweinydd cwrs/asesydd Rhaglen GradDip yr Heddlu; ac Arbenigwr Pynciol APADGOS (Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau). Ceisiwyd eu barn ar sut yr oedd y Rhaglen yn gweddu â pholisïau cenedlaethol a lleol, a sut yr oedd effeithiolrwydd y Rhaglen yn cael ei ddisgrifio a'i brofi. Gofynnwyd iddynt hefyd pa mor gyffredinol oedd y Rhaglen a'i heffaith a chynaliadwyedd y rhaglen yn y dyfodol. Roedd pum cyfweliad wyneb yn wyneb, gyda phump ar y ffôn (cyfanswm o ddeg cyfweliad). Recordiwyd y cyfweliadau i gyd gyda chaniatâd ac fe luniwyd adysgrif lawn ohonynt.

Cwblhawyd y cyfweliadau ym Mehefin 2009.

Fe wnaethom hefyd gyfweld saith SHCYau cyn ac yn ystod ymweliadau ag ysgolion, a phedwar Cydlynydd Rhanbarthol RhGCYCG. Roedd gan y saith SHCYau a gyfwelwyd rhwng 12 a 29 mlynedd o brofiad o blismona rheng flaen cyn mynd yn SHCY. Roedd dau o'r SHCYau a gyfwelwyd wedi bod yn y Rhaglen am lai na 18 mis, roedd pob un o'r lleill wedi bod yn eu swyddi o ddechrau cyflwyno'r Rhaglen yn 2004. Defnyddiwyd Canllawiau Pynciol i archwilio sut y mae gwaith y SHCY yn cael ei ymgorffori yng nghwricwlwm/ethos yr ysgol; pa mor amserol a pherthnasol yw'r modd y cyflwynir y pwnc; a rôl y SHCY. Recordiwyd yr holl gyfweliadau gyda chaniatâd.

Cyfwelwyd Cydlynydd Cenedlaethol RhGCYCG ar wahân ar nifer o achlysuron.

*Gwaith maes*

Gwnaed y gwaith maes mewn ysgolion penodol. Dewiswyd deg ysgol (gan gynnwys pedwar pâr o ysgolion cynradd ac uwchradd cysylltiedig, ysgol arbennig, ac ysgol gymunedol) ar gyfer gwaith maes manwl ac arolwg o'r disgyblion. Yn ychwanegol cynhaliwyd gwaith maes (ond nid yr arolwg

disgyblion) mewn ysgol arbennig arall.  Dewiswyd yr ysgolion ar sail y meini prawf canlynol:

- Cyswllt tymor hir â SHCY;
- Fel enghraifft o arfer sydd wedi hen sefydlu gyda'r Rhaglen oherwydd ei bod yn cael ei gydnabod, â'r disgyblion ar gyfartaledd yn derbyn llai na 2 wers y flwyddyn, bod effeithiau'r rhaglen yn annhebygol o fod yn fawr, ac y byddent yn fwy tebygol o gael eu canfod yn yr ysgolion hyn. Dewiswyd yr ysgolion hyn hefyd er mwyn archwilio effaith plismona cefnogol tymor hir a ddarperir gan y SHCYau yn yr ysgolion hyn;
- Cynrychiolaeth ar draws y pedair ardal heddlu;
- Amrywiaeth economaidd-gymdeithasol;
- Cynnwys ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg.

Cysylltwyd â'r deg ysgol i gychwyn trwy Gydlynydd Cenedlaethol y Rhaglen cyn gwyliau haf 2009.

Tabl 1 – Data ysgolion ac ardal

| Ysgol | Data ysgol | Ystadegau ardal yr awdurdod lleol | Ardal heddlu |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd A | 200 disgybl CYADd 11% (Isel). Dalgylch cymysg. Gwledig. | Cyfradd diweithdra: 7.1%; Dim cymwysterau POG: 9.5%; Lwfans chwilio am waith: 4.2%; IB/ESA: 7.6% MALlC Isel | De Cymru |
| Ysgol Uwchradd A | 1,500 disgybl CYADd 4.5% (Isel). Ardal dda ond peth amddifadedd. Trefol. | Cyfradd diweithdra: 7.1%; Dim cymwysterau POG: 9.5%; Lwfans chwilio am waith: 4.2%; IB/ESA: 7.6% MALlC: Isel | De Cymru |
| Ysgol Gynradd B | 250 disgybl CYADd 33% (Uchel). Cyn gymuned lofaol, 75% yn ddifreintiedig yn economaidd. | Cyfradd diweithdra: 10.1%; Dim cymwysterau POG: 20%; Lwfans chwilio am waith: 7.1%; IB/ESA: 16.2% MALlC: Uchel Iawn | Gwent |
| Ysgol Uwchradd B | 900 disgybl CYADd 26% (Uchel). Cyn gymuned lofaol, 75% yn ddifreintiedig yn economaidd | Cyfradd diweithdra: 10.1%; Dim cymwysterau POG: 20%; Lwfans chwilio am waith: 7.1%; IB/ESA: 16.2% MALlC: Uchel Iawn | Gwent |
| Ysgol Gynradd C | 200 disgybl CYADd 13.5% | Cyfradd diweithdra: 6%; Dim | Gogledd Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (Isel). Ysgol ddwyieithog. Dalgylch yn dref fechan. Lleiafrif o'r disgyblion o ardal ddifreintiedig yn economaidd. | cymwysterau POG: 14.2%; Lwfans chwilio am waith: 2.9%; IB/ESA: 7.7% MALlC: Isel | |
| Ysgol Uwchradd C | 500 disgybl CYADd 7.5% (Isel). Gwasanaethu tref a chymunedau gwledig 50% a'r Gymraeg yn iaith y cartref. Disgyblion o gefndiroedd amrywiol | Cyfradd diweithdra: 6%; Dim cymwysterau POG: 14.2%; Lwfans chwilio am waith: 2.9%; IB/ESA: 7.7% MALlC: Isel | Gogledd Cymru |
| Ysgol Gynradd D | 350 disgybl CYADd 12.5% (Isel). Disgyblion o ardal ddaearyddol eang gyda phoblogaeth gymysg yn economaidd-gymdeithasol. | Cyfradd diweithdra: 7.3%; Dim cymwysterau POG: 15.4%; Lwfans chwilio am waith: 3.3%; IB/ESA: 12% MALlC: Uchel | Dyfed-Powys |
| Ysgol Uwchradd D | 1,500 disgybl 12% CYADd (Isel). 5% yn siarad Cymraeg, rhai disgyblion o leiafrifoedd ethnig. | Cyfradd diweithdra: 7.3%; Dim cymwysterau POG: 15.4%; Lwfans chwilio am waith: 3.3%; IB/ESA: 12% MALlC: Uchel | Dyfed-Powys |
| Ysgol Uwchradd E | 700 disgybl CYADd 35% (Uchel). Ardal drefol 'Yr ardal dlotaf yng Nghymru'. | Cyfradd diweithdra: 8%; Dim cymwysterau POG: 16.2%; Lwfans chwilio am waith: 4.5%; IB/ESA: 15.2% MALlC: Uchel | De Cymru |
| Ysgol Arbennig 1 i ddisgyblion AYEC | 60 disgybl CYADd 69% Trefol – disgyblion o bob rhan o'r ddinas. 1 o bob 7 'yn cael edrych ar eu hôl', 10% o leiafrif ethnig. | Cyfradd diweithdra: 8.1%; Dim cymwysterau POG[1]: 11.1%; Lwfans chwilio am waith: 4.3%; IB/ESA: 8.2% MALlC: Dosbarthiad rhesymol o wastad | De Cymru |
| Ysgol | 30 disgybl | | De Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbennig 2 i ddisgyblion AYEC | Preswyl<br>CYADd dim ar gael | | |

Cyfartaledd CYADd ysgolion cynradd Cymru = 20.1%
Cyfartaledd CYADd ysgolion uwchradd Cymru = 17.1%

1. POG = poblogaeth oedran gweithio
2. MALlC = Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; rhennir awdurdodau lleol yn bum grŵp: Uchel iawn (lefelau amddifadedd): Uchel; Wedi ei ddosbarthu'n rhesymol o wastad; Isel ac Isel iawn, gweler http://wales.gov.uk/topics/statistics/publications/wimd08la/?lang=en (agorwyd 28/05/10).

Cynhaliwyd ymweliadau gwaith maes mewn saith ysgol yn ystod tymor yr hydref 2009, ac mewn pedair ysgol yn wythnosau cyntaf 2010.

Cynhaliwyd bron i bob un o'r cyfweliadau gyda phersonél yr ysgol a'r gymuned wyneb yn wyneb, gyda thri chyfweliad ar y ffôn. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn dibynnu ar y math o ysgol a'i maint gan gynnwys fel yr oedd yn addas a/neu ar gael: Prifathro/Dirprwy Brifathro; Pennaeth Bugeiliol/ABCh; Athro dosbarth Blwyddyn 6; Pennaeth cefnogi/ymddygiad disgyblion; nyrs ysgol; gweithiwr ieuenctid ysgol; llywodraethwr ysgol; rhiant; a SHCY.

Cynhaliwyd 47 cyfweliad gydag athrawon a staff eraill yn yr ysgol. Cynhaliwyd cyfweliadau cymuned gyda heddlu cymdogaeth, cydlynwyr cyfiawnder ieuenctid a gweithwyr proffesiynol lleol eraill: fe wnaethom gynnal 22 cyfweliad gyda gweithwyr proffesiynol cymunedol.

Cyfwelwyd pump SHCYau cyn yr ymweliad â'r ysgol, cyfwelwyd â'r saith yn ystod yr ymweliad ysgol. Recordiwyd bob cyfweliad gyda chaniatâd.

Fe wnaethom arsylwi ar saith gwers SHCY mewn un ysgol gynradd, dwy ysgol arbennig a phedair ysgol uwchradd, ac arsylwi mewn neuaddau bwyta, cynteddau, dosbarthiadau a chyfarfodydd.

Cynhaliwyd 23 o grwpiau ffocws yn cynnwys 87 o ddisgyblion:

- 45 disgybl Cynradd Blwyddyn 6,
- 6 disgybl Uwchradd Blwyddyn 8*
- 30 disgybl Uwchradd Blwyddyn 11
- 6 disgybl o ysgolion arbennig.

(* Nid oeddem wedi gofyn am gyfranwyr yn y grwpiau ffocws o Flwyddyn 8, ond roedd hyn wedi cael ei drefnu mewn un ysgol).

Pan oedd hynny'n bosibl roeddem wedi gofyn i'r grwpiau ffocws fod yn benodol i ryw (un ar ddeg grŵp), a bod rhai grwpiau (chwech) gyda disgyblion oedd yn cael eu hystyried fel rhai wedi 'ymddieithrio' (un cynradd, tri uwchradd a dau mewn ysgol arbennig). Recordiwyd holl drafodaethau'r grwpiau ffocws gyda chaniatâd y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan. Gofynnwyd i'r disgyblion ymateb i gwestiynau cyffredinol fel: A yw'r gwersi gyda'r heddlu yn ddefnyddiol?; A ydych yn teimlo yn ddiogel yn eich ysgol a'ch cymdogaeth?; A ydych yn teimlo bod yr heddlu yn gyffredinol yn gwrando ar

bobl ifanc ac yn eu trin yn deg? Roedd sefyllfaoedd ar gyfer trafodaethau grŵp yn cael eu defnyddio pan oedd amser yn caniatáu.

Tabl 2:  Trosolwg o ddata gwaith maes

| **YSGOL** *(Mae'r ysgolion sy'n rhannu'r un llythyren yn rhai cynradd ac uwchradd cysylltiedig)* | **DATA GWAITH MAES** (*Cynhaliwyd arsylwi cyffredinol a thrafodaethau anffurfiol gyda disgyblion a staff yn yr holl ysgolion*). |
|---|---|
| Ysgol Gynradd A | 2 gyfweliad yn yr ysgol; 1 cyfweliad yn y gymuned; 2 drafodaeth grŵp ffocws; arsylwi ar wers RhGCYCG. |
| Ysgol Uwchradd A (CYADd Isel) | 4 cyfweliad yn yr ysgol; 8 cyfweliad yn y gymuned; 3 trafodaeth grŵp ffocws (1 gyda rhai a ymddieithriodd). |
| Ysgol Gynradd B | 3 cyfweliad yn yr ysgol; 3 trafodaeth grŵp ffocws (1 gyda rhai a ymddieithriodd) |
| Ysgol Uwchradd B (CYADd Uchel) | 6 cyfweliad yn yr ysgol; 3 cyfweliad yn y gymuned; 2 drafodaeth grŵp ffocws; arsylwi ar wers RhGCYCG. |
| Ysgol Gynradd C | 2 gyfweliad yn yr ysgol; 1 cyfweliad yn y gymuned; 2 drafodaeth grŵp ffocws. |
| Ysgol Uwchradd C (CYADd Isel) | 3 cyfweliad yn yr ysgol; 3 cyfweliad yn y gymuned; 3 trafodaeth grŵp ffocws (1 gyda rhai a ymddieithriodd); arsylwi ar wers RhGCYCG. |
| Ysgol Gynradd D | 5 cyfweliad yn yr ysgol; 2 gyfweliad yn y gymuned; 1 drafodaeth grŵp ffocws. |
| Ysgol Uwchradd D (CYADd Isel) | 6 cyfweliad yn yr ysgol; 1 cyfweliad yn y gymuned; 3 trafodaeth grŵp ffocws; arsylwi ar wers RhGCYCG. |
| Ysgol Uwchradd E (CYADd Uchel) | 7 cyfweliad yn yr ysgol; 3 cyfweliad yn y gymuned; 3 trafodaeth grŵp ffocws (1 gyda rhai a ymddieithriodd); arsylwi ar wers RhGCYCG. |
| Ysgol arbennig 1 | 4 cyfweliad yn yr ysgol; 1 drafodaeth grŵp ffocws (gyda rhai a ymddieithriodd); arsylwi ar wers RhGCYCG. |
| Ysgol arbennig 2 | 3 cyfweliad yn yr ysgol; 1 drafodaeth grŵp ffocws (gyda rhai a ymddieithriodd); arsylwi ar wers RhGCYCG. |

*Er bod y cyfweliad yn y gymuned fel arfer yn digwydd mewn ysgol benodol (naill ai'r gynradd neu'r uwchradd mewn pâr cysylltiedig), roedd y pynciau a drafodwyd am y Rhaglen ac ymddygiad disgyblion yn gyffredinol yn yr ardal leol.*

*Arolwg Disgyblion*
Anfonwyd holiaduron i ddeg ysgol cyn ymweliad yr ymchwilwyr ac fe'u gweinyddwyd gan yr ysgol. Casglwyd yr holiaduron wedi eu llenwi gan yr ymchwilwyr pan oeddent yn ymweld â'r ysgol.

Dyfeisiwyd tri holiadur ychydig yn wahanol i bob grŵp blwyddyn (Blynyddoedd 6, 8, a 11) gan ystyried y gwersi gwahanol a gyflwynir gan y SHCY (gweler yr Atodiad am enghraifft o un Blwyddyn 11). Roedd yr holiadur yn cynnwys 20

cwestiwn, 12 ohonynt yn gofyn am 'dic' mewn blwch i gytuno neu anghytuno â datganiad neu gwestiwn. Roedd nifer o gyfleoedd hefyd i'r disgyblion roi mwy o fanylion a/neu roi sylwadau pellach. Roedd yr arolwg yn ddienw, gydag amlenni unigol yn cael eu darparu i'r disgyblion fel na fyddai staff yr ysgol yn gweld yr holiaduron wedi eu llenwi. Dosbarthwyd holiaduron gan yr athrawon[2]. Roedd y cwestiynau'n gofyn a oedd y gwersi a chyswllt gyda'r SHCY wedi gwella eu gwybodaeth a gwella eu dealltwriaeth a'u hymddygiad o ran camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a diogelwch yn yr ysgol a'r gymuned. Roedd y cwestiynau eraill am agweddau tuag at gyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fras wedi eu seilio ar yr arolwg *Scottish Schools Adolescent Lifestyle and Substance Use Survey* 2004 (SALSUS). Gweler (http://www.drugmisuse.isdscotland.org/publications/abstracts/salsus_national04.htm)

Roeddem wedi gofyn i bob ysgol ddarparu cyfanswm y disgyblion oedd ganddynt ym mlynyddoedd 6, 8 ac 11 fel y gallem anfon y nifer gofynnol o holiaduron. Mae'r gyfradd ymateb yn seiliedig ar y nifer o holiaduron a ddychwelwyd atom ni. Dosbarthwyd cyfanswm o 2015 holiadur i'r deg ysgol a llenwodd 1543 o ddisgyblion yr holiadur (193 yn Gymraeg). Mae hyn yn rhoi cyfradd ymateb gyffredinol o 88% i ysgolion cynradd (Blwyddyn 6), 78% i Flwyddyn 8, a 74% i Flwyddyn 11 (nid yw'r ysgol arbennig wedi ei chynnwys yn y dadansoddiad o'r arolwg oherwydd y niferoedd isel).

Tabl 3: Holiaduron a ddychwelwyd yn ôl yr ysgol

| Ysgol | CYA Dd | Holiaduron anfonwyd[3] | | | Holiaduron ddychwelwyd[3] | | | Cyfradd ddychwelyd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Bl 6 | Bl 8 | Bl 11 | Bl 6 | Bl 8 | Bl 11 | Bl 6 | Bl 8 | Bl 11 |
| Uwch – D | Isel | - | **233** | **228** | - | **201** | **160** | - | 86% | 70% |
| Uwch – A | Isel | - | **312** | **251** | - | **233** | **199** | | 75% | 79% |
| Uwch – C | Isel | - | 104 | 100 | - | 87 | 79 | | 84% | 79% |
| Uwch – B | Uchel | - | **148** | **174** | - | **102** | **115** | | 69% | 66% |
| Uwch – E | Uchel | - | 117 | **139** | - | 92 | **104** | | 79% | 75% |
| Cyn - B | Uchel | 35 | - | - | 33 | - | - | 94% | | |
| Cyn-C | Isel | 30 | - | - | 27 | - | - | 90% | | |
| Cyna | Isel | 60 | - | - | 49 | - | - | 82% | | |
| Cyn-D | Isel | 60 | - | - | 53 | - | - | 88% | | |
| Arb 1[1] | Uchel | - | 10 | 14 | - | 6 | 3 | - | 60% | 21% |
| Cyf[2] | | 185 | 924 | 906 | 162 | 721 | 660 | 88% | 78% 78% | 73% 74% |

1. Nid yw'r ysgol hon wedi cael ei chynnwys yn y dadansoddiad o'r holiadur oherwydd y niferoedd bychan

[2] Nid oes manylion sut y dosbarthwyd holiaduron mewn gwerthusiadau blaenorol.

2. Mae'r gyfradd ymateb gyffredinol yn cynnwys Ysgol Arbennig 1; nid yw'r ail yn cynnwys Ysgol Arbennig 1
3. Mae'r rhifau mewn print trwm yn dangos pan fydd gwahaniaeth o fwy na 30 yn y nifer o holiaduron a anfonwyd ac a ddychwelwyd.

Er mwyn medru sicrhau bod pawb yn ddienw, dadansoddir data ysgolion uwchradd yn ôl 'uwchben y cyfartaledd uwchradd yng Nghymru' ac 'is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd Cymru' o ran hawl i Ginio Ysgol Am Ddim (CYADd) a oedd yn 2009-10 yn 15.6% (http://www.statswales.wales.gov.uk)[2]; rhoddir adroddiad ar ysgolion cynradd ar wahân fel grŵp unigol gan y byddai gormod o ogwydd ar y sampl petaem yn defnyddio CYADd i ddosbarthu'r ysgolion, gan mai dim ond un ysgol yn y sampl oedd â hawl CYADd uchel. Mae 'CYADd Uchel' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at hawl CYADd sy'n uwch na'r cyfartaledd ac mae 'CYADd Isel' yn cyfeirio at hawl gan nifer is na'r cyfartaledd i gael CYADd. Er bod hyn yn arwain at ddiffyg cydbwysedd yn y rhifau mewn ysgolion uwchradd oherwydd y nifer wahanol o ymatebion o'r ysgolion, mae'r defnydd o ganrannau yn caniatáu i ni astudio'r gyfran o ymatebion ym mhob un o'r ddau fath o ysgolion. Er ein bod wedi dadansoddi'r data gan ddefnyddio cyfartaledd is ac uwch o ran hawl i CYADd, ac yn ôl rhyw (gweler Atodiad V), ni welwyd bod y dadansoddiadau yma yn cael effaith sylweddol ar y themâu cyffredinol na'r casgliadau a luniwyd. Cyflwynir data yn yr adroddiad hwn (5.4) yn ôl blwyddyn ysgol felly, ond, mae'r nifer fechan o ddisgyblion a'r ysgolion a arolygwyd yn golygu na ellir cyffredinoli ein canfyddiadau na'u hystyried yn gynrychioliadol yn ystadegol.

Cwblhawyd y gwaith maes yn yr ysgolion yn Chwefror 2010. Dychwelwyd yr holl holiaduron erbyn Chwefror 2010 a'u cofnodi yn SPSS (Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol) i'w dadansoddi.

### 2.3 Problemau a gododd o ran dull

Pan oedd gwahaniaeth o fwy na 30 yn y nifer o holiaduron a ddychwelwyd o'u cymharu â'r nifer a anfonwyd, mae'n bosibl bod dosbarth cyfan neu rai disgyblion unigol heb gael yr holiadur, neu eu bod yn absennol. Nid ydym yn gwybod os gadawyd dosbarthiadau neu unigolion allan, ac os gwnaed hynny, beth oedd nodweddion y disgyblion/dosbarthiadau penodol hynny.

Er bod amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn un o'r meini prawf ar gyfer dewis ysgolion, mae'n amlwg, o ddefnyddio hawl CYADd fel dangosydd, bod ysgolion gyda lefel uwch o ran CYADd yn cael eu tangynrychioli.

Mae'r nifer fechan o ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn golygu na ellir ystyried ein canfyddiadau fel rhai cynrychioliadol yn ystadegol nac y gellir eu cyffredinoli i bob ysgol, er bod swm, ansawdd a chysondeb y data, yn caniatáu i ni wneud rhai dyfarniadau ar effeithiolrwydd ac effaith y rhaglen.

---

[1] Lleihaodd y cyfartaledd CYADd i ysgolion uwchradd yn raddol o 19.8% yn 1996-97 i'w fan isaf ar 14.2% yn 2007-08 ers hynny mae wedi cynyddu hyd at 14.6% yn 2008-09 ac yn awr mae'n sefyll ar 15.6%

[2] Lleihaodd y cyfartaledd CYADd i ysgolion uwchradd yn raddol o 19.8% yn 1996-97 i'w fan isaf ar 14.2% yn 2007-08 ers hynny mae wedi cynyddu hyd at 14.6% yn 2008-09 ac yn awr mae'n sefyll ar 15.6%

Gwnaed y cyswllt gyda'r ysgolion trwy Gydlynydd Cenedlaethol y RhGCYCG a SHCY. Yn aml byddai'r SHCY yn dynodi pa unigolion mewn ysgolion ac yn y gymuned y dylem siarad â nhw. Mewn rhai achosion yr unigolion oedd yn cael eu dewis ar gyfer cyfweliad oedd y rhai mwyaf tebygol o roi adroddiad cadarnhaol ar y prosiect. Mewn rhai enghreifftiau roedd y berthynas rhwng y SHCY a'r ysgol yn arbennig o glos gan y gallai'r SHCY fod â phlant yn yr ysgol a/neu fod yn llywodraethwr ar yr ysgol. Dylid nodi y gallai hyn fod wedi cael effaith ar yr hyn a ddywedwyd yn y cyfweliadau.

Roeddem yn gwerthfawrogi yn fawr fod yr ysgolion wedi cytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad gan fod ein hymweliadau yn gofyn am gryn lawer o drefniadau. Fodd bynnag, roedd achlysuron pan oedd y trefniadau yn rhai ad hoc a/neu fod rhaid eu newid ar y funud olaf, gan olygu nad oeddem bob amser yn medru siarad â chymaint o bobl ag yr oeddem wedi gobeithio, neu weithiau yn cael mwy o gyfweliadau nag a fwriadwyd. Fe wnaethom fanteisio ar gynnig i ymweld ag ysgol arbennig gyfagos (nid un o'r deg ysgol a ddewiswyd i gychwyn) a thra roeddem yno fe lwyddwyd i gyfweld staff a chael trafodaethau ffurfiol/anffurfiol gyda nifer fechan o ddisgyblion.

Yn yr adrannau sy'n dilyn rydym yn tynnu data at ei gilydd o'r holl gyfweliadau, gwaith maes yn yr ysgolion, holiadur y disgyblion a'r grwpiau ffocws i ateb pob un cwestiwn ymchwil. Mae'r swmp mawr o ddata amrywiol yn adlewyrchu cymhlethdod y rhyng-gysylltiadau dan sylw yn sefyllfa weithredol wirioneddol y Rhaglen.

# 3. Crynodeb o'r casgliadau o'r adolygiad o ddeunydd printiedig

Mae'r adolygiad llawn yn Atodiad 11. Crynodeb sydd yma.

### 3.1 Cyflwyniad

Fe gychwynnwn gyda gair o rybudd. Amcangyfrifir bod dros dri chwarter yr ymchwil i addysg cyffuriau sy'n cael ei werthuso'n dda yn cael ei gynnal yn Unol Daleithiau America (Midford, 2007), gyda llwyddiant fel arfer yn cael ei fesur o ran ymwrthod. Mae hyn yn codi cwestiynau o ran y graddau y mae'n bosibl cyffredinoli canfyddiadau o'r fath tu hwnt i'w gwlad wreiddiol (Faggiano et al., 2007). Mae'n wir hefyd bod gwerthuso ymyrraeth yn golygu dyfarniadau goddrychol, gyda'r canlyniadau yn adlewyrchu amrywiaeth o gysylltiadau, nid y rhai yn y prosiect neu ymyrraeth benodol sy'n cael eu gwerthuso yn unig (McCluskey et al., 2004). Mae effeithiolrwydd felly yn anodd ei fesur ac mae'n bwysig cadw mewn cof na fydd rhaglenni yn newid pobl yn uniongyrchol, ond maent yn cynnig y cyfle, y wybodaeth a'r adnoddau i newid (Chapman, 2000).

Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o astudiaethau yn darlunio sut y gall y cyfuniad o wahanol elfennau bregus a brofir gan bobl ifanc gael effaith ar eu hagwedd a'u hymddygiad. Er enghraifft darganfu DrugScope164 (2001) bod camddefnyddio cyffuriau ac ysmygu yn gyffredinol yn eithaf cyffredin ymhlith pobl ifanc fregus, gan gynnwys plant y gofalir ar eu hôl, rhai sy'n cysgu ar y stryd, troseddwyr ifanc, y rhai sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol, a phlant rhieni sy'n defnyddio cyffuriau. Darganfu astudiaeth ar bobl ifanc mewn risg yn Abertawe bod pobl ifanc sy'n defnyddio cyffuriau yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi tangyflawni yn yr ysgol, bod ganddynt berthynas wael â'u hathrawon, ac roedd un o bob pedwar yn nodi eu bod wedi colli diddordeb yn yr ysgol yn ogystal â diffyg ymroddiad i'r ysgol (Case & Haines, 2003). Roedd pobl ifanc a nododd bod llawer o gyffuriau ar gael yn eu cymdogaeth, a'r rhai oedd yn teimlo nad oedd yn ddiogel yno yn ystod y dydd, hefyd yn cael eu dynodi fel arwyddion y byddent yn defnyddio cyffuriau (ibid).

Dengys ymchwil hefyd bod pobl ifanc heddiw yn llai a llai tebygol o fod â phrofiadau cyffredin ac mae natur gynyddol beryglus eu profiadau bywyd yn cael ei gydnabod yn awr (gweler er enghraifft Bottrell & Armstrong, 2007; Hill et al., 2007; Bancroft et al., 2004). Mae'n wir hefyd bod ysgolion yn datblygu yn sefydliadau mwy cymhleth, fel arfer yn ymwneud ag amrywiaeth o ymyraethau a chynlluniau blaengar lluosog a chyfamserol. Mae gwerthuso ymyrraeth yn yr ysgol felly yn gofyn am ddull gofalus gyda'r naws cywir sy'n cydnabod y cymhlethdodau hyn.

### 3.2
### Pa dystiolaeth sydd yn bodoli bod ymyraethau yn yr ysgol yn medru newid agweddau ac ymddygiad pobl ifanc yng nghyswllt ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau a diogelwch personol?

Mae'n anodd priodoli newid uniongyrchol neu effaith i un ymyrraeth benodol, er bod ymchwil yn dangos bod yr ymyraethau hynny sy'n holistaidd, cyffredinol, ac yn defnyddio arddulliau addysgu rhyngweithiol ar sail sgiliau yn fwy effeithiol (Lloyd et al., 2007; Stewart-Brown, 2006; Sutton et al., 2005). Mae ymchwil hefyd yn y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau yn awgrymu bod ymgysylltu cyffredinol ac ymlyniad gyda'r ysgol yr un mor bwysig â gwybodaeth a deallusrwydd penodol i atal ymddygiad peryglus gan bobl ifanc (McNeely et al., 2002; DES, 2005).

Wrth edrych ar y dystiolaeth o ddadansoddiadau cyffredinol a rhai astudiaethau penodol, cytunir yn gyffredinol mai ychydig o werthusiadau o ymyraethau camddefnyddio cyffuriau mewn ysgolion sydd wedi dangos effeithiau tymor hir ar ddefnyddio cyffuriau, er bod tystiolaeth eithaf cryf bod nifer o'r rhaglenni yn dangos manteision tymor byr ac y gallant beri oedi o ran yr ymddygiad peryglus (Faggiano et al., 2009). Mae'n wir hefyd bod defnyddio peidio neu ymwrthod fel dangosydd ar gyfer llwyddiant ar gyfer ymyraethau cyffuriau a sylweddau yn dangos canlyniadau tymor hir amrywiol a siomedig. Yn dilyn cyfres o werthusiadau trylwyr o'r rhaglen DARE yn yr Unol Daleithiau (Addysg Gwrthsefyll Camddefnyddio Cyffuriau) fe'i gosodwyd yn y categori "ddim yn gweithio" gan Brif Feddyg yr Unol Daleithiau (2001). Yn gyffredinol, mae tystiolaeth ar effeithiau'r cwricwlwm DARE traddodiadol, sy'n cael ei weithredu yn safon 5 a 6, yn dangos bod y plant sy'n cymryd rhan yr un mor debygol o ddefnyddio cyffuriau â'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan (gweler hefyd Thombs, 2000).

Fodd bynnag, fe ddangosodd dadansoddiad meta Wilson a Lipsey (2003) y gall ymyraethau yn yr ysgol gael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ymosodol yn yr ysgol. Gwelwyd bod rhaglenni i wella datrys anghydfod a lleihau trais ag ymddygiad ymosodol hefyd yn effeithiol (Wilson a Lipsey, 2003; Stuart-Brown, 2006; Mytton et al., 2009). Er enghraifft, mae rhaglenni ysgol gyfan fel Arferion Adferol yn cynnwys amrywiaeth o strategaethau a fwriadwyd i adfer perthynas dda lle bu gwrthdaro a niwed (Lloyd et al., 2007). Mae tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod rhaglenni holistaidd sy'n hyrwyddo iechyd meddwl trwy gryfhau ethos yr ysgol, yn fuddsoddiad yr un mor gynhyrchiol â rhaglenni penodol (Stuart-Brown, 2006).

Darganfu adolygiadau o Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) (Ofsted, 2007; Ofsted, 2010) bod ABCh yng nghwricwlwm ysgolion Lloegr yn parhau i greu problemau yn arbennig yn y sector uwchradd gyda phroblemau ynglŷn â chymwysterau a medrusrwydd staff ysgol uwchradd i gyflwyno ABCh. Ysgrifennodd McLaughlin, yr awdur/ymchwilydd mwyaf amlwg ar ABCh yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, yn 2008 mewn erthygl ar les emosiynol:

> Mae hanes Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd yn y Deyrnas Unedig yn un o ymdrechion i frwydro yn erbyn effeithiau gwahanu oddi wrth, a datgysylltu oddi wrth nodau a phrosesau'r cwricwlwm prif-ffrwd. Mae'n faes o'r cwricwlwm sydd wedi ei chael hi'n anodd cael statws, digon o adnoddau ac i gael ei gymryd o ddifrif. Nid oes cyfiawnhad dros hyn ond mae'n ganlyniad i'r agwedd 'bolltio wrth y cwricwlwm'. (2008:365)

Roedd yr adroddiad gan Estyn ar addysg camddefnyddio sylweddau (Estyn 2007) yn dadlau bod effaith Cylchlythyr 17/02 ar gamddefnyddio sylweddau yn gymysg:

> 38 Mae effaith y Cylchlythyr mewn ysgolion uwchradd yn llai amlwg wrth ddylanwadu ar agweddau a gwerthoedd pobl ifanc mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau....
>
> 39 Nid yw'r Cylchlythyr yn cyfrif yn ddigonol am, nac yn rhoi digon o arweiniad i ysgolion a lleoliadau addysg eraill, am farn plant a phobl ifanc o ystod o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r plant hynny sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol.
>
> 40 Nid yw'r Cylchlythyr yn rhoi digon o bwyslais ar bwysigrwydd cynnig ABCh i athrawon dan hyfforddiant ..Yn gyffredinol, nid oes gan y rhan fwyaf o athrawon, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ddigon o hyder ac arbenigedd yn y maes hwn ac mae hyn yn rhwystro effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu. (2007:10-11)

Yn ddiweddarach maent yn ychwanegu:

> Lle mae ABCh yn cael ei threfnu fel bod athrawon anarbenigol yn dilyn gwersi i fyny sydd wedi cael eu haddysgu gan yr asiantaeth allanol, yn aml nid oes gan yr athrawon hyn ddigon o arbenigedd a hyder. Yn aml bydd y gwersi hyn yn troi'n weithgarwch 'llenwi' heb unrhyw ddiben nac effaith go iawn. (2007:21)

Mae adroddiad cynharach gan Estyn sy'n edrych ar y ddarpariaeth ABCh yn llawer mwy cadarnhaol (er, gan adlewyrchu sefyllfa'r pwnc mewn ysgolion uwchradd, nid oes gan Estyn arolygwyr arbenigol ar ABCh).

> Yng nghyfnod allweddol 3, mae ansawdd y dysgu mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn foddhaol neu yn well mewn bron i 90% o'r dosbarthiadau ac yn dda neu dda iawn yn bron eu hanner.
>
> Yng nghyfnod allweddol 4, mae o leiaf yn foddhaol mewn 85% o'r gwersi personol a chymdeithasol ac yn dda neu dda iawn mewn mwy na dwy ran o bump. (Estyn 2002)

Mae'r deunydd printiedig yn dangos y dylai datblygiad effeithiol ar ABCh gynnwys elfennau i'r ysgol gyfan, trawsgwricwlaidd a phenodol, a bod ei gyflwyno yn llwyddiannus yn dibynnu ar ddatblygu a chefnogi staff. Gwelwyd bod cyflwyno ABCh gan asiantaethau allanol/timau amlasiantaethol yn fwy effeithiol pan fydd yn cael ei gefnogi gan waith parhaus gan staff yr ysgol. Rhoddir canmoliaeth uchel i gyfranwyr allanol pan fyddant yn gweithio gydag addysg yr athro dosbarth ac maent yn effeithiol pan fyddant yn cyfuno eu gwybodaeth arbenigol gyda chyfraniad gweithredol gan y disgyblion (White & Buckley, 2007). Fodd bynnag, gall hyfforddiant, blaenoriaethau a chyllido gwahanol atal ymyraethau rhyngasiantaethol effeithiol yn yr ysgol, er bod hyn

yn cael ei liniaru pan fydd y rhai sy'n cymryd rhan wedi datblygu lefel o ymddiriedaeth broffesiynol a dealltwriaeth (Stead et al., 2003).

Ystyrir bod dulliau cyffredinol/ysgol gyfan yn gost effeithiol ac effeithlon oherwydd eu bod yn cyrraedd nifer fawr o bobl ifanc ac y gallant gael effaith gadarnhaol ar ymddygiad grwpiau sydd mewn perygl mewn modd anwahaniaethol a chynhwysol (Roe a Becker, 2005). Ond, gall y rhai sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol, y rhai sy'n chwarae triwant yn gyson a'r rhai sydd mewn mwyaf o risg fod yn llai tebygol o gael budd o'r dulliau cyffredinol ysgol gyfan. Gall ymyraethau sydd wedi eu targedu a'u dynodi fod yn effeithiol, ond maent yn dibynnu ar ddynodi ac asesu pobl ifanc fregus, a gwelwyd bod hyn yn peri problemau (Deed, 2007). Yn ymarferol, fodd bynnag, yn nodweddiadol mae ysgolion yn mabwysiadu cyfuniad o ddulliau i ymdrin ag ymddygiad disgyblion a hyrwyddo ffordd o fyw iach a lles, ac mae nifer o ysgolion yn gynyddol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill yn y gwaith addysgu, dysgu a chefnogi.

**Crynodeb**

- Mae'n anodd mesur effeithiolrwydd rhaglen ac mae'n bwysig cadw mewn cof na fydd rhaglenni yn newid pobl yn uniongyrchol yn y tymor byr efallai, ond maent yn cynnig y cyfle a'r adnoddau i bobl newid yn y dyfodol.
- Gall y cyfuniad o wahanol fygythiadau sy'n wynebu pobl ifanc gael effaith ar eu hagwedd a'u hymddygiad.
- Mae'n anodd priodoli newid uniongyrchol neu effaith ar unrhyw ymyrraeth unigol, er bod peth ymchwil yn dangos mai'r ymyraethau hynny sy'n holistaidd, cyffredinol, ac sy'n defnyddio arddulliau addysgu ar sail sgiliau sydd fwyaf effeithiol.
- Mae'n cael ei gytuno yn gyffredinol mai ychydig o werthusiadau ar ymyraethau camddefnyddio cyffuriau mewn ysgolion sydd wedi dynodi effeithiau tymor hir ar ddefnyddio cyffuriau, er bod tystiolaeth gymharol gryf bod nifer o raglenni yn dangos manteision tymor byr ac y gallant beri oedi o ran cychwyn ar ymddygiad peryglus.
- Mae ymchwil yn y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau yn awgrymu, yn gyffredinol, bod ymgysylltu ac ymlyniad gyda'r ysgol yr un mor bwysig â gwybodaeth a deallusrwydd arbennig i atal ymddygiad peryglus ymhlith pobl ifanc.
- Gwelwyd bod darparu ABCh gan asiantaethau allanol/ timau amlasiantaethol yn fwy effeithiol pan fydd yn cael ei gefnogi gan waith dilynol gan staff yr ysgol.

**3.2**
**Pa dystiolaeth mae'r deunydd printiedig ymchwil yn ei ddarparu o ymyraethau effeithiol mewn ysgolion sy'n cynnwys yr heddlu mewn ysgolion?**

Mae hanes hir i swyddogion yr heddlu yn gweithio mewn ysgolion yn y Deyrnas Unedig a mannau eraill er i'w perthynas waith gydag ysgolion gael ei ffurfioli ym mhellach o'r 1990au ymlaen (Shaw, 2004). Yn Unol Daleithiau America, mae swyddogion yr heddlu mewn ysgolion wedi ymgymryd â rolau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo diogelwch yn yr ysgol a gweithredu'r gyfraith a

darparu patrolau monitro o gwmpas campws yr ysgol (Brown, 2006). Mae swyddogion yr heddlu (yn yr Unol Daleithiau ac yn rhyngwladol) hefyd yn cyflwyno addysg cyffuriau trwy'r prosiect DARE (Addysg Gwrthsefyll Camddefnyddio Cyffuriau). DARE yw'r rhaglen atal cyffuriau a ddefnyddir fwyaf eang yn yr Unol Daleithiau, er bod nifer o werthusiadau da a dadansoddiadau meta yn dangos yn gyson nad yw'n cael fawr neu ddim effaith o ran atal camddefnyddio cyffuriau (gweler Thombs, 2000; Surgeon General yr Unol Daleithiau, 2001). Yn groes i hynny, mae swyddogion yr heddlu yn y Deyrnas Unedig yn bennaf wedi bod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o rolau cefnogol ac ataliol gan gynnwys:

- cyflwyno rhaglenni addysgol (e.e. DARE);
- atal ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- gweithio gyda disgyblion bregus;
- hyrwyddo diogelwch ysgolion.

Dangosodd adroddiad gan Ofsted (2002) bod 80% o ysgolion Lloegr wedi defnyddio cyfraniadau allanol yn y dosbarth i gyflwyno addysg cyffuriau. Roedd y cyfranwyr allanol yn cynnwys yr heddlu, addysgwyr iechyd, cynghorwyr, nyrsys ac arweinwyr cymheiriaid hŷn. Canfu Stead ac Angus (2004) gan dynnu ar arolwg Lowden a Powney o ddarparwyr addysg cyffuriau mai'r heddlu oedd y cyfrannwr allanol a ddefnyddid amlaf. Fodd bynnag, o'u hadolygiad daeth Buckley a White (2007) i'r casgliad nad oes digon o dystiolaeth i asesu'n gywir a yw rhai cyfranwyr yn fwy effeithiol nag eraill.

Mae'r dystiolaeth am swyddogion yr heddlu yn gweithio yn arferol mewn ysgolion yn y Deyrnas Unedig yn gymharol brin o ystyried bod y cynlluniau yn dueddol o fod yn eu dyddiau cynnar. Ar draws tair o bedair gwlad y Deyrnas Unedig gwelwyd ymdrech bolisi ddiweddar i osod swyddogion yr heddlu mewn ysgolion. Yn yr Alban cwblhawyd gwerthusiad ar swyddogion yr heddlu ar gampws gan ISRA MORI (Black et al., 2010) yn ddiweddar. Darganfu'r gwerthusiad hwn bod cynnal gwaith grŵp wedi ei dargedu ar ddisgyblion heriol neu mewn perygl, a rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr ac asiantaethau cefnogi eraill, yn cael eu hystyried yn brif fanteision y rôl. Teimlid hefyd bod heddlu campws yn cael yr effaith fwyaf mewn ardaloedd difreintiedig lle nad oes gan y cymunedau enghreifftiau cadarnhaol o bobl a lle gall eu hamgyffrediad o'r heddlu fod yn negyddol.

**Crynodeb**

- Mae'r corff o dystiolaeth am swyddogion yr heddlu yn gweithio o ddydd i ddydd mewn ysgolion yn y Deyrnas Unedig yn gymharol brin o ystyried bod y mentrau yn gymharol newydd ar hyn o bryd.
- Darganfu'r gwerthusiad ar swyddogion heddlu campws yn yr Alban bod cynnal gwaith grŵp wedi ei dargedu ar ddisgyblion heriol neu mewn perygl, a rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr ac asiantaethau cefnogi eraill, yn brif fanteision y rôl. Roedd yr heddlu campws yn cael yr effaith fwyaf mewn ardaloedd difreintiedig lle nad oes gan y cymunedau enghreifftiau cadarnhaol ac y gall eu hamgyffrediad o'r heddlu fod yn negyddol.

# 4. Gwerthuso Proses

## 4.1 Cyflwyniad

Bydd yr adran hon yn ymdrin â chwestiynau ymchwil 3-8 am y RhGCYCG ar waith a phroblemau sy'n codi o hyn. Rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau yng nghyswllt y rolau a'r cylchoedd gorchwyl ar gyfer y SHCY. Rydym yn amlinellu'r strwythur a ddefnyddir i gyflwyno gwersi gan SHCYau ac yna yn canolbwyntio ar rôl 'plismona cefnogol' y SHCY a sut mae hyn yn ymddangos mewn arferion o ddydd i ddydd yn yr ysgolion.

Yna rydym yn edrych ar sut y mae ysgolion wedi ymgysylltu â'r rhaglen ac i ba raddau y mae'r gwersi a gyflwynir gan y SHCY yn cyd-fynd â rhaglenni ABCh ysgolion. Archwilir y berthynas rhwng staff yr ysgol a'r SHCY hefyd er mwyn deall a darlunio'r ddealltwriaeth o'r rolau gwahanol a gyflawnir gan SHCYau (cwestiynau ymchwil 4 a 6).

Rydym hefyd yn edrych ar ddatblygiad y rhaglen a'r newidiadau mewn rolau a chylchoedd gorchwyl, gan gynnwys gwaith gyda dysgwyr sydd wedi ymddieithrio a/neu golli diddordeb (cwestiynau ymchwil 5 a 7), ac yn olaf, rydym yn rhoi sylwadau ar y systemau a ddefnyddir gan y Rhaglen ar gyfer monitro a gwerthuso mewnol (cwestiwn ymchwil 8)

Dilynir pob cwestiwn ymchwil gan grynodeb.

## 4.2

## Beth yw gwahanol rolau a chylchoedd gorchwyl SHCYau yn ysgolion Cymru? Sut y mae eu cylchoedd gorchwyl penodol (cyflwyno gwersi a phlismona cefnogol) yn cael eu deall gan wahanol weithredwyr yn yr ysgol a'r gymuned ehangach?

Ar hyn o bryd disgrifir cyfrifoldebau SHCY fel:

> Ymwneud yn weithredol â phlant a phobl ifanc i gynnig strategaeth gadarnhaol a chadarn i'r holl ddisgyblion ysgol o ran cryfhau sicrwydd cyhoeddus, gan ddylanwadu ar agweddau am addysg sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch personol, a thrwy hynny hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol a sicrwydd, yn yr ysgolion a'r gymuned ehangach.

Mae'r prif ddyletswyddau yn cynnwys:

> Hyrwyddo cyswllt cadarnhaol rhwng yr heddlu a sefydliadau addysgol trwy weithio yn glos gyda'r ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, gan gynnwys ysgolion arbennig a sefydliadau darparu i hyrwyddo camau sy'n arwain at leihad mewn troseddau ac anhrefn yn unol ag amcanion y RhGCYCG.
>
> Cyflwyno'r Rhaglen ar draws Cyfnodau Allweddol 1 i 4 gan atgyfnerthu agweddau ar y rhaglen ABCh, egwyddorion dysgu gydol oes a'r Rhaglen Ysgolion Iach.

Cwblhau rhaglen hyfforddi graidd orfodol genedlaethol yn llwyddiannus.

Cymryd rhan mewn cynlluniau a mentrau, gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau perthnasol sydd â diddordeb mewn materion ynglŷn ag ysgolion.

Dynodi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn ddioddefwyr neu'n droseddwyr a hysbysu/eu cyfeirio at yr oedolyn perthnasol yn yr asiantaeth briodol.

(Disgrifiad o Rôl RhGCYCG Gorffennaf 2010)

Er bod rolau a chylchoedd gorchwyl y SHCYau a gyfwelwyd yn cyd-fynd â'r disgrifiad uchod yn gyffredinol, mae arferion o ddydd i ddydd yn arwain at beth amrywiaeth rhwng ardaloedd heddlu, yn arbennig o ran y rôl plismona cefnogol (rhoddir enghreifftiau isod).

*Cyflwyno Gwersi*
Cydnabyddir mai prif ffocws y RhGCYCG yw cyflwyno gwersi fel rhan o ABCh:

> *Mae gan ABCh a datblygu sgiliau le cryfach yn y cwricwlwm yng Nghymru...mae nod y rhaglen graidd a'r modd y mae'n cael ei chyflwyno yn awr yn cyd-fynd â nodau'r cwricwlwm diwygiedig yng Nghymru*. (Arbenigwr Pwnc APADGOS).

Ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol bydd SHCYau yn cyflwyno, o leiaf, y nifer ganlynol o wersi:

5 Gwers camddefnyddio cyffuriau a sylweddau;
5 Gwers ymddygiad cymdeithasol a chymuned;
5 Gwers diogelwch personol.

(*Pecyn Athrawon RhGCYCG* 2008)

Mae'r nifer o ysgolion a ddyrennir i bob SHCY yn dibynnu ar ddemograffeg a'r ardal. Roedd gan y SHCYau a gyfwelwyd gyfrifoldeb am rhwng tair a phedair ysgol gyfun a 12 a 36 ysgol gynradd yr un. Mae hyn yn cyfateb i tua 14-17 gwers RhGCYCG yr wythnos i bob SHCY – cyfartaledd o ddwy wers y flwyddyn i bob dosbarth/grŵp blwyddyn ysgol gynradd. Fel y disgrifiwyd gan un SHCY '*Rwyf yn cael cyswllt â dros 10,000 o blant y flwyddyn*.' (SHCY 4). Rhoddodd SHCY arall y canlynol fel darlun o'i amserlen gwersi mewn ysgol gyfun:

Blwyddyn 7 un wers y flwyddyn;
Blwyddyn 8 dwy wers y flwyddyn;
Blwyddyn 9 un wers y flwyddyn;
Blwyddyn 10 tair gwers y flwyddyn;
Blwyddyn 11 un wers y flwyddyn. (SHCY 1)

Mae'r cyswllt ar gyfer cyflwyno gwersi yn y pen draw yn dibynnu ar faint yr ysgol, anghenion yr ysgol ( o ran cael mynediad at fodylau ychwanegol sy'n cael eu cynnig gan y RhGCYCG); hyd yr amser y mae'r SHCY wedi bod yn

gweithio gydag ysgol; a'r berthynas rhwng y SHCY a'r ysgol. Mae pob SHCY yn cyflwyno rhai gwersi mewn dwy neu dair ysgol gyfun tua unwaith yr wythnos. Felly, er bod yr amser y mae SHCY yn ei dreulio gyda dosbarth arbennig yn gyfyngedig yn aml i ddwy wers y flwyddyn, maent yn aml yn cyflwyno gwersi mewn ysgolion cyfun mawr yn wythnosol (er nad yw hyn yn wir mewn ysgolion cyfun gyda ABCh 'bloc' – gweler isod). Dywedodd nifer o staff yr ysgol bod hyn yn help i atgoffa dysgwyr o'r gwersi, a gall gyfrannu at ddisgyblaeth dda, ac mewn rhai ysgolion, arwain at weld y staff a'r dysgwyr yn teimlo'n fwy diogel yn yr ysgol.

Roedd teimlad cryf gan y mwyafrif o'r rhai â gwybodaeth allweddol a bron y cyfan o staff yr ysgolion mewn ysgolion cyfun a chynradd, mai'r SHCYau oedd yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r gwersi hyn. Ac, er na wnaethom ond cyfweld nifer fechan o rieni, roeddent hwythau yn cefnogi'r farn hon. Roedd y SHCYau yn cael eu gweld fel pobl oedd â phrofiad personol o'r problemau; gwybodaeth gyfredol; iwnifform; a phresenoldeb yn y dosbarth:

> *Dwi'n meddwl bod y wybodaeth yn dod yn fwy pwysig oherwydd ei bod yn cael ei chyflwyno gan yr un sydd ar y stryd yn gweithio gyda hi* (Pennaeth, ysgol gyfun CYADd uchel).
>
> [SHCY] *mewn iwnifform – mae'n creu safbwynt gwahanol* (Cydlynydd ABCh, ysgol gyfun CYADd isel)
>
> *Fe alla i siarad am y gyfraith, ond yn sicr mae'n gryfach os oes gennych chi swyddog heddlu sydd, ar yr wyneb, â mwy o brofiad o'r gyfraith* …. (Athro Dosbarth ysgol gynradd)
>
> … *oherwydd bod gennym ni brofiad bywyd. Nid yw'r athro wedi arestio neb. Nid ydyn nhw wedi ymdrin â merch sydd wedi cael ei threisio oherwydd ei bod wedi mynd ar hyd stryd gefn yn hytrach na dilyn y brif ffordd adref* …… (SHCY 6)
>
> *Ac mae pob stori yr wyf yn ei dweud yn y dosbarth, wyddoch chi, y cyfan yn bethau yr wyf wedi delio â nhw yn yr ardal hon....fe allai ddod â'r math yna o waith yn fyw …* (SHCY 5)

Fodd bynnag, roedd peth beirniadaeth gan ddisgyblion oedd yn mynychu ysgolion uwchradd mewn ardaloedd cyfoethog bod cynnwys y gwersi weithiau yn rhy eithafol:

> *Ie, ie maen nhw* [gwersi RhGCYCG] *yn agor llygaid rhywun, ond maen nhw'n eithaf eithafol, felly dyw e ddim yn* [teimlo fel petai] *yn mynd i ddigwydd i chi.*

Roedd peth beirniadaeth hefyd ar SHCYau yn cyflwyno gwersi gan leiafrif o weithwyr proffesiynol oedd yn teimlo y dylai athrawon gael eu hyfforddi i gyflwyno'r gwersi fel bod neges ataliol yn hytrach nag un cyfreithiol yn cael ei chyflwyno i'r disgyblion:

> *Sut allwch chi gael swyddog heddlu yn mynd i mewn ac yn siarad am leihau niwed* [camddefnyddio sylweddau] *a phethau felly? Mae'n rhaid i swyddogion yr heddlu, yn ôl y diffiniad, siarad am hyn fel ymddygiad anghyfreithlon….*(Aelod o Banel Ymgynghorol)

Roedd y farn uchod yn cael ei chefnogi gan yr uwch swyddog heddlu hwn a deimlai y dylai SHCYau ganolbwyntio ar anghyfreithlondeb ymddygiad penodol:

> *Mae'r holl astudiaethau, wel o fy safbwynt i, yn dweud ie fe allwch chi ddwyn gweithiwr iechyd sy'n deall problemau trin camddefnyddio sylweddau i mewn, dwi ddim yn amau o gwbl, <u>ond y ffaith sylfaenol ydi bod defnydd anghyfreithlon ar gyffuriau yn fater gorfodi.</u>* (Uwch Swyddog Heddlu 2)

Teimlai rhai o'r rhai â gwybodaeth allweddol a nifer o staff yr ysgol nad oedd gan yr athrawon y wybodaeth angenrheidiol i ddarparu'r math hwn o wersi, ac y byddent yn teimlo yn anghyfforddus yn ymdrin â rhai o'r pynciau (4.3).

Mae pryderon cynharach o ysgolion nad oedd gan yr heddlu'r sgiliau addysgu wedi cael eu trin gyda sgiliau athrawiaethol y SHCYau yn cael eu cydnabod:

> *Os bydd [SHCY] yn cyflwyno gwersi mae'n gwybod bod cynnwys i'r wers, cyflwyniad, craidd, gwaith grŵp, gwaith parau, beth bynnag. Mae casgliad ar y diwedd. Rydych chi'n gwybod fel rydyn ni'n siarad – athrawon ynte?* (Prifathro Cynorthwyol ysgol gyfun CYADd uchel).
>
> *Rydym* [ysgol gynradd] *yn edrych ar gwricwlwm sgiliau newydd ac mae'r plant yn defnyddio eu sgiliau, yn datrys problemau ac yn defnyddio eu sgiliau meddwl ...yr hyn yr ydym yn ei weld yw bod plant na fyddai fel arfer yn cymryd rhan mewn gwers fel yna, sydd yn ymgysylltu'n llwyr â hi* [gwers SHCY] *ac* [yn dysgu] *sgiliau newydd i fynegi eu hunain ynddynt.* (Athro dosbarth ysgol gynradd)

Nid oedd rôl a chylch gorchwyl y SHCYau yn cael eu trin yn uniongyrchol yn holiadur y disgyblion nac yn y trafodaethau grŵp ffocws, ond roedd llawer o sylwadau am fwynhau'r gwersi a dysgu oddi wrthynt (5.4). Mae strwythur y gwersi RhGCYCG yn cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae rôl, tasgau rhyngweithiol, defnyddio propiau a DVD, a thrafodaeth. Mewn grwpiau ffocws roedd disgyblion cynradd fel arfer yn medru cofio nifer o wersi a ddysgwyd iddynt, ac ar draws yr holl grwpiau blwyddyn roedd mwyafrif y disgyblion yn dweud bod y gwersi yn ddiddorol a '*ddim yn boring'.* Pan ofynnwyd a oedd y SHCY yn wahanol i athro, ymatebodd y disgybl hwn: '*Weithiau. Mae ei gwersi* [SHCY] *yn fwy o hwyl*'.

*Rôl Plismona Cefnogol*

Gwelid cyflwyno gwersi fel 80% o amser SHCY, gyda'r 20% arall ar gyfer plismona cefnogol. Fodd bynnag, mae'r rôl plismona cefnogol i'r SHCY yn amrywiol iawn ac felly yn anodd i'r rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen i'w disgrifio. Yn Adroddiad Cenedlaethol RhGCYCG

(2006), roedd adran fer iawn dan y teitl 'rôl gefnogol 20%' oedd yn disgrifio'r rôl gefnogol fel:

> i alluogi swyddogion ymgysylltu â bywyd yr ysgol a chynorthwyo gyda chyngor, digwyddiadau neu i gymryd rhan wrth ddatblygu polisi mewn meysydd perthnasol o fywyd yr ysgol.

Roedd nifer o'r rhai â gwybodaeth allweddol a gyfwelwyd, fodd bynnag, naill ai ddim yn gwybod am y rhaniad 20/80, gan weld y Rhaglen fel cyflwyno gwersi yn unig, neu nid oedd ganddynt syniad clir o'r hyn y gallai 'plismona cefnogol' fod yn cyfeirio ato:

> *Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad oes gennyf syniad clir o'r rôl honno, fel rwyf i'n deall mae'r swyddogion ar gael i gefnogi'r ysgol os bydd digwyddiadau o fandaliaeth, dyweder, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas adeiladau'r ysgol. Materion fel yna, felly nhw fydd y cyswllt cyntaf yn hytrach na gorfod galw swyddog lleol mewn iwnifform i mewn. Dyna sut yr wyf fi'n deall pethau, neu weithio gyda rhieni, grwpiau cymunedol ehangach, y math yna o beth*. (Arbenigwr Pwnc APADGOS)

Yn groes i hynny, roedd rhai â gwybodaeth allweddol o'r gwasanaeth heddlu yn cyfeirio at yr 20% fel rhywbeth oedd yn cynnwys gwaith ymarferol yr heddlu:

> *Ond, wyddoch chi mae'r rhaniad 80/20 yna yn, dwi'n tybio, mewn ffordd yn eithaf cyfyngedig ac mae'n achosi problemau yn weithredol i'r heddlu....mae'r ffaith bod swyddogion yr heddlu yn cael eu clymu gan yr amodau a'r telerau dan grant y Swyddfa Gymreig yn golygu ei bod yn anodd iawn i'w tynnu i wneud pethau eraill...ond dwi'n meddwl bod rhaid i'r amodau a'r telerau adlewyrchu'r ffaith, y bydd amserau, yn achlysurol, pan fyddwn am i swyddogion yr ysgol weithredu fel swyddogion heddlu. A gwneud gwaith gweithredol.* (Uwch swyddog heddlu 1)

> *Sut mae'r 80/20 yma yn edrych? … mae 20% am wylio yn ystod y nos yn Abertawe neu beth bynnag...Yn awr, y wers ddylai fod bod 20% yn weithgareddau gweithredol sy'n gysylltiedig â phobl ifanc...Felly fe ddylai fod yn ymwneud â phobl ifanc/ysgolion, dylai'r 20% fod yn ymwneud â materion gweithredol …* (Uwch swyddog heddlu 2)

Mae'r uchod yn tanlinellu tensiynau rhwng rôl y SHCY wrth gyflwyno gwersi a chefnogaeth mewn ysgolion, a chymryd rhan mewn dyletswyddau gweithredol gan yr heddlu. Nid yn unig mae'r tensiynau hyn yn cael canlyniadau i'r heddlu, ond hefyd mae'n effeithio ar y Rhaglen:

> *…nid oes dim byd gwaeth i ysgol na chael ymrwymiad gan swyddog i ddod a chyflwyno sesiwn i grŵp blwyddyn, ac yna darganfod yn sydyn, am resymau gweithredol, nad yw'r swyddog yn medru bod yn*

*bresennol …rhaid i'r rhaglen hon fod ar gael ar draws y wlad yn gyson a rhesymegol mewn gwirionedd.* (Arbenigwr Pwnc APAGOS)

Fodd bynnag, mewn dogfennau diweddar, mae'r rhaniad canran (80/20) yn ymddangos fel petai wedi diflannu, er bod y flaenoriaeth yn dal yn cael ei rhoi i gyflwyno gwersi, gyda phlismona ysgol cefnogol. Wrth i'r nifer o SHCYau gynyddu daeth yn fwy posibl iddynt weithio yn lle ei gilydd pan fydd absenoldeb fel na fydd ysgolion yn colli gwersi a gynlluniwyd (Cyfweliad gyda chydlynwyr rhanbarthol). Ar hyn o bryd disgrifir rôl y SHCY fel:

> .. wedi ei neilltuo i'w swyddi yn ystod tymor yr ysgol i gyflwyno 100% o'r rhaglen ysgolion i 100% o'r ysgolion. Mae'r rôl hon yn cwmpasu'r amser a dreulir yn cyflwyno'r gwersi a gweddill yr amser i gael ei ddefnyddio ar gyfer plismona ysgol cefnogol. (Dogfen gan Gydlynydd Cenedlaethol RhGCYCG – heb ddyddiad, derbyniwyd Mawrth 2010)

Wrth i rôl a chylch gorchwyl y SHCY ddatblygu, adroddodd y SHCYau hynny a gyfwelwyd mai yn anaml iawn yr oedd galw arnynt i wneud dyletswyddau arferol yr heddlu, er nad yw hynny'n wir ym mhob ardal. Roedd pryderon gan rai SHCYau bod gofyn iddynt yn awr weithio nifer fechan o shifftiau/ddyletswyddau gweithredol arferol yr heddlu (dealladwy oherwydd y wasgfa ariannol), a:

> *… mae 'na bethau eraill yn rhyw lithro ar fy nesg i'w gwneud, fel atal troseddau...Mae'n golygu llai o amser mewn ysgolion.* (SHCY 2)

Fe wnaeth y SHCYau a gyfwelwyd ddisgrifio yr hyn yw 'rôl blismona gefnogol' iddynt hwy, fel amser i fynychu cyfarfodydd amlasiantaethol, ymdrin â digwyddiadau penodol yn yr ysgol, cysylltu gyda thimau plismona cymdogaeth, a gwaith teulu. Pan fydd SHCYau yn ymwneud â digwyddiadau yn yr ysgol, mae'r protocol Rhodfa Troseddau Ysgol (2007) yn rhoi cyfarwyddyd clir ar sut y dylai SHCY:

- ymdrin â digwyddiadau ar safleoedd ysgolion;
- gyfrannau at fywyd yr ysgol a'r gymuned;
- gytuno ar ffordd ymlaen a fyddai'n helpu i ddatgriminaleiddio pobl ifanc trwy gynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd iddynt (Dogfen RhGCYCG a dderbyniwyd Rhagfyr 2009).

Fodd bynnag, roedd y SHCYau a gyfwelwyd yn ymwneud â'r ysgolion y buom yn ymweld â nhw mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, gallant fod yn ymwneud ag un neu ragor o'r canlynol:

- annerch gwasanaeth yr ysgol;
- ymdrin â digwyddiadau mewn ysgolion (gan gynnwys ymwneud â theuluoedd);
- hwyluso ymyraethau cyfiawnder adferol;
- mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol (yn yr ysgol neu'r gymuned);
- mynychu Grwpiau Cefnogi Disgyblion/cyfarfodydd PACT;
- cynnig hyfforddiant/sgyrsiau i staff ysgol a/neu Lywodraethwyr;

- arwain a/neu fynychu clybiau ieuenctid/clybiau pêl-droed/clybiau bocsio;
- mynychu/trefnu gwersylloedd haf a gweithgareddau awyr agored eraill gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio;
- gweithredu fel Llywodraethwr Ysgol;
- bwyta cinio a threulio amser anffurfiol tu allan i wersi mewn ysgolion;

Agwedd bwysig ar rôl y SHCY yw bod yn rhan o ddull amlasiantaethol o gefnogi pobl ifanc mewn ysgolion. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae rôl y SHCY wedi cael ei datblygu yng nghyswllt gweithio mewn partneriaeth, ac mae hyn yn cael ei gydnabod gan yr ysgolion:

> *Mae [SHCY] wedi edrych ar gamddefnyddio cyffuriau, alcohol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, materion yn ymwneud â bod yn ddinasyddion da, do. Ac mae [SHCY] wedi gwneud hynny trwy dynnu partneriaid eraill i mewn hefyd.* (Pennaeth, ysgol gyfun CYADd uchel)
>
> *… mae gennym ni'r cynghorydd ysgol, mae gennym y cyswllt heddlu, mae gennym yr heddlu cymunedol....dirprwy brifathro blaengar iawn, a phennaeth blaengar iawn. Felly mae gennym ni'r rhwydwaith gefnogi yma …* (Gweithiwr ieuenctid ysgol, ysgol gyfun CYADd uchel)

Roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn feirniadol o SHCYau yn cyflwyno gwersi yn pwysleisio, fodd bynnag, bod y gwaith amlasiantaethol y mae'r Rhaglen yn ymwneud ag ef yn bwysig a gwerthfawr. Mae SHCYau yn cymryd rhan weithredol mewn llawer o asiantaethau eraill, ac mae menter newydd hefyd i SHCYau weithio yn fwy clos gyda heddlu cymdogaeth.

> *…mae gennym dimau plismona cymdogaeth yn awr sy'n gyfrifol am bob ardal o'r wlad, a dwi'n meddwl mai'r her i ni yw ceisio adeiladu'r cysylltiadau hynny sydd gan ein plant ysgol yn barod â swyddogion yr ysgol i'r tîm plismona cymdogaeth ehangach…. Mae llawer o fanteision yn hynny i ni a dwi ddim yn rhy siŵr ein bod wedi ymdrin â'r bwlch hwnnw yn llawn eto* ….' (KI Uwch Swyddog Heddlu 1)
>
> *Mae fy Nhîm Plismona Cymdogaeth, maent yn gwybod os oes ganddynt broblem yn ymwneud â rhywun ifanc, a'u bod naill ai am gael gwybod ei gyfeiriad cartref neu rif ffôn, maent yn dod ataf fi. Ond hefyd, maen nhw'n gofyn i mi siarad â'r bobl ifanc drostyn nhw*. (SHCY 4)

Mae datblygu perthynas bositif gyda disgyblion yn rhan bwysig o'r plismona cefnogol mewn ysgolion. Ni ofynnwyd yn uniongyrchol i ddisgyblion am eu 'rôl plismona cefnogol', ond mewn ymatebion i holiaduron yn gofyn i ddisgyblion pwy fydden nhw'n fwyaf tebygol o siarad am faterion cymdeithasol â nhw, dywedodd tua hanner y disgyblion cynradd a hanner y disgyblion uwchradd y bydden nhw'n siarad â'r SHCY (Atodiad V). Roedd nifer o sylwadau canmoliaethus hefyd mewn grwpiau ffocws am y SHCY yn cymryd rhan mewn clybiau a gweithgareddau. Roedd yn bwysig hefyd i rai disgyblion gan fod presenoldeb y SHCY yn yr ysgol ac o'i chwmpas yn cynyddu eu hymdeimlad o ddiogelwch:

*Pan fydd yr heddlu o gwmpas yr ysgol fydd na ddim byd drwg yn digwydd oherwydd mae ganddo hawl gyfreithiol i arestio unrhyw un....maent yn gwneud i'r ysgol deimlo yn fwy diogel*. [Grŵp ffocws, ysgol arbennig).

Ond, roedd pryderon mewn un grŵp ffocws ysgol uwchradd yn arbennig y gallai'r wybodaeth y byddent yn ei rhannu gyda SHCY gael ei rhoi i'r heddlu a'r ysgol, ac roedd hyn yn gwneud iddynt deimlo yn flin ac anghyfforddus.

**Crynodeb**

- Roedd dealltwriaeth gyffredinol gan bawb a gyfwelwyd mai prif ffocws y Rhaglen oedd cyflwyno gwersi a bod bron bob ysgol yng Nghymru yn cymryd rhan yn y rhaglen
- Mae'r gwersi a gyflwynir i ddosbarth penodol yn gyfyngedig, ond fe all y SHCY fod yn yr ysgol unwaith yr wythnos a dywed staff yr ysgol bod y cyswllt cyson/aml hwn yn atgoffa dysgwyr am y gwersi; yn medru cyfrannu at ddisgyblaeth dda; ac, mewn rhai ysgolion, yn medru arwain at weld staff a dysgwyr yn teimlo yn fwy diogel yn yr ysgol.
- Mae cred gref gan y mwyafrif o'r rhai â gwybodaeth allweddol (4 ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r Rhaglen), a bron y cyfan o'r staff mai'r SHCYau oedd yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r gwersi hyn oherwydd eu statws fel swyddogion heddlu, eu profiad a'u gwybodaeth.
- Roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd yr hyfforddiant addysgol a ddilynwyd gan y SHCYau a soniodd staff yr ysgolion am eu hyder yn sgiliau addysgu'r SHCYau.
- Roedd disgyblion yn cofio gwersi RhGCYCG ac yn eu cael yn ddiddorol a 'ddim yn boring'.
- Nid oedd y rhai nad oeddynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Rhaglen yn glir beth oedd yn cyfateb i rôl blismona cefnogol.
- Rhan bwysig o blismona cefnogol mewn ysgolion yw ffurfio perthynas gadarnhaol â disgyblion. Yn yr arolwg disgyblion dywedodd hanner y disgyblion cynradd ac uwchradd y byddent yn siarad â'u SHCY am faterion cymdeithasol.
- Roedd y SHCYau a gyfwelwyd yn cymryd rhan amlwg iawn yn yr ysgolion y buom yn ymweld â nhw.
- Mae tensiynau yn bodoli i'r SHCY o ran cyflwyno gwersi yn yr ysgol a rhoi cefnogaeth, a chael eu tynnu allan i gyflawni dyletswyddau plismona eraill.
- Mae rôl yr SHCY yn ehangu i gynnwys cyswllt rhyngasiantaethol a chreu mwy o gysylltiadau â heddlu cymdogaeth.
- Mae SHCYau hefyd yn ymdrin â digwyddiadau penodol/unigol yn yr ysgol, cyswllt gyda thimau plismona cymdogaeth, a gwaith teulu.
- Roedd rhai SHCYau yn bryderus y gall y cynnydd yn eu baich gwaith arwain at eu gweld yn treulio llai o amser yn yr ysgolion.

**4.3**

**I ba raddau y mae cynnwys gwersi ABCh yn cyd-fynd â'r gwersi a ddarperir gan y SHCYau? Sut y mae SHCYau yn rhyngweithio gyda staff yr ysgol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyflwyno ABCh?**

Rhaglen genedlaethol yw'r RhGCYCG ac mae holl ysgolion Cymru yn cael eu hannog i gymryd rhan. Fodd bynnag, disgwylir i ysgolion gynllunio eu hymwneud â'r Rhaglen i gryfhau a/neu ychwanegu at eu rhaglenni ABCh eu hunain.

> *Y cyfarwyddyd yr ydym ni fel Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i ysgolion yw y dylai rhaglenni ABCh gael eu perchnogi a'u rheoli yn fewnol i raddau helaeth, a'u cyflwyno gan athrawon cymwys iawn, a bod rhaid i unrhyw gefnogaeth ychwanegol fod yn rhan o raglen a gynlluniwyd, nid dim ond gwahodd pobl i mewn ar sail ad hoc. Ac mae cyfarwyddyd diffiniol clir ar wefan Cyfarwyddyd ABCh* [ynghyd â] *phrotocolau ar gyfer gweithio gyda sefydliadau allanol i wneud yn siŵr bod eu mewnbwn yn cael ei gynllunio i mewn i'r cwricwlwm*. (Arbenigwr Pynciol APADGOS)

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw roedd y gwersi RhGCYCG wedi eu hintegreiddio i'r cwricwlwm, ac mewn un ysgol gynradd roedd y staff yn cael amser digyswllt i ddatblygu rhaglen ABCh ysgol oedd yn ymgorffori gwersi RhGCYCG gyda deunyddiau paratoi a dilynol. Fodd bynnag, er bod cynnwys gwersi RhGCYCG yn y cwricwlwm ABCh cynradd yn ymddangos fel petai wedi hen sefydlu, roedd rhai enghreifftiau o'r gwersi RhGCYCG yn cael eu defnyddio fel catalydd ar gyfer pwnc penodol, yn hytrach na bod wedi ymwreiddio ynddo.

> *Nid ydym wedi gwneud dim cyn i'r [SHCY] ddod i mewn. Fel dwi'n deud, fe fydd gweithgareddau dilynol yn sicr o wybod beth mae'r [SHCY] wedi ei wneud …. Fel arfer dyna'r ffordd ymlaen, bod y [SHCY] mewn gwirionedd yn ysgogi'r prosiect cyfan*. (Athro dosbarth ysgol gynradd)

Dylai ymwneud ysgolion uwchradd â'r RhGCYCG hefyd adlewyrchu dull wedi ei gynllunio a'i gydlynu o ymdrin â chwricwlwm ABCh yr ysgolion. Fodd bynnag, mae manylion ymarferol gweld ysgol uwchradd yn ymwneud â'r Rhaglen yn ddibynnol, i raddau helaeth, ar statws ac amserlennu ABCh mewn ysgolion unigol. Mewn ysgolion gyda staff ABCh penodedig ac amserlen wythnosol ar gyfer gwersi ABCh, mae'n haws ymgorffori'r Rhaglen yn y cwricwlwm ac i gynllunio ar gyfer paratoi ar gyfer y gwersi RhGCYCG a chreu dilyniant iddynt. Mewn ysgolion lle mae ABCh yn rhan o'r dosbarth cofrestru, mae'r amser yn fwy cyfyngedig ac mae tebygrwydd na fydd rhai staff sy'n cyflwyno ABCh yn fedrus a/neu yn hyderus wrth gyflwyno'r holl bynciau ABCh/RhGCYCG. Yn yr un modd, hyd yn oed pan fydd gwers ABCh benodol, gall rhai staff fod wedi cael eu dyrannu am resymau ymarferol yn ymwneud â'r amserlen ac efallai nad oes ganddynt fawr o ddiddordeb, gwybodaeth na hyfforddiant mewn ABCh.

Pan fydd ysgolion yn gweithredu dull bloc o gyflwyno ABCh, rhaid i'r SHCY gyflwyno gwersi ar draws grŵp blwyddyn/cyfnod allweddol mewn cyfnod byr iawn. Mae hyn yn arwain at weld y SHCY yn cael ymweliadau llai aml â'r ysgol a ddim yn dod i adnabod y staff a'r disgyblion, neu o leiaf yn cael perthynas wahanol â disgyblion a staff [cyfweliad gyda chydlynwyr rhanbarthol].

Mae'r pennaeth ysgol yma yn disgrifio pwysigrwydd strwythurau ysgol er mwyn i ABCh/ /RhGCYCG gael eu cynllunio a'u cydlynu yn effeithiol:

> *… os yw'r cyflwyno yn mynd i fod, yn cael effaith, mae'n rhaid i chi gael y strwythurau yn eu lle. Felly mae'r strwythur yn hwyluso, y, wyddoch chi, cyflwyniad da ac yn rhoi parhad i'r unigolyn hwnnw [SHCY] o ran cyswllt â'r ysgol. Os oes problemau, mae medru trafod y rheiny gyda [SHCY], gyda [AHT] sydd hefyd yn swyddog diogelu plant i ni....gyda'r swyddog lles yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol. Felly, yr hyn sydd gennych chi yw meddwl diwnïad. Nid yw'n unigolyn ynysig yn dod i mewn fel swyddog. Mae gennych feddwl diwnïad o fewn y strwythur. Felly dwi am roi hynny ar waith oherwydd os bydd rhywbeth yn cael ei wneud o ganlyniad yno, fe ellid ei wneud mewn partneriaeth, mewn modd proffesiynol. Ac rwyf yn pwysleisio eto, dwi wedi bod mewn ysgolion eraill lle maent yn dod i mewn ac maen nhw'n cyflwyno gwersi gwahanol trwy'r cyfnodau cofrestru a dyw hynny yn syml, ddim digon da*. (Pennaeth, ysgol gyfun CYADd uchel)

Yn yr ysgolion uwchradd y buom yn ymweld â nhw, roedd tystiolaeth o gynllunio ar y cyd gyda chydlynwyr ABCh a SHCY yng nghyswllt cyflwyno gwersi:

> *Dwi'n meddwl ei bod yn rhaid deall bod rhaid gwneud hyn gyda'r ddealltwriaeth nad un wers ar ei thraed ei hun yw hi. A dyw hi byth yn hynny pan ddaw [SHCY] i'r ysgol. Mae'r cyfan am y gwaith dilynol. Rydym yn gwybod bod [SHCY] yn dod, mae [SHCY] yn archebu ymlaen llaw. Fel y dywedwch chi wythnos nesaf bydd [SHCY] i fyny yn, maent am wneud eu cyflwyniadau PowerPoint eu hunain ar gyffur o'u dewis....Cyn y wers, cyn hynny fe wnaethom astudio Ecstasi yn drylwyr a meddwl am beryglon Ecstasi cyn i'r [SHCY] ddod i mewn. Ac fe wnaethom ni'r 'beth yw'r cyffur?' a'r math yna o beth. Oherwydd na fedrai'r [SHCY] byth drafod popeth mewn un wers. Mae o'n ormod o wybodaeth. A deud y gwir y prif nod yw peidio rhoi popeth sydd wedi ei greu erioed am gyffuriau ond rhoi sgiliau gwneud penderfyniadau iddyn nhw er mwyn iddyn nhw wneud eu dewisiadau eu hunain*. (Pennaeth cyfarwyddyd ac ABCh, ysgol gyfun CYADd uchel)
>
> *Fe fyddai'n cysylltu hefo'r hyn maen nhw yn ei wneud, achos does dim budd i mi drafod troseddau cyllyll os ydyn nhw'n trafod cyffuriau …* (SHCY 1)

Fodd bynnag, roedd yn cael ei gydnabod gan rai o'r rhai â gwybodaeth allweddol, SHCYau, a staff ysgol nad oedd cynllunio a dilyniant, yn arbennig

mewn ysgolion uwchradd, yn wir bob amser. Fe wnaeth ein gwaith arsylwi ninnau gadarnhau hynny.

> *Yn yr ysgolion uwchradd, dwi'n meddwl bod problem wirioneddol o ran gwneud y gwaith paratoi, a'r gwaith dilynol.* (Arweinydd/asesydd cwrs).

Er mwyn darparu digon o baratoi a dilyniant gellid dadlau bod rhaid i athrawon fod yn wybodus a hyderus wrth drafod y materion a godir mewn gwersi SHCY. Mewn un wers ysgol uwchradd fe wnaethom weld bod staff yr ysgol yn ymddangos fel petaent wedi synnu ar y lefel o wybodaeth yr oedd y disgyblion yn ei ddangos. Hyd yn oed pan fydd hyfforddiant wedi ei roi mae rhai athrawon yn parhau yn anghyfforddus am ymdrin â rhai materion:

> *Fe aeth y staff ar gwrs ABCh er enghraifft ar drais domestig, dim ond ychydig ohonynt fyddai'n meiddio cyffwrdd y peth. Doedden nhw ddim yn gyfforddus.* (Cydlynydd ABCh, ysgol gyfun CYADd uchel)

Trafodwyd integreiddio gwersi RhGCYCG gydag ABCh, a phwysigrwydd ABCh yn yr ysgol mewn dau grŵp ffocws ysgol uwchradd. Er bod consenswS cyffredinol ar werth y gwersi RhGCYCG, roedd beirniadaeth sylweddol ar sut yr oedd y wybodaeth yma yn cael ei defnyddio a/neu ei thrafod ymhellach mewn gwersi ABCh. Disgrifiodd grŵp ffocws mewn un ysgol yn arbennig (CYADd isel) y modd y mae ABCh yn digwydd mewn dosbarth cofrestru unwaith yr wythnos a pham nad yw hynny'n annog rhagor o ddysgu ac archwilio'r pynciau dan sylw:

> *Mae'r dosbarth cofrestru yn wirioneddol anffurfiol. Fyddwn ni ddim yn gwneud llawer mewn gwirionedd. Felly pan fydd rhywun yn dod i mewn i roi sgwrs i ni, nid yw pawb yn eu cymryd o ddifrif o angenrheidrwydd. Mae ABCh yn cael ei weld fel gwers rydd mewn ffordd*.
>
> [ABCh] *yw e, nid yw hyd yn oed ychydig yn eu* [yr ysgolion] *prif flaenoriaeth*.

Mewn ysgol arall (CYADd isel) teimlai'r disgyblion hefyd bod y mewnbwn ABCh gan eu hathrawon yn amrywiol ac nad yw rhai athrawon yn cynnig digon o gyfle ar gyfer trafod a gweithgareddau ymarferol.

Mae canllawiau RhGCYCG yn argymell y dylai athrawon aros yn y dosbarth yn ystod gwers RhGCYCG ac roedd hynny'n wir ym mhob un o'r gwersi yr arsylwyd arnynt gennym. Rhoddir anogaeth hefyd i SHCYau gan eu rheolwyr i gynnwys athrawon yn y gwersi [cyfweliad gyda chydlynwyr rhanbarthol]. Fodd bynnag, fe roddwyd ar ddeall i ni, mewn ysgolion na fuom yn ymweld â nhw, nad oedd hyn yn wir bob amser:

> [athrawon] *yn crwydro i mewn ac allan* [o wersi] *efallai'n mynd i wneud eu mân swyddi eu hunain* …' (SHCY 3)

Mae cyfraniad ac ymwneud athrawon â'r gwersi RhGCYCG yn ymddangos fel petai'n arwydd o'r statws a roddir i ABCh yn fwy cyffredinol. Mewn ysgolion

cynradd roedd yr athrawon yn ymwneud yn weithredol â'r wers, ond nid oedd hynny'n wir mor aml mewn ysgolion cyfun. Er bod yr ysgolion y buom ni'n ymweld â nhw yn cael eu hystyried gan SHCYau yn enghreifftiau o arfer da, fe roddwyd ar ddeall i ni nad yw pob ysgol yn gweld ABCh (a'r RhGCYCG) mor bwysig a/neu werthfawr:

> *Rwyf wedi dysgu yno* [ysgol arall nad oedd yn rhan o'r gwerthusiad] *rai gweithiau eleni ac mae agweddau'r athrawon, mae ganddyn nhw agwedd negyddol, y disgyblion yn dod i mewn i'r wers hanner awr yn hwyr yn ystod y wers...sut alla i gael dylanwad ar y disgyblion os nad ydi'r gwerthoedd yno i gychwyn cyn i chi gyrraedd y dosbarth? Achos dim ond hwylusydd yden ni a dweud y gwir...yr athrawon ddylai greu'r terfynau* … (SHCY 6)

Fel yr awgrymir uchod, mae statws ac amserlennu ABCh mewn ysgol i ryw raddau yn adlewyrchu'r berthynas y gellir ei ffurfio rhwng staff yr ysgol a'r SHCY. Fel mae'r dyfyniad isod yn darlunio, credai'r ymatebwyr bod perthynas dda bersonol ac ymddiriedaeth broffesiynol rhwng y SHCY a staff yr ysgol yn allweddol:

> *Mae'n rhaid i mi ddweud bod* [llwyddiant y rhaglen] *i ryw raddau yn cael ei yrru gan bersonoliaeth. Mae'r swyddog cyswllt yr heddlu sy'n dod yn dda iawn. Yr hyn dwi'n feddwl ydi, edrych ar effaith, mae [SHCY] yn wyneb cyfarwydd i'r bobl ifanc ac roedd ganddo lawer o ddylanwad ar bobl ifanc yn yr ardal hon*. (Pennaeth, ysgol gyfun CYADd uchel)

> *Mae gan* [SHCY] *ffordd dda, dda iawn gyda phobl, nid dim ond y disgyblion yma. Mae* [SHCY] *yn ffrind gwirioneddol i* [ysgol], *mae'n ffrind i'r holl staff* ….. (Dirprwy Brifathro, Ysgol Arbennig).

Gwnaeth y SHCY yma sylw ar ei pherthynas ag ysgol benodol:

> *A dweud y gwir wrthych chi, [enw'r ysgol] mae'n debyg yw'r ysgol orau yr wyf yn mynd iddi, o ran cefnogaeth i athrawon, cefnogaeth i ddisgyblion, a chefnogaeth gan yr athrawon a rhwyddineb cael cyswllt. Fe allaf fynd yno …, os bydd gennyf broblem, fe fydan nhw'n fy helpu. Os bydd ganddyn nhw broblem, mae'n debyg mai dyma un o'r ysgolion gorau y byddaf yn mynd iddyn nhw …* (SHCY 1)

**Crynodeb**

- Nid oedd ymwneud yr ysgol â'r Rhaglen bob amser yn ymddangos fel petai wedi ei gynllunio fel rhan o'r cwricwlwm ABCh ehangach mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Mae ochr ymarferol gweld ysgol uwchradd yn ymwneud â'r Rhaglen yn dibynnu, i raddau helaeth, ar statws ac amserlennu ABCh mewn ysgolion unigol.
- Mae cyflwyno ABCh yn fwy effeithiol pan fydd yn cael ei gefnogi gan staff ABCh sy'n frwdfrydig a gwybodus. Fodd bynnag, roedd trefniadau ac amserlennu ABCh mewn rhai ysgolion oedd yn astudiaethau achos yn golygu nad oedd hyn yn wir bob amser.

- Ffactor bwysig yn y berthynas effeithiol rhwng SHCY a staff ysgol yw'r berthynas bersonol a'r ymddiriedaeth broffesiynol sy'n datblygu trwy gyswllt cyson.
- Roedd y RhGCYCG yn cael ei gweld yn effeithiol pan fydd ymlyniad y SHCY yn cael ei gynllunio a'i gydlynu a phan fydd gwersi paratoadol a dilynol yn digwydd.
- Roedd beirniadaeth sylweddol gan ddisgyblion nad oedd y wybodaeth gan y RhGCYCG yn cael ei drafod ymhellach yn y gwersi ABCh.
- Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr y byddai athrawon yn anghyfforddus yn ymdrin â rhai pynciau, gan godi materion am argaeledd dilyniant i ABCh i fyfyrwyr gael gofyn rhagor o gwestiynau i'r staff, neu i ddatgelu pethau.
- Ystyrid bod perthynas bersonol, cyswllt cyson ac ymddiriedaeth broffesiynol rhwng SHCY a staff ysgol yn bwysig ar gyfer ymyrraeth effeithiol.

**4.4**
**A yw ysgolion yn gwahaniaethu o ran y graddau y maent yn ymgysylltu â'r Rhaglen?**

Gall ymgysylltiad ysgol â'r RhGCYCG/SHCY naill ai fod yn agos iawn, fel yn yr ysgolion y gwnaethom ni ymweld â nhw, neu gallant fod ar gontinwwm yn amrywio o gysylltiad clos i ymgysylltiad bychan iawn. Gall ymgysylltiad bychan iawn olygu bod y SHCY yn cyflwyno'r modylau craidd i ddysgwyr ar gyfnodau allweddol penodol gydag ychydig iawn o gyfraniad gan staff yr ysgol. Gall yr ymgysylltiad mwyaf olygu bod y SHCY yn cyflwyno modylau craidd ac ategol ar draws cyfnodau allweddol, a'u bod yn ymwneud yn gyson â'r ysgol yn ffurfiol ac anffurfiol.

Mae gan yr ysgolion yn ein hastudiaeth berthynas dymor hir, ac agos iawn, gyda SHCYau penodol, felly mae ein data yn adlewyrchu lefel o ymgysylltiad sy'n annhebygol o fod yn nodweddiadol ar y cyfnod hwn yn natblygiad y rhaglen. Rydym eisoes wedi trafod pwysigrwydd strwythurau ysgol/ABCh ar gyfer ymgorffori'r Rhaglen yn llawn yn y cwricwlwm a sut y mae hyn yn gwahaniaethu ar draws ysgolion, felly fe fyddwn yn canolbwyntio yma ar yr ymgysylltu penodol rhwng SHCY a'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, gan danlinellu eto bwysigrwydd y berthynas rhwng ysgol a'u SHCY penodol ar gyfer yr amgyffrediad o lwyddiant ac effeithiolrwydd y Rhaglen.

Mae cip ar ddyddiaduron SHCY dros y cyfnod Medi-Rhag 2009 yn dynodi bod pob ysgol gyfun yn ein hastudiaeth wedi cael rhwng pump a 13 ymweliad gan eu SHCY, ac fe gafodd yr ysgolion cynradd yn ein hastudiaeth rhwng dim a chwe ymweliad gan eu SHCY yn ystod y pedwar mis hwn. Roedd yr ymweliadau hyn yn ychwanegol at gyflwyno gwersi, ond nid oedd y dyddiaduron yn rhoi unrhyw syniad o'r hyn oedd yn digwydd yn ystod yr ymweliadau. Mae data cyfweliad, fodd bynnag, yn rhoi rhai enghreifftiau o'r rôl plismona cefnogol:

> *Yn* [ein cymuned] *mae gan y SHCY eisoes berthynas sefydlog â'r ysgol ac yn aml mae'n rhoi sgyrsiau ychwanegol i 'gyfeillion yr ysgol'. Nid dim ond yr heddlu fel elfen o reoli yw hi.* (Pennaeth ysgol gynradd)

> …*er enghraifft, ddoe, fe wnes i dreulio tuag awr yn un o'm hysgolion cynradd oherwydd bod ganddynt broblem barhaus gyda llythyrau dienw, ac roedd arnyn nhw angen cyngor. Roedden nhw am gael gwybod a oedden nhw wedi gwneud y peth iawn. Roedden nhw am i mi ddod o hyd i ychydig o wybodaeth iddyn nhw* …. (SHCY 4)

Fe wnaeth y SHCYau ddisgrifio perthynas dda iawn gyda staff a dysgwyr yn yr ysgolion y buom ni'n ymweld â nhw. Roedd y SHCYau yma yn aml yn byw yn yr ardal leol ac roedd gan rai blant yn mynychu'r ysgol y buom yn ymweld â hi. Roedd y SHCYau yma, felly, yn aml yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel rhieni, fel SHCYau, neu mewn rolau eraill fel llywodraethwyr ysgol. Roedd hyn yn arwain at wybodaeth a chysylltiadau lleol da, gan gynyddu eu hygrededd i'r ysgol, y rhieni, a'r dysgwyr. Mewn nifer o gyfweliadau, soniodd SHCYau am rieni yn cysylltu â nhw yn uniongyrchol.

Fe ddywedodd yr holl ysgolion uwchradd yn ein hastudiaeth bod cyswllt sylweddol gyda'u SHCYau tu hwnt i gyflwyno gwersi. Pan eu holwyd am hyn, dywedodd rhai SHCYau eu bod yn medru treulio'r amser hwn yn eu holl ysgolion, dywedodd eraill eu bod yn ymateb i anghenion pob ysgol (rhai a mwy o 'angen' nag eraill) a/neu yn cydbwyso cyswllt ar sail tymor i dymor. Fodd bynnag, roedd yn anodd i ni weld sut y gallai'r lefel o gyswllt oedd yn digwydd yn yr ysgolion y buom yn ymweld â nhw gael ei gynnal dros gyfnod hir ar gyfer mwy na lleiafrif o'r ysgolion yr oedd SHCY yn ymwneud â nhw.

Roedd pwysigrwydd cyswllt cyson, a hyblygrwydd a chefnogaeth y SHCY yn cael ei gydnabod gan yr holl ysgolion y buom yn ymweld â nhw: Er enghraifft:

> *Fe allaf ei ffonio a dweud 'allwch chi ddod i lawr, dwi am siarad hefo chi am, wyddoch chi, x neu y?' neu yn y bôn mae'n sgwrs dros y ffôn, 'mae arnai angen ychydig o gyngor' neu 'dwi'n poeni am hyn, allwch chi holi eich ffynonellau yn yr heddlu, ie i weld beth sydd gennych chi?'* (Prifathro Cynorthwyol, ysgol gyfun CYADd uchel)

> *Dwi wedi gofyn iddo ddod i mewn i wrando ar broblemau hefo plant, do. Ac mae'r rhiant yno. A dwi wedi ei ddefnyddio …i roi elfen gryfach i'r sgwrs hefo'r rhiant.* (Pennaeth, ysgol gyfun CYADd uchel)

> *Yn bersonol, dwi wedi pwyso cryn dipyn ar [SHCY] yn y gorffennol pan fydd rhieni wedi codi problemau, pryderon am eu disgyblion.* [Pennaeth Cynorthwyol, ysgol gyfun CYADd uchel]

Mae gan dair ysgol uwchradd yn ein hastudiaeth hawl uchel i CYADd ac roedd llawer o'r disgyblion yn byw mewn ardaloedd 'anodd' lle'r oedd amddifadedd lluosog. Mewn rhai cyfweliadau roedd yn ymddangos bod rôl blismona cefnogol y SHCY yn yr ysgolion hyn yn dueddol o fod am ddisgyblion unigol, tra byddai'r rôl plismona cefnogol mewn ardaloedd mwy ffyniannus yn ymddangos fel petai'n cael ei gyfeirio tuag at ddatblygu cysylltiadau positif rhwng disgyblion a'r gymuned.

**Crynodeb**

- Fe wnaeth yr holl ysgolion uwchradd yn ein hastudiaeth ddynodi bod cyswllt sylweddol gyda'u SHCYau tu hwnt i gyflwyno gwersi.
- Roedd gan y SHCYau berthynas glos gyda'r ysgolion y buom ni'n ymweld â nhw ac roeddent yn aml yn ymwneud a nifer o weithgareddau 'tu allan i'r ysgol' fel SHCYau, rhieni, neu mewn rôl arall fel llywodraethwr ysgol.
- Mae gan yr ysgolion yn ein hastudiaeth berthynas dymor hir, ac agos iawn â SHCYau penodol, felly mae ein data yn adlewyrchu lefel o ymgysylltu sy'n annhebygol o fod yn nodweddiadol ar y cyfnod hwn yn natblygiad y Rhaglen
- Cydnabuwyd hyblygrwydd a chefnogaeth y SHCY fel elfen bwysig yn yr holl ysgolion y buom yn ymweld â nhw.
- Dywedodd rhai SHCYau eu bod yn ymateb i anghenion yr ysgolion unigol (rhai a mwy o 'angen' nag eraill) a/neu yn cydbwyso'r cyswllt ar sail o dymor i dymor.

**4.5**
**Pa gyfran o'r disgyblion sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen, beth yw eu proffil cymdeithasol a beth oedd graddfa a natur eu hymwneud â hi?**
Mae 98% o'r ysgolion ar draws Cymru yn ymwneud â'r Rhaglen. Mae'r ffigyrau ar gyfer 2008 a 2009/10 yn dangos bod cynnydd cyffredinol wedi digwydd yn y nifer o ysgolion sy'n ymwneud â'r Rhaglen:

| Ardal Heddlu | Ysgolion yr ymwelwyd â nhw 2008 | Disgyblion a gyrhaeddwyd 2008 | Ysgolion yr ymwelwyd â nhw 2009/10 | Disgyblion a gyrhaeddwyd 2009/20 | SHCYau yn 2008 | SHCYau yn 2009/10 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwent | 288 | Dros 80,000 | 276 | Dim data | 13 | 21 |
| De Cymru | 630 | Dros 130,000 | 671 | Dim data | 30 | 38 |
| Dyfed-Powys | 400 | Over 78,000 | 431 | Dim data | 11 | 13 |
| Gogledd Cymru | Ffigwr ar goll | Dros 80,000 | 496 | Dim data | 16 | 18 |

Mae'r cynnydd yn y SHCYau ym mhob ardal, a'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, fodd bynnag, o ganlyniad i'r arian ychwanegol i'r Rhaglen i weithio gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio (4.6).

Mae cwestiynau yn codi (fe'i codwyd gan rai o'r darparwyr gwybodaeth allweddol) am faint o gyswllt a lefel yr ymgysylltu sy'n digwydd rhwng ysgol a'r SHCY, fel y gofynnodd yr ymatebwr hwn:

> *Pa gyfran o'r rhaglen sy'n cael ei wneud gan ba gyfran o'r ysgolion? Faint o ysgolion sydd, mewn gwirionedd, yn gwneud y rhaglen i gyd ac yn ymroddedig iddi, ac wedi bod yn ei gwneud er peth amser?* (Aelod o

Banel Ymgynghorol)

Fel y gwelir uchod, mae'n bosibl rhoi amcangyfrif o'r disgyblion sy'n mynychu gwersi RhGCYCG dros gyfnod penodol, ond fel yr ydym wedi disgrifio (4.2), mae rôl a chylch gorchwyl y SHCY yn ymwneud â nid yn unig cyflwyno gwersi, ond plismona cefnogol hefyd. Felly mae nifer o ffyrdd gwahanol, yn ffurfiol ac anffurfiol, i ddisgyblion fod yn ymwneud â'r rhaglen (gweler 4.6 a 5.4 am enghreifftiau).

Cofnodwyd barn disgyblion ar y RhGCYCG am y tro cyntaf yn 2007 (Markit Training & Consultancy) gan ddefnyddio'r model KUSAB, ac ers hynny maent wedi cael eu cynnwys yn y gwerthusiad mewnol mwyaf diweddar (Gwerthusiad Disgyblion ac Athrawon, Tachwedd 2009). Gan ddefnyddio holiaduron arolwg, gofynnwyd i ddisgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol 2, 3, a 4 am un wers o'r edefyn cyffuriau. Cafwyd ymateb gan bron bob un o'r awdurdodau lleol, gydag ychydig dros 4,000 o ddisgyblion a 169 athro yn llenwi'r holiadur. Gofynnwyd i'r disgyblion, er enghraifft, a oeddent wedi dysgu rhywbeth newydd; a ydynt yn gwybod mwy yn awr am y pwnc; a oeddent wedi cymryd rhan yn y wers; ac ar ffyrdd y gellid gwella'r gwersi (e.e. mwy o drafodaeth, rhagor o storïau gwirioneddol, mwy o chwarae rôl).

> Lefel cyffredinol hyder a bodlonrwydd ar gyfer y Rhaglen a'r Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgol yn genedlaethol oedd 74%. Ond y canlyniad uchaf, a phwysicaf efallai oedd 81% am ddarparu cyngor a chyfarwyddyd. (Gwerthusiad Gwers RhGCYCG Tachwedd 2009)

Mae disgyblion hefyd yn ymwneud â'r Rhaglen wrth wneud DVD ar gyfer cyflwyno gwersi RhGCYCG, ac mae rhai disgyblion yn cymryd rhan mewn cwisiau cenedlaethol a drefnir gan y Rhaglen (e.e. cymerodd cynrychiolwyr o 150 o ysgolion cyfun ran yn y rownd leol o gwis 2008/2009).

**Crynodeb**

- Mae 98% o ysgolion ar draws Cymru yn ymwneud, i raddau gwahanol â'r Rhaglen.
- Gwelwyd cynnydd cyffredinol yn y nifer o ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen o ganlyniad i'r arian ychwanegol ar gyfer y Rhaglen i weithio gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio, yn arbennig yn Ne Cymru.
- Ond mae cwestiynau o hyd am faint o gyswllt sy'n digwydd rhwng ysgol a'r SHCY a'i lefel
- Nid yw'r Rhaglen am gyflwyno gwersi yn unig, ond mae am blismona cefnogol hefyd. Felly mae nifer o ffyrdd gwahanol, yn ffurfiol ac anffurfiol, i ddisgyblion ymwneud â'r rhaglen.
- Mae holiaduron y RhGCYCG yn dangos lefel gyffredinol hyder a bodlonrwydd disgyblion â'r RhGCYCG a'r Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion yn genedlaethol ar 74%.

**4.6**

**A yw disgyblion sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd wedi 'ymddieithrio'' wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen, a beth fu natur hynny?**

Mae'r RhGCYCG yn rhaglen gyffredinol sy'n cael ei chyflwyno i grwpiau blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd heb unrhyw dargedu penodol ar ddisgyblion sy'n cael eu hystyried yn rhai wedi ymddieithrio mewn ysgolion prif-ffrwd. Mae'r diweddaru parhaus ar gynlluniau gwersi ac adnoddau; ehangiad y Rhaglen i ddarparu amrywiaeth o fodylau ychwanegol; a'r datblygiadau yn sgiliau a phrofiadau'r SHCYau, fodd bynnag, wedi arwain at weld y rhaglen yn dod yn hygyrch i amrywiaeth ehangach o ddysgwyr:

> *Dwi bob amser wedi cael y* [SHCY] *yn barod i addasu pethau, newid pethau. Nid y pethau craidd, ond i weddu i'n hanghenion, i gyd-fynd â'n gallu, oherwydd mae* [SHCY] *yn dysgu rhai anghenion arbennig* [dysgwyr]. *Wyddoch chi, i ddysgu'r gallu, mae'n medru newid y rhaglen i'r hyn sydd arnaf ei angen*. (Pennaeth ABCh, ysgol uwchradd)

Er nad yw'r gwersi RhGCYCG mewn ysgolion prif-ffrwd yn cael eu cyflwyno yn benodol i grwpiau o ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio, roedd nifer o'r SHCYau a gyfwelwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau, fel gwersylloedd haf a gweithgareddau awyr agored, gyda grwpiau o ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio. Fe wnaethom siarad â 4 grŵp o ddisgyblion wedi ymddieithrio mewn ysgolion prif-ffrwd am effaith y gwersi. Roedd cytundeb cyffredinol yn yr ysgolion hyn, bod y wybodaeth oedd yn cael ei rhoi yn y gwersi yn ddefnyddiol e.e. '*Os ydych chi'n defnyddio cyffuriau ar y penwythnos fel..Maen nhw* [gwersi RhGCYCG] *yn helpu i chi gymryd golwg ehangach ar y peth fel nad ydech chi am ei wneud fel …*' a pheth cytundeb bod y berthynas â SHCYau yn gadarnhaol.

Mewn datblygiad diweddar, wrth adeiladu ar waith SHCYau yn gweithio gyda disgyblion prif-ffrwd ac yn datblygu perthynas bositif â'r rhai sydd â photensial i ymddieithrio, mae'r Rhaglen wedi ei hymestyn i gwmpasu gweithio gyda disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion ac unedau anawsterau addysgiadol, cymdeithasol ac ymddygiadol.

Fel y tanlinellwyd yn y Ddogfen Cynhwysiant a Chefnogi Disgyblion (2006):

> *Mae ar ddisgyblion/ troseddwyr ifanc sydd wedi ymddieithrio angen cefnogaeth ychwanegol gan fod argaeledd addysg a hyfforddiant priodol yn cael eu cydnabod yn ffactor warchodol bwysig i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn dangos ymddygiad troseddol ac atal aildroseddu.*

Derbyniodd y Rhaglen gyllid ychwanegol i ddatblygu deunyddiau penodol ar gyfer disgyblion sydd wedi ymddieithrio ac ar gyfer amser ychwanegol gan yr heddlu i gyflwyno rhan o'r rhaglen:

> O ganlyniad, mae'r elfen gynhwysiant o'r rhaglen wedi ei ddatblygu ar y cyd â'r arbenigwyr addysgol perthnasol. Mae hyn yn awr wedi ei gyflwyno ar draws 14 AALl yng Nghymru ac mae SHCYau yn cyflwyno i ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio. Bydd hyn yn cynorthwyo i hyrwyddo parhad wrth gyflwyno a pherthynas â'r swyddog pan fydd disgyblion yn symud o'r brif-ffrwd i uned cyfeirio disgyblion neu fel arall.

> Mae hyn yn arbennig o fanteisiol gyda disgyblion iau pan fydd perthynas yn y tymor hirach yn well i annog ymddygiad cadarnhaol. Hyfforddwyd y swyddogion i weithio gyda disgyblion a ymddieithriodd. Darparwyd yr hyfforddiant cychwynnol gan y brifysgol a'i ategu gan hyfforddiant rhanbarthol gan staff unedau cyfeirio disgyblion a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda disgyblion a ymddieithriodd gan roi gwell dealltwriaeth i swyddogion o'r problemau lleol a'u helpu i greu perthynas â staff yr uned cyfeirioyn lleol. [Dogfen RhGCYCG]

O ganlyniad i'r cynllun newydd hwn mae gan bob ardal Heddlu yn awr swyddogion SHCY ychwanegol i hwyluso gwaith gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio [gweler y tabl uchod], gyda'r cynnydd yn yr ysgolion yr ymwelir â nhw yn cyfateb yn fras â'r niferoedd o SHCYau sydd yn awr yn ymweld ag unedau cyfeirio disgyblion  ac Unedau Anawsterau Addysgol, Cymdeithasol ac Ymddygiado. Mae'r tablau canlynol yn dangos y nifer a'r math o ysgolion yr ymwelodd SHCY â nhw ym mhob ardal heddlu yn 2009/10.

| | De Cymru | Gogledd Cymru | Gwent | Dyfed Powys |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 527 | 407 | 209 | 359 |
| Uwchradd | 97 | 59 | 43 | 47 |
| UCD/AACYau | 47 | 30 | 24 | 25 |
| Cyfanswm | 671 | 496 | 276 | 431 |

Mae'r datblygiad hwn ar y Rhaglen hefyd yn gweld rôl y SHCY yn ymestyn tu allan i'r tymor ysgol:

> Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer swyddogion sy'n gweithio gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio yn gosod amod bod pob [adran] heddlu, ar ôl cael budd o swyddog ychwanegol ar gyfer gwaith gyda'r rhai sydd wedi ymddieithrio, yn gyfrifol am gyflwyno'r Rhaglen trwy gydol y flwyddyn ariannol, nid yn ystod y tymor academaidd yn unig. (Dogfen Rolau Gweithredol a Chyfrifoldebau RhGCYCG)

Disgrifiodd un SHCY sut mae'r canllawiau yn golygu y dylai yn awr dreulio chwe awr yn yr ysgolion arbennig ag unedau yn ei ardal. Ond dywedodd ei fod yn treulio llawer mwy na hyn yn yr ysgol arbennig (SHCY 6). Mae'r arian ychwanegol ar gyfer amser a/neu bersonél ychwanegol ar gyfer yr ysgolion hyn wedi cael effaith mewn rhai ysgolion:

> *Dwi'n meddwl yn y blynyddoedd blaenorol ei fod wedi llwyddo i wneud un wers gyda phob grŵp blwyddyn. Ond eleni dwi'n meddwl o leiaf ddau neu dri grŵp blwyddyn, mae'n gwneud dwy wers y flwyddyn ac mae ar gael pan fyddaf yn gofyn iddo fod. Felly oes, mae yna fwy yn awr nag oedd yn arfer bod*. (Pennaeth Cyfarwyddyd ac ABCh, ysgol gyfun CYADd isel)
>
> *Wyddoch chi, mae'n wych ei bod [RhGCYCG] yn cysylltu gyda phobl ifanc, yn enwedig y rhai anodd eu cyrraedd, mae ganddyn nhw [SHCY]*

> *y peth naturiol yna… dwi ddim yn gwybod beth ydio o, ond mae ganddyn nhw'r math yna o waith ieuenctid/athro, ond maen nhw'n gwybod lle mae'r llinell hefyd* (Gweithiwr Cynhwysedd Pobl ifanc, ysgol gyfun CYADd uchel).

Mae i'r ehangu hwn ar gylch gorchwyl y Rhaglen, fodd bynnag, oblygiadau i faich gwaith y SHCY a sut y maent yn dyrannu eu hamser:

> *Dwi ddim yn deud ei bod hi'n ddrwg iawn iawn, ond fe allwn ni gymryd llawer mwy o ran gyda disgyblion y mae arnyn nhw angen help. Dwi yn cymryd rhan rŵan ond, wrth gwrs, dwi'n ymwybodol o'r ffaith hefyd nad ydw'i am dreulio gormod o amser mewn un ysgol ac nid yn fy ysgolion eraill. (SHCY 1)*

> *… i wneud hyn yn iawn fe fyddai'n rhaid i chi gael swyddog arall i mewn yna ...mae'n rhaid i mi flaenoriaethu - y tymor yma dwi wedi bod yn* [enw ysgol] *… y tymor diwethaf fe ges i fy llyncu gan stwff arall yr oeddwn i yn ei wneud* …(SHCY 6)

Roedd y datblygiad diweddar hwn ar y Rhaglen i weithio yn uniongyrchol gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio yn cael ei gyflwyno wrth i'r gwerthuso gychwyn, ac fe wnaethom ymweld ag Ysgol Arbennig breswyl ac uned AACY, y ddwy â pherthynas hirdymor dda â'u SHCYau. Yn y ddwy ysgol roedd pwyslais ar bwysigrwydd y SHCY yn cyflwyno'r wyneb dynol tu ôl i swyddogion yr heddlu mewn iwnifform, a oedd yn arbennig o bwysig i lawer o'r disgyblion yma oedd wedi cael profiadau negyddol iawn o'r heddlu. Mewn cyfweliad fe ddywedodd un disgybl '*Wel mae rhai* [o'r heddlu] *yn deidi* [gan awgrymu bod y SHCY yn un o'r rhain], *ond mae rhai sydd ddim'*. Roedd yn cael ei gydnabod gan athrawon hefyd a SHCYau bod llwyddiant ac effeithiolrwydd yn y sefyllfaoedd hyn yn ddibynnol ar i'r SHCY 'adnabod' y disgyblion:

> *Mae'n rhaid i chi adnabod eich cleientiaid …. dwi wedi bod yn ei wneud ers pedair neu bum mlynedd …. Mae 'na ddau fachgen yn dod heddiw...mae gan un broblemau yfed sy'n achosi llawer o'i weithgareddau troseddol...fe wnawn ni godi'r peth – mewn amgylchedd sydd wedi ei rheoli* …. (SHCY 6)

Roedd yn cael ei ystyried yn bwysig gan y disgyblion hyn hefyd na fyddent yn cael eu barnu yn ôl eu hymddygiad, ond eu helpu i newid:

> *mae* [SHCY] *yn deall eich bod chi'n yfed a dyw e ddim yn eu poeni....maen nhw'n deall llawer iawn o stwff…*

Fe wnaethom arsylwi ar un wers mewn ysgol arbennig lle'r oedd y SHCY yn medru cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd hyblyg a rhesymegol gan ystyried profiadau penodol y disgyblion o ran eu hymwneud ag alcohol. Mewn dwy o'r ysgolion cyfun mwyaf roedd y SHCYau yn ymwneud â llawer o weithgareddau ychwanegol ac ymyraethau gyda disgyblion oedd yn cael eu hystyried fel rhai

wedi ymddieithrio. Roedd y cyswllt llai ffurfiol hwn gyda'r SHCY yn annog y disgyblion i ymateb yn fwy positif i'r gwersi.

Yn yr ysgolion arbennig y mae'r tensiwn rhwng y SHCY a'r 'heddlu' sy'n gorfod ymateb i ymddygiad anghyfreithlon mewn modd penodol, a SHCY fel oedolyn gwybodus y gallant ymddiried ynddo, yn dod i'r amlwg, gan fod llawer o'r disgyblion yma yn/wedi bod mewn helynt gyda'r heddlu. Er bod y 'Protocol Rhodfa Troseddau Ysgol (2007) yn rhoi canllawiau clir ar sut y dylai SHCYau ymdrin â digwyddiadau yn yr ysgol, nid yw'n adlewyrchu natur fregus iawn y berthynas yma.

**Crynodeb**

- Mae'r RhGCYCG yn rhaglen gyffredinol sy'n cael ei darparu i grwpiau blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd heb unrhyw dargedu penodol ar ddisgyblion sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd wedi ymddieithrio mewn ysgolion prif-ffrwd.
- Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y disgyblion sydd wedi ymddieithrio mewn ysgolion prif-ffrwd bod y wybodaeth a roddwyd yn y gwersi yn ddefnyddiol e.e. '*Os ydych chi'n defnyddio cyffuriau ar y penwythnos, fel....Maen nhw* [gwersi RhGCYCG] *yn helpu i chi gael golwg ehangach ar y peth felly dech chi ddim am ei wneud fel …*' a pheth cytundeb bod y berthynas gyda SHCYau yn bositif. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad ydym yn gwybod beth oedd y meini prawf a ddefnyddiwyd gan yr ysgolion i ddynodi'r disgyblion hyn fel rhai a ymddieithriodd.
- Mae'r holl heddluoedd yng Nghymru wedi derbyn arian ychwanegol i gynyddu'r nifer o SHCYau i weithio gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio a'r rhai mewn ysgolion arbennig, UCDau a AECYau (unedau anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol).
- Mae rhai ysgolion prif-ffrwd eisoes yn gweld cynnydd yn y cyswllt gyda'u SHCY.
- Roedd nifer fechan o SHCYau yn bryderus bod ehangu eu rôl yn mynd i arwain at lai o amser mewn ysgolion eraill.
- Yn y ddwy ysgol/uned arbennig y buom yn ymweld â nhw roedd pwyslais ar bwysigrwydd gweld y SHCY yn cyflwyno wyneb dynol tu ôl i iwnifform yr heddlu. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i lawer o'r disgyblion hyn oedd â phrofiadau negyddol iawn o'r heddlu.
- Roedd y datblygiad diweddar hwn ar y Rhaglen i weithio yn uniongyrchol gyda disgyblion oedd wedi ymddieithrio yn cael ei gyflwyno wrth i'r gwerthusiad hwn gychwyn.

**4.7**

**Pa systemau mae'r Rhaglen yn eu defnyddio ar gyfer monitro a gwerthuso mewnol?**

Bu dau Adroddiad Cenedlaethol ar y RhGCYCG (2005 a 2006) sydd wedi canolbwyntio yn bennaf ar werthuso cynnwys y gwersi, eu cyflwyniad a bodlonrwydd disgyblion/athrawon.

Ar gyfer yr Adroddiadau Blynyddol yn 2005 a 2006 anfonwyd holiadur byr i gydlynydd ABCh pob ysgol. Mae naw o'r cwestiynau yn gofyn am farn

(rhagorol; da iawn; da; boddhaol; ac angen datblygu) ar ddylanwad y Rhaglen ar wybodaeth disgyblion, ac ar safon cyflwyno'r gwersi. Roedd un cwestiwn yn holi am werth y rôl plismona cefnogol. Roedd naw cwestiwn arall (gan ddefnyddio'r un drefn i roi barn), yn gofyn i'r cydlynwyr ABCh werthuso bodlonrwydd ar wersi/pynciau unigol. Cyflwynir y data trwy goladu'r holl ymatebion rhagorol; da iawn; da; a boddhaol gyda'i gilydd, a chyflwyno'r sgôr hon yn gyfochrog a'r un 'angen datblygu'. Gwelwyd gwelliant cyffredinol ym mhob agwedd ar y Rhaglen rhwng 2005 a 2006, gyda'r holl gyfansymiau cronnol yn 2006 dros 93%. Fodd bynnag, mae cael dim ond pedwar categori cadarnhaol (rhagorol, da iawn a boddhaol) a dim ond un categori llai positif (angen datblygu) yn creu tuedd anochel tuag at ganlyniad positif ac yn cynnig ychydig iawn o gyfle i ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i'r rhaglen. Mae'n werth nodi hefyd bod y gyfradd ymateb ar gyfer Adroddiad Cenedlaethol 2006 rhwng 41% a 46%. Mae'r gwerthusiad hwn felly yn seiliedig ar lai na 50% o'r cydlynwyr ac felly nid yw o angenrheidrwydd yn cynrychioli barn y mwyafrif.

Mae'r Gwerthusiad Gwersi Disgyblion ac Athrawon yn awr yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd a Mawrth bob blwyddyn, ac yn Nhachwedd 2009 roedd yn canolbwyntio ar un wers i bob cyfnod allweddol (h.y.5 gwers) yn yr edefyn cyffuriau. Dychwelwyd dros 4,000 o holiaduron gan ddisgyblion ar draws yr holl gyfnodau allweddol oedd wedi derbyn y wers, ond nid oes unrhyw wybodaeth faint o holiaduron a anfonwyd i ysgolion a beth oedd yr union gyfradd ymateb. Er ei bod yn afrealistig disgwyl i'r holl ddisgyblion oedd wedi derbyn y wers gymryd rhan yn y gwerthusiad, mae'n angenrheidiol gwybod sut y samplwyd y disgyblion er mwyn deall a yw'r ymatebion yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach.

Yng ngwerthusiad mis Tachwedd, defnyddiwyd y model KUSAB i gael tystiolaeth o wybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad y disgyblion. Yn gyffredinol roedd lefel hyder a bodlonrwydd disgyblion ar y Rhaglen yn 74%, a 76% yn dweud bod y SHCY yn rhoi help a chefnogaeth iddynt. Dychwelwyd holiaduron hefyd gan 169 Cydlynydd ABCh a gofynnwyd iddynt roi sylw ar y modd yr oedd SHCY yn cyflwyno gwersi a chynnwys y gwersi yn ôl y model KUSAB. Ar sail ymatebion 'da iawn' a 'da' gan y cydlynwyr ABCh, casglwyd y canrannau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth | 98% |
| Dealltwriaeth | 99% |
| Sgiliau | 92% |
| Agweddau | 97% |
| Ymddygiad | 95% |

Roedd gwerthusiad yr athrawon o ymateb disgyblion i'r wers (ysgogiad, sylw, addasrwydd, brwdfrydedd) yn 95%, ac fe wnaeth 98% o'r athrawon gofnodi bod yr adnoddau a'r gweithgareddau yn berthnasol i ddysg y disgyblion. Fodd bynnag, trwy gyflwyno'r data yn y modd hwn (gyda'r canrannau yn aml yn y nawdegau uchel), ychydig iawn o gyfle, os o gwbl, sydd ar gyfer gwella, ac mae'n rhoi pwysau sylweddol ar gynnal y ffigyrau yma yn y dyfodol.

Er bod data holiaduron yn cael ei gynhyrchu ar lefel ysgol roedd yn cael ei goladu yn genedlaethol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol yn 2006, ac fe'i

coladwyd yn ôl ardal heddlu ar gyfer y Gwerthusiad Disgyblion ac Athrawon diweddaraf ym mis Tachwedd 2009. Felly mae lefelau gwahanol o ymateb, o niferoedd gwahanol o ysgolion a disgyblion felly yn cael eu boddi yn y ffigyrau/canrannau cyffredinol. Er bod hyn yn cynnig golwg eang ar lefel yr hyder yn y Rhaglen a'r bodlonrwydd arni yn gyffredinol, nid yw'n caniatáu ar gyfer monitro a gwerthuso wedi eu targedu yn fwy manwl.

Mae Cydlynwyr Rhanbarthol y Rhaglen hefyd yn arsylwi gwersi a roddir gan bob un o'r SHCY unwaith y tymor (gan ddefnyddio ffurflen werthuso safonol), ac mae'r Cydlynydd Cenedlaethol yn arsylwi tair gwers ym mhob un o'r pedair ardal heddlu i fonitro safonau ar draws Cymru. Cynhelir cyfarfodydd grŵp ymgynghorol hefyd bob tymor gyda chynrychiolwyr ABCh awdurdodau lleol, a chynhelir cyfarfodydd cyson gyda rheolwyr llinell Diogelwch Cymunedol yr Heddlu Adrannol. Nid yw'n glir sut/a yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio ar gyfer monitro a gwerthuso.

Cyflwynwyd system electronig ar gyfer cofnodi cyfansymiau'r gwersi a gyflwynwyd a'r elfennau plismona cefnogol ym Medi 2009. Mae hyn yn caniatáu i gydlynwyr rhanbarthol y Rhaglen gael golwg gyffredinol ar y cyfansymiau o wersi a gyflwynwyd a'r plismona cefnogol, ond mae'r cyfansymiau ar gyfer ardaloedd heddlu a dim ond trwy system yr heddlu y gellir cael eu gweld.

**Crynodeb**

- Gwelwyd dau Adroddiad Cenedlaethol ar y RhGCYCG (2005 a 2006).
- Cynhelir Gwerthusiad Gwersi Disgybl ac Athro ym mis Tachwedd a Mawrth bob blwyddyn.
- Nid yw'r modd y coladir y data lleol i gyflwyno darlun cenedlaethol (gyda'r canrannau yn aml yn y nawdegau uchel), yn rhoi llawer o gyfle, os o gwbl, ar gyfer gwella, ac mae'n rhoi pwysau sylweddol ar gynnal y ffigyrau hyn yn y dyfodol. Er bod y ffigyrau hyn yn rhoi sicrwydd, nid yw'n glir i ba raddau y maent yn cynrychioli'r gymuned athrawon a disgyblion ehangach yng Nghymru
- Mae Cydlynwyr Rhanbarthol y RhGCYCG yn arsylwi gwers a roddir gan bob SHCY unwaith y tymor (gan ddefnyddio ffurflen werthuso safonol).
- Mae'r Cydlynydd Cenedlaethol yn arsylwi tair gwers y flwyddyn ym mhob un o'r pedair ardal heddlu i fonitro safonau ar draws Cymru.
- Cyflwynwyd system electronig ar gyfer cofnodi cyfansymiau'r gwersi a gyflwynwyd a'r elfennau plismona cefnogol ym Medi 2009.

## 5. Gwerthuso Canlyniadau

### 5.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon rydym yn disgrifio'r profiadau a'r dystiolaeth a roddwyd gan wahanol weithredwyr yn yr ysgol a'r gymuned ehangach ar effaith ac effeithiolrwydd y Rhaglen (cwestiynau ymchwil 9 a 10).  Rydym yn cyflwyno barn yr ymatebwyr allweddol, staff yr ysgol a'r rhai yn y gymuned, gan gyfeirio weithiau at farn y disgyblion pan fydd yn addas. Yna rhoddir adroddiad ar wahân ar ganfyddiadau'r holiadur disgyblion a'r grwpiau ffocws.

Defnyddir y ffynonellau data sy'n bodoli wedyn i gymharu tystiolaeth ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd a heddlu/cyfiawnder ieuenctid i ddynodi newidiadau yn ymddygiad disgyblion (cwestiynau ymchwil 11a 12), ac rydym yn amlinellu nodweddion ymyrraeth effeithiol (cwestiwn ymchwil 13)

### 5.1
### Ym marn amrywiaeth o'r rhai sy'n gweithredu yn yr ysgol a'r gymuned ehangach, beth yw effaith ac effeithiolrwydd y Rhaglen?

Er bod llawer o'r ymatebwyr wedi sôn am anhawster mesur neu roi tystiolaeth o effaith y Rhaglen, teimlai mwyafrif mawr o'r rhai a gyfwelwyd bod y RhGCYCG yn rhaglen bwysig ac effeithiol. Rhoddodd y rhai a gyfwelwyd nifer o enghreifftiau o'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn effaith gadarnhaol y rhaglen, gyda rhai enghreifftiau yn dynodi effaith ehangach na'r rhai oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â nodau'r rhaglen.

Roedd y rhai a gwybodaeth allweddol, staff yr ysgol, disgyblion a gweithwyr proffesiynol yn y gymuned yn gweld bod tair agwedd (oedd yn gorgyffwrdd yn aml) ar effaith ac effeithiolrwydd y RhGCYCG:

- Gwella cysylltiadau
- Atal a lleihau troseddu.
- Annog a hwyluso gweithio rhyngasiantaethol.

Trafodir barn disgyblion ar effaith y RhGCYCG ar eu hagweddau a'u hymddygiad ar wahân.

*Gwella cysylltiadau rhwng yr heddlu a phobl ifanc.*
Dewiswyd yr ysgolion ar gyfer y gwerthusiad hwn oherwydd bod ganddynt gysylltiad tymor hir â SHCY. Nid yw'n syndod felly bod y cysylltiadau cryf yma rhwng y disgyblion a'r SHCY, a'r athrawon a'r SHCY, yn cael eu cydnabod fel elfen ganolog o lwyddiant ac effeithiolrwydd y rhaglen.

Gall y berthynas rhwng pobl ifanc â'r heddlu fod yn un amheus a gochelgar. Mae'r hanes yma gan SHCY yn disgrifio sut y mae ei pherthynas â disgyblion wedi newid ers iddi ymwneud ag un ysgol gyfun CYADd isel:

> *Fe fyddech chi'n cerdded i mewn* [i'r ysgol] *a chael y stereoteip yn syth 'o, pam bod nhw* [yr heddlu] *yma, mi fydd hyn yn afiach'… Fe fyddwn*

> *yn cerdded trwy'r cae chwarae neu'r iard pan fyddai'n llawn o blant, ac fe fyddwn yn teimlo'n anghyfforddus oherwydd eu bod yn syllu, ac fe fydden nhw* [disgyblion] *yn gweiddi 'y mochyn' arnoch chi. Nawr dwi'n cerdded trwy'r iard ac maen nhw'n dod atai gan ddweud 'pryd ydech chi'n ein dysgu ni nesaf?', neu 'chi'n iawn?' a hyd yn oed y rhai caled – rydech chi'n cael yr hyn dwi'n alw yn 'y nod', y 'iawn miss?' …. Rydych yn cael eich cydnabod gan blant caled yr ysgol ….* (SHCY 4)

Mae cael cyswllt cyson gyda'r un SHCY dros nifer o flynyddoedd (weithiau mae'r un SHCY yn cael cyswllt gyda'r un disgyblion yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd) hefyd yn bwysig ar gyfer 'cyfleu'r neges':

> *Yr hyn dwi'n sylwi nawr yw bod blwyddyn 10 ac 11 yn barod i wrando ar yr hyn dwi'n ei ddweud wrthyn nhw, yn hytrach na 'Dwi ddim yn gwrando – plismon ydech chi'. Nawr maen nhw'n [disgyblion] gwrando… (SHCY 2)*

Roedd ymateb positif hefyd gan riant (sydd hefyd yn uwch swyddog heddlu) am y berthynas rhwng SHCY a disgyblion:

> *…mae fy nau blentyn wedi mynd trwy'r broses a dwi'n gwybod, er bod y cyswllt yn eithaf cyfyngedig, wyddoch chi, fe fyddai'r ddau yn dod adre yn gwybod pwy yw swyddog yr ysgol ac er nad oedd ganddynt berthynas bersonol ag ef, roedden nhw'n gwybod, wyddoch chi, y gallen nhw fynd ato petai arnyn nhw angen, neu gysylltu os oedden nhw'n teimlo bod arnyn nhw angen.* (Uwch swyddog heddlu1)

Dywedodd rhiant arall bod ei phlant oed cynradd yn dod adref a siarad am y gwersi, gan ddweud; '*Dwi'n nabod y* [SHCY] *ac roedd hi'n ein dysgu am y rhyngrwyd'*.

Soniodd staff uwch yr ysgol i gyd am y berthynas bositif rhwng disgyblion a'r SHCY a rhwng y staff a'r SHCY e.e.

> *Dwi'n gwybod ei fod yn anodd ei fesur yn iawn. Ond dwi'n ei weld o ran y cysylltiadau. A dwi'n meddwl bod rhaid i hynny fod yn bositif. Wyddoch chi, maen nhw'n cael effaith ar ysgolion. … Maen nhw mewn ysgolion, nid dim ond yn cyflwyno gwersi, yn cyflwyno gwybodaeth. Maen nhw'n llunio cysylltiadau. A dwi'n meddwl bod hynny'n amhrisiadwy. A dwi'n meddwl bod rhaid i hynny gael rhyw effaith rhywle i lawr y ffordd. Ond eto'r broblem yw mesur y peth. Wyddoch chi, profi ei fod yn cael effaith, wyddoch chi. Ac nid dim ond cysylltiadau gyda'r disgyblion yw hynny, mae'n gysylltiadau gyda staff allweddol yr ysgol … mae gan [SHCY] y rôl honno mae gan [SHCY] lawer i'w wneud hefo rhai staff allweddol yn yr ysgol. A dwi'n gweld bod y rôl honno yn cael cefnogaeth aruthrol gan ysgolion hefyd …*
> (Prifathro Cynorthwyol, ysgol gyfun CYADd uchel)
>
> *Ar lefel bersonol mae'r [SHCY] mor hawdd mynd ati, mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn medru siarad â hi ac maen nhw'n ymddiried ynddi*

> *…mae [SHCY] yn cael ei hystyried yn aelod gwerthfawr o'r staff y gellir ymgynghori â hi am gyngor proffesiynol*. (Prifathro Cynorthwyol ysgol gyfun CYADd isel)

Mae'r berthynas bositif sydd wedi datblygu rhwng SHCYau a disgyblion hefyd yn cael ei chydnabod gan swyddogion heddlu eraill:

> … *maen nhw [disgyblion] yn gwybod ei bod hi [SHCY] yn swyddog heddlu, ond dwi'n meddwl eu bod yn ei gweld fel rhywun â rôl wahanol i ni … mae ganddyn nhw berthynas lawer gwell â hi.* (Rheolwr Rhawd)

Soniodd disgyblion mewn grwpiau ffocws hefyd am y berthynas bositif oedd ganddynt â'u SHCY e.e.

> *Mae e* [SHCY] *yn eich trin chi'n wahanol ac yn siarad gyda chi fel tase chi'n oedolyn ac nid plentyn.* [disgybl a 'ymddieithriodd' ysgol CYADd isel]

Fodd bynnag, nid yw'r berthynas bositif rhwng y SHCY a'r disgyblion yn ymddangos bob amser fel petai yn cael effaith ar y berthynas rhwng pobl ifanc a'r heddlu yn gyffredinol. Mae'r dyfyniad canlynol yn codi'r mater o drosglwyddo'r berthynas bositif gyda'r 'plismyn neis' (e.e. SHCYau) i 'fath arall o blismon':

> *… mae pobl ifanc yn eu hoffi [SHCYau], ac maen nhw'n eu hoffi mewn iwnifform … Dyw hynny ddim yn golygu pan fyddan nhw'n bymtheg* [pobl ifanc] *eu bod yn mynd i drosglwyddo'r agwedd bositif at yr heddlu allan ar y stryd pan fyddan nhw'n rowlio spliff ac y bydd rhyw fath arall o blismon yn dod atyn nhw… Dyw hi ddim yn gweithio fel yna ….* (Aelod o Banel Ymgynghorol).

Mae'r cyfeiriad uchod at 'rhyw fath arall o blismon' yn rhoi peth cyfrifoldeb am yr anawsterau yn y berthynas rhwng yr heddlu a phobl ifanc a'r heddlu ar yr heddlu. Soniodd y SHCY hwn yn ddigon agored mai ei agwedd tuag at bobl ifanc yn y gorffennol oedd amheuaeth, ond er bod ei farn wedi newid erbyn hyn, nid oedd un ei gydweithwyr wedi newid:

> *…nid yw pobl ifanc yn wirion. Dydyn nhw ddim yn mynd i feddwl bod plismyn yn wych. Cyn belled ag y bydd plismyn yn parhau i roi agwedd yn ôl iddyn nhw, maen nhw'n mynd i barhau i ddangos yr un agwedd …. Dwi'n meddwl bod y bobl ifanc yn barod i 'ildio' ond nad ydyn ni* [yr heddlu] *yn barod i wneud hynny. Nid beirniadaeth ar yr heddlu ydi hyn achos dyna lle'r oedden ni, dyna lle'r oeddwn i*'. (SHCY 2)

Mewn trafodaethau grŵp ffocws roedd y disgyblion hefyd yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng y SHCY a heddlu 'arall':

> *Yr heddlu sy'n crwydro'r strydoedd ydi'r rhai'r ydych chi'n poeni mwyaf amdanyn nhw …. Os byddwch chi'n siarad hefo nhw* [heddlu ar y stryd] *fel oedolion fyddan nhw ddim yn hoffi hynny achos nad ydyn nhw wedi*

*arfer...ar y strydoedd mae rhai ohonyn nhw'n gallu bod yn reit nawddoglyd* [Grŵp ffocws merched, ysgol CYADd isel)

Nid oes amheuaeth bod y berthynas bositif rhwng staff ysgol a SHCY yn ffactor bwysig iawn wrth werthuso effaith ac effeithiolrwydd y Rhaglen. Ond, fel y nodir uchod, er mwyn i'r berthynas rhwng pobl ifanc a'r heddlu yn gyffredinol wella, rhaid gweld newid yn y ffordd y mae'r heddlu yn trin pobl ifanc. Yn wir, dywedodd un gweithiwr ieuenctid ysgol bod y berthynas rhwng disgyblion a'r SHCY wedi rhoi disgwyliadau afrealistig i'r disgyblion y byddai'r heddlu yn gyffredinol yn cysylltu â nhw mewn modd positif. Fodd bynnag, roedd arwyddion bod rhai agweddau yn newid, fel yr oedd y swyddog heddlu cymdogaeth hwn, oedd yn gweithio yn glos â SHCY, yn gweld manteision ymwneud â phobl ifanc:

> *Maen nhw [SHCY i gyd wedi fy helpu i gael gwell dealltwriaeth o ba mor bwysig yw cyswllt, cyswllt clos, gyda'r disgyblion* … (Rheolwr Rhawd)

*Atal a lleihau troseddu*

Roedd cefnogaeth gref iawn o'r ysgolion i'r RhGCYCG a chred gref ei bod yn cael effaith ar ymddygiad disgyblion o ran atal a lleihau troseddu:

> *A dwi'n siŵr ei bod [RhGCYCG] yn atal neu'n ailgyfeirio rhai o'n pobl ifanc ac yn gwneud iddyn nhw stopio a meddwl …. Ydw i'n meddwl bod 'na effaith? Ydw*. (Pennaeth ysgol gyfun CYADd uchel)

Gellir profi'r newidiadau yn agweddau disgyblion a'u hymddygiad y cyfeirir atynt yn y dyfyniad uchod trwy'r holiadur disgyblion (gweler 5.4 isod). Yn yr adran hon rydym yn canolbwyntio ar farn staff yr ysgol a SHCYau.

Yr hyn oedd yn arbennig o drawiadol am yr enghreifftiau a roddwyd gan SHCYau a staff yr ysgol am newidiadau yn ymddygiad disgyblion oedd y pwyslais ar y ffordd yr oedd gwybodaeth o'r RhGCYCG yn helpu disgyblion i gadw'n ddiogel. Er enghraifft:

> *'Dwi'n gwybod fy mod wedi gwneud i blant feddwl... Dwi wedi clywed am lwyddiannau pan fydd plant wedi dweud wrthyf eu bod wedi cael eu cadw'n ddiogel* ' (SHCY 3)
>
> *Mae pobl ifanc yn dod ataf ac yn dweud 'O ryden ni'n eich cofio chi yn yr ysgol y dydd o'r blaen', sy'n beth braf i'w wybod, a [maen nhw'n dweud] 'cofiwch beidio â mynd i dacsi, rhaid iddo fod â thrwydded' a staff felly dech chi'n gwybod …. Rydych yn meddwl Duw mae hynny'n braf y bydd pobl yn dod, yn gyntaf oll atoch chi, yn eich adnabod fel heddwas, a wirioneddol yn ymateb i'r hyn yr ydych wedi ei ddweud mewn gwers*.. (SHCY 6)

Rhoddwyd enghraifft bwysig arall o effaith y RhGCYCG gan gyn aelod o'r CID mewn diogelu plant (sydd yn awr yn SHCY, ond ddim yn yr ysgolion y buom yn ymweld â nhw) a ddywedodd:

> *Fe allwn i weld effaith glir gwaith y SHCY – sy'n gryf yn y maes hwn* [diogelwch personol] *gan fod plant yn awr yn llawer mwy tebygol o roi adroddiad eu hunain* [am weithgaredd pedoffilaidd posibl ar-lein] *ac mae ymwybyddiaeth plant wedi cael ei gryfhau*.

Rhoddwyd enghraifft arall o ddisgyblion mewn ysgol uwchradd yn datgelu i'w SHCY eu pryderon am y rhyngrwyd a gyfeiriwyd at CEOP (Y Ganolfan Manteisio ar Blant a Diogelu Ar-lein).

Mae rhoi'r wybodaeth, sgiliau a chefnogaeth i ddisgyblion i gadw eu hunain yn ddiogel yn bwysig, ac nid oes amheuaeth ym meddyliau'r rhai y gwnaethom eu cyfweld bod y RhGCYCG a'r berthynas rhwng disgyblion a'r SHCY yn chwarae rôl allweddol yn hyn.

Fe roddwyd nifer o enghreifftiau i ni hefyd o achlysuron pan oedd ymyrraeth SHCY mewn digwyddiadau yn yr ysgol wedi atal rhagor o ymddygiad troseddol, ac wedi atal rhai disgyblion rhag cael record droseddol. Fel y mae'r SHCY hwn yn disgrifio:

> *… fe fydd pethau'n digwydd yn yr ysgol … os na fydd rhieni dioddefwr yn gwneud cwyn droseddol, a'u bod yn hapus i'r ysgol ymdrin â'r peth, neu eu bod yn hapus â'r ffordd y mae'r ysgol wedi ymdrin â'r peth, mae'n dod ata fi, ac fe fyddaf i'n mynd i'r ysgol a siarad hefo'r athrawon, siarad hefo'r disgyblion, os oes raid, a'r rhieni. Ac fe fyddwn ni'n eistedd o gwmpas y bwrdd … [cyn hyn] os byddech chi'n gwneud rhywbeth yn yr ysgol, fe fyddech yn cael eich arestio amdano, fe fyddech yn cael record droseddol, ond, os gallwn ni drin y peth yn yr ysgol, mae'n atal iddynt gael eu criminaleiddio.* (SHCY 1)

Roedd y RhGCYCG hefyd yn cael ei gweld yn cael effaith yn y gymuned, gyda disgyblion yng ngrŵp ffocws un ysgol yn dweud bod gangiau yn llai o broblem iddyn nhw yn awr. Fe wnaeth staff ysgol hefyd ddweud bod mewnbwn y SHCY ar Galan Gaeaf o ran peryglon tân gwyllt, wedi arwain at leihad yn y cwynion am ymddygiad pobl ifanc ar yr adeg honno. Er enghraifft mewn un ardal dim ond un gŵyn a dderbyniwyd, er bod llawer mwy wedi eu derbyn y flwyddyn flaenorol.

Soniodd swyddog heddlu cymdogaeth hefyd am bobl ifanc yn fwy gwybodus am beryglon ac yn medru mynegi pam na ddylent fod yn dangos yr ymddygiad hwn.

Ond roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd, fodd bynnag, yn ymwybodol iawn o'r broblem wrth geisio darparu tystiolaeth i brofi'r honiadau hyn, yn arbennig yng ngoleuni ystadegau lleol/cenedlaethol:

> *Ni fedrwn ddweud bod y bobl yma [RhGCYCG] yn atal troseddau, na dim o'r fath beth, a fyddwn i ddim yn gwybod, fyddwn i....rydym ni mewn ardal lle mae troseddau ieuenctid wedi lleihau dros y*

*blynyddoedd diwethaf, dyna natur yr ardal*. (Swyddog Diogelwch Cymunedol)

Roedd cydnabyddiaeth, fodd bynnag, y gallai'r RhGCYCG gael effaith ar y disgyblion hynny oedd yn cael eu hystyried y medrent fod ar fin troi at ymddygiad anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol.

*Gweithio amlasiantaethol*

Fel y dywedwyd yn gryno gan un ymatebwr, gan adlewyrchu barn nifer o rai eraill, roedd y rhaglen yn cael ei gweld fel un oedd â chryfderau craidd o ran y gyrwyr aml/rhyngddisgyblaethol o ddatblygu ac arfer polisi cenedlaethol:

1. Mae'r RhGCYCG yn cydnabod y berthynas rhwng diogelwch cymunedol, cyfrifoldeb cymdeithasol, peidio ymwneud â throseddu, a chamddefnyddio sylweddau.
2. Mae'r RhGCYCG yn gorfodi peth cysylltiadau lleol ar draws Cymru rhwng y gwasanaeth heddlu ac addysg. (Aelod o'r Panel Ymgynghorol)

Er bod prif rym y gwaith o wella cysylltiadau yn cael ei gyfeirio at y berthynas rhwng yr heddlu a phobl ifanc, roedd yn cael ei gydnabod gan yr heddlu a staff yr ysgol bod eu perthynas â'i gilydd wedi gwella o ganlyniad i'r RhGCYCG. Er enghraifft, roedd rhai ysgolion wedi bod yn gyndyn o gael yr heddlu ar y safle a thrwy ymwneud â'r SHCY roeddent yn awr yn cael eu gweld yn barod i dderbyn mwy o ymwneud â'r heddlu (e.e. heddlu cymdogaeth):

> *Oherwydd na allwch chi gael eich troed yn y drws mewn rhai ysgolion. 'Dyn nhw ddim eisiau presenoldeb gan yr heddlu...achos mae'n edrych fel bod ganddyn nhw enw drwg. Mae [SHCY] eisoes wedi cael ei throed yn y drws* [yn yr ysgol hon] *… sy'n ei gwneud hi ychydig bach yn haws yn arbennig i mi oherwydd nhw yw fy nghyswllt i yma*. (Rheolwr Rhawd Heddlu)

Efallai mai un o ganlyniadau ymwneud yr ysgolion â'r Rhaglen sy'n peri syndod yw'r modd y mae wedi hwyluso'r ffordd i asiantaethau eraill gael eu derbyn mewn ysgolion:

> *Ar gyfer y gwasanaethau ieuenctid yn gyffredinol mae'n hysbys ei bod yn anodd mynd i mewn i ysgolion …. Mae [SHCY] yn bendant wedi ei gwneud hi'n bosibl i ddod i mewn i* [enw'r ysgol]. (Swyddog Cyfranogiad Pobl Ifanc, ysgol CYADd isel).

Roedd y SHCY hefyd yn cael ei weld fel catalydd posibl ar gyfer mwy o gyswllt rhwng yr heddlu a'r gymuned:

> *… rydym yn hoffi gweld cymunedau yn adnabod eu swyddog lleol a llunio perthynas â'r unigolyn hwnnw/honno i fedru siarad â'r unigolyn os bydd problem neu fater y gallant fod am ei drafod ac felly mae'r*

*[SHCYau] yn creu hynny … Felly rwy'n meddwl mai rhan y [RhGCYCG] o'r berthynas honno yw rhoi rhai blociau adeiladu yn eu lle ar gyfer cysylltiadau nes gyda chymunedau yn y tymor hir … mae 'na lawer iawn o bethau yn mynd ymlaen mewn cymunedau sy'n effeithio ar blant neu sy'n peri pryder i blant. A, wyddoch chi eto, dwi'n meddwl bod y rhaglen ysgolion yn cynnig llwyfan ddelfrydol ar gyfer, wyddoch chi, creu'r ymlyniad hwnnw ond nid wyf yn siwr ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n dod allan ohoni a dweud y gwir (Uwch swyddog heddlu 2)*

Yn y gwasanaeth heddlu mae cynlluniau hefyd i ddatblygu mwy o gyswllt rhwng ysgolion a SHCYau a heddlu cymdogaeth:

*Rydym wedi cydnabod ers peth amser bod angen i ni efallai ddefnyddio swyddogion yr ysgolion fel catalydd ar gyfer cyflwyno swyddogion yr heddlu mewn ystyr ehangach i ysgolion, wyddoch chi, mae gennym dimau plismona cymdogaeth yn awr sy'n cynnwys pob ardal o'r heddlu a'r wlad yn wir a dwi'n meddwl mai'r her i ni yw ceisio adeiladau ar y cysylltiadau hynny sydd gan ein plant ysgol yn barod hefo'u swyddogion ysgol i'r tîm plismona cymunedol ehangach oherwydd yno, wyddoch chi, mae 'na lawer o fanteision i ni i gyd … . (Uwch swyddog heddlu 1)*

Roedd SHCYau yn ymwybodol o'u rôl mewn gweithio rhyngddisgyblaethol:

*Dwi'n ystyried y rhaglen ysgol fel olwyn gocos, yr olwyn gocos fwyaf, cyn belled ag y mae datblygu pobl ifanc ...mae 'na olwyn gocos oddi wrth y teulu, olwyn gocos gan yr athrawon, olwyn gocos gan y gwasanaeth gyrfaoedd - o ran cael cefnogaeth ar ôl yr ysgol - a rydyn ni'n un o'r olwynion cocos hynny.(SHCY 6)*

**Crynodeb**

- Mae'r cyfweliadau yn dynodi y gall ymwneud ysgol â'r RhGCYCG wella cysylltiadau rhwng pobl ifanc a'r SHCY; rhwng yr heddlu a'r ysgolion; a rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill.
- Sylwodd SHCYau ar newidiadau sylweddol yn y berthynas gyda disgyblion, gyda'r disgyblion yn awr yn eu cydnabod yn yr ysgol ac yn y gymuned. Teimlent hefyd bod llawer o bobl ifanc yn ymddiried ynddynt yn awr.
- Roedd y ffaith bod SHCYau yn ymwneud ag ysgol weithiau yn 'agor y drws' ar gyfer cyswllt gyda'r heddlu cymdogaeth ac asiantaethau eraill.
- Rhoddwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn rhoi adroddiadau am eu pryderon eu hunain am y rhyngrwyd a gweithgareddau pedoffilaidd posibl. Rhoddodd SHCYau enghreifftiau lle'r oedd pobl ifanc wedi dweud wrthyn nhw eu bod wedi 'cadw'n ddiogel' oherwydd y wybodaeth a roddwyd yn y gwersi.
- Roedd gostyngiad wedi digwydd yn y cwynion am ymddygiad pobl ifanc o gwmpas Calan Gaeaf a deallir bod hynny o ganlyniad i ymyrraeth y RhGCYCG/SHCY.

- Nid oedd y berthynas bositif/gyfnewidiol rhwng SHCY a phobl ifanc yn cael ei gweld yn cael effaith ar y berthynas rhwng pobl ifanc a'r heddlu yn gyffredinol.
- Roedd ymwneud SHCY â digwyddiadau mewn ysgolion yn atal pobl ifanc rhag cael eu criminaleiddio.

**5.4**
**A yw disgyblion yn teimlo bod y rhaglen wedi cael effaith ar eu hagweddau a'u hymddygiad o ran diogelwch personol, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?**

Mae'r adran hon yn edrych yn benodol ar farn a phrofiadau disgyblion i weld pa effaith y mae'r gwersi a'u cyswllt gyda'r SHCY wedi ei gael ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, ymddygiad ac agweddau o ran diogelwch personol, camddefnyddio sylweddau, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynhyrchwyd y data ar gyfer yr adran hon gan ddefnyddio arolwg mewn deg ysgol (pedair gynradd, pedair uwchradd, un ysgol gymunedol ac un ysgol arbennig) gyda'r holl ddisgyblion ym mlynyddoedd 6, 8 a 11. Dosbarthwyd cyfanswm o 2015 o holiaduron i ysgolion ac fe wnaeth 1543 o ddisgyblion lenwi'r holiaduron (193 yn Gymraeg, 162 o ysgolion cynradd -blwyddyn 6, a 1382 o ysgolion uwchradd - blynyddoedd 8 a 11). Fe wnaethom hefyd gynnal grwpiau ffocws/trafod gyda disgyblion yn yr un deg ysgol (a grŵp ffocws mewn ysgol arbennig arall) gyda disgyblion ym mlynyddoedd 6 a 11 (87 o ddisgyblion).

Cyflwynir crynodeb o'r data hwn yma (gellir gweld adroddiad llawn yr arolwg a'r holl dablau yn Atodiad V). Mae'r nifer fechan o ddisgyblion ac ysgolion a arolygwyd yn golygu na ellir cyffredinoli ein canfyddiadau na'u hystyried yn rhai cynrychioliadol yn ystadegol. Er ein bod wedi dadansoddi'r data gan ddefnyddio hawl uwch ac is na'r cyfartaledd i CYADd, ac yn ôl rhyw (gweler Atodiad V), nid yw'r dadansoddiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y themâu cyffredinol a'r casgliadau a wneir. Cyflwynir y data yn yr adran hon felly yn ôl grŵp blwyddyn.

*Gwybodaeth a dealltwriaeth*
Yr un ffactor oedd yn cael mwyaf o ganmoliaeth gan fwyafrif yr holl ddisgyblion yn yr holl ysgolion y gwnaethom eu harolygu oedd eu bod wedi cael gwybod pethau nad oeddent yn eu gwybod o'r blaen.
Dengys data'r holiadur (ar draws blynyddoedd 6, 8, a 11) bod y disgyblion yn cael gwybodaeth newydd yn gyson o wersi RhGCYCG, er bod y canrannau ym mhob grŵp blwyddyn yn mynd yn llai e.e. 91% ym mlwyddyn 6, 73% ym mlwyddyn 8, a 64% ym mlwyddyn 11.

Tabl 5.1: nifer/canrannau yn cytuno â'r datganiad, cynradd (n=162).

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Fe wnes i ddod i wybod pethau nad oeddwn yn eu gwybod o'r blaen | 148 | *91* |
| Dwi'n awr yn meddwl am y ffordd y gall pobl eraill fod yn teimlo | 128 | *79* |
| Dwi'n awr yn meddwl am newid fy ymddygiad yn yr ysgol | 83 | *51* |

| | | |
|---|---|---|
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddwch chi'n smygu sigarét | 135 | *83* |

Tabl 5.2: niferoedd/canran yn cytuno â'r datganiad disgyblion uwchradd blwyddyn 8 (n=721)

| | Niferoedd | % |
|---|---|---|
| Fe wnes i ddod i wybod pethau nad oeddwn yn eu gwybod o'r blaen | 525 | *73* |
| Dwi'n awr yn meddwl am y ffordd y gall pobl eraill fod yn teimlo | 334 | *46* |
| Dwi'n awr yn meddwl am newid fy ymddygiad yn yr ysgol | 211 | *29* |
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddwch chi'n smygu sigarét | 366 | *51* |

Tabl 5.3: niferoedd/canran yn cytuno â'r datganiad disgyblion uwchradd blwyddyn 11(n=660)

| | Niferoedd | % |
|---|---|---|
| Fe wnes i ddod i wybod pethau nad oeddwn yn eu gwybod o'r blaen | 419 | *64* |
| Dwi'n awr yn meddwl am y ffordd y gall pobl eraill fod yn teimlo | 190 | *29* |
| Dwi'n awr yn meddwl am newid fy ymddygiad yn yr ysgol | 77 | *12* |
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddwch chi'n smygu sigarét | 138 | *21* |

Fel y dywedodd disgybl blwyddyn 11 mewn grŵp ffocws: '*Mae gan lawer o bobl y synnwyr cyffredin yna yn barod, ond mae'n adeiladu arno a rhoi ychydig mwy o wybodaeth i chi ac yn eich cael i feddwl ychydig mwy amdano* …'

Pan ofynnwyd iddynt roi enghreifftiau o'r ffordd y maent wedi newid, ysgrifennodd disgyblion Blwyddyn 6:

> *Dwi'n poeni mwy am bethau.*
> *Dwi wedi newid y ffordd y byddai'n siarad gyda'r teulu a'm ffrindiau.*
> *Dwi'n gwneud mwy i helpu yn y tŷ.*
> *Roeddwn i'n arfer sgrechian ar fy nheulu.*
> *Dwi'n fwy cyfeillgar hefo pawb*.

*Diogelwch personol*

Fel y nodwyd gan yr enghreifftiau gan SHCYau a staff ysgol (5.1), mae'r wybodaeth a gafwyd trwy'r RhGCYCG wedi cael effaith sylweddol ar ddiogelwch personol disgyblion. Cefnogir hyn gan y 91% o ddisgyblion ysgol gynradd a ddywedodd eu bod wedi dysgu am gadw'n ddiogel a'r ganran uchel sydd hefyd yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddan nhw'n yfed gormod o alcohol neu'n cymryd cyffuriau anghyfreithlon

Tabl 5.4: niferoedd/canrannau yn cytuno â'r datganiad, cynradd (n=162).

| | Niferoedd | % |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sydd angen i mi ei wneud i gadw'n ddiogel | 148 | *91* |
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddaf yn cymryd cyffuriau anghyfreithlon | 135 | *83* |
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddwch chi'n yfed gormod o alcohol | 139 | *86* |

Yr enghreifftiau a roddwyd oedd '*Dwi'n awr yn gwybod beth i'w wneud os byddaf yn dod ar draws pobl feddw'* a '*Dwi'n awr yn gwybod sut i fod yn gall ar wefannau oherwydd bod pedoffiliaid'*. Dywedodd nifer fechan o ddisgyblion y byddent yn hoffi cael rhagor o wersi am gadw'n ddiogel (ond heb grybwyll y SHCY yn uniongyrchol) e.e. *Rhowch fwy o wersi i ni ar gadw'n ddiogel*.

Dywedodd mwy na hanner y disgyblion uwchradd hefyd y byddent yn awr yn meddwl beth i'w wneud i gadw'n ddiogel, gyda'r ganran o ddisgyblion yn dweud eu bod yn gwybod digon i gadw eu hunain yn ddiogel ond yn lleihau ychydig rhwng blwyddyn 8 a blwyddyn 11.

Tabl 5.5: niferoedd/canrannau yn cytuno â'r datganiad disgyblion uwchradd blwyddyn 8 (n=721)

| | Niferoedd | % |
|---|---|---|
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sydd angen i mi ei wneud i gadw'n ddiogel | 423 | *59* |
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddaf yn cymryd cyffuriau anghyfreithlon | 414 | *57* |
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddwch chi'n yfed gormod o alcohol | 459 | *64* |

Tabl 5.6: niferoedd/canrannau yn cytuno â'r datganiad disgyblion uwchradd blwyddyn 11 (n=660)

| | Niferoedd | % |
|---|---|---|
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sydd angen i mi ei wneud i gadw'n ddiogel | 330 | *50* |
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddaf yn cymryd cyffuriau anghyfreithlon | 243 | *37* |
| Dwi'n awr yn meddwl am beth sy'n digwydd os byddwch chi'n yfed gormod o alcohol | 245 | *37* |

Roedd yr enghreifftiau a roddwyd gan ddisgyblion uwchradd yn cynnwys '*i'm gwneud i'n fwy diogel pan fyddaf ar y rhyngrwyd'* a '*fy nysgu sut i gadw'n ddiogel a bod yn ofalus yn yr ysgol a thu allan iddi.'*

Roedd yn ymddangos bod y gwersi a rôl blismona gefnogol y SHCY hefyd wedi cael peth effaith ar bwy y byddai disgyblion yn dewis siarad â nhw, gyda 50% o ddisgyblion ysgol gynradd yn dweud y byddent yn siarad â'r SHCY (gyda dim ond rhieni ac athro dosbarth yn fwy poblogaidd). Dywedodd 55% o ddisgyblion blwyddyn 8 y byddent yn trafod gwersi/pynciau gyda SHCY, a hyn yn disgyn i 35% i'r rhai ym mlwyddyn 11.

Yn y grŵp ffocws uwchradd, fodd bynnag, roedd y farn wedi ei rhannu rhwng y rhai oedd yn teimlo y bydden nhw ac y gallen nhw siarad â'r SHCY am faterion a godwyd yn y gwersi, a'r rhai nad oeddent. Yr hyn oedd yn ymddangos yn bwysig oedd faint o amser yr oedd y SHCY yn ei dreulio yn yr ysgol:

> *Rydym yn ei weld [SHCY] yn aml, 'dio ddim yn codi ofn … Mae o'n siarad hefo chi am stwff a'u canlyniadau.*
>
> *Dwi ddim yn ei adnabod yn dda iawn ….*

Ond mae'r effaith ar ymddygiad yn fwy anodd ei fesur. Gofynnwyd i ddisgyblion oes oedd eu hymddygiad wedi newid o ganlyniad i siarad am y gwersi a materion cymdeithasol.

- dywedodd 48% o ddisgyblion blwyddyn 6 'do' a dywedodd 27% 'weithiau'.
- dywedodd 28% o ddisgyblion blwyddyn 8 'do' a dywedodd 22% 'weithiau'.
- dywedodd 14% o ddisgyblion blwyddyn 11 'do' a dywedodd 25% 'weithiau'.

Rhoddodd bron i dri chwarter y disgyblion cynradd a dros draean o ddisgyblion uwchradd enghreifftiau wedyn o'r modd yr oeddent wedi newid (fe wnaeth mwy o ddisgyblion roi enghreifftiau o newid nag oedd wedi nodi eu bod wedi newid yn y cwestiwn cynt).

*Camddefnyddio sylweddau*

Mae'r nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 sy'n yfed alcohol 'yn aml' yn fychan (6), ac ychydig iawn oedd yn cymryd sylweddau/cyffuriau anghyfreithlon (2). Ond, roedd peth cytundeb mewn grwpiau ffocws cynradd bod y wybodaeth oedd yn cael ei rhoi yn y gwersi yn bwysig ar gyfer y dyfodol yn arbennig o ran eu bwriad i beidio yfed alcohol neu gamddefnyddio sylweddau. Teimlai nifer fechan o ddisgyblion mewn un ysgol bod y wybodaeth yma o fudd arbennig yn awr, oherwydd bod aelodau o'u teuluoedd yn alcoholig.

Nododd ychydig dros chwarter y rhai blwyddyn 8 a 11 eu bod yn yfed alcohol yn 'aml', gyda thua pumed ran yn dweud eu bod yn meddwi yn 'aml'. Enghreifftiau o newidiadau mewn ymddygiad o ran alcohol:

> *Mae pobl ar ddydd Gwener wastad yn dweud wrthai am yfed alcohol ….Ond dwi'n gwybod na ddylwn i ddim yn awr. (Merch bl 8)*
> *Achos dwi ddim yn yfed cymaint â hynny bellach; (Merch bl 8)*
> *Dwi ddim yn meddwi bob penwythnos fel roeddwn i'n arfer (Merch bl 11)*
> *Dwi ddim yn cael alcohol bob dydd (Merch bl 11)*

Dywedodd tua phumed ran o ddisgyblion blwyddyn 8 a 11 eu bod yn cymryd cyffuriau anghyfreithlon yn 'aml', gydag un rhan o chwech yn dweud 'ddim yn aml iawn'. Enghreifftiau a roddwyd o newidiadau mewn ymddygiad yng nghyswllt cyffuriau:

*Dwi wedi stopio meddwl bod cyffuriau yn cŵl (Bachgen bl 8)*
*Achos mod i'n yfed llai o alcohol a dwi wedi bod oddi ar y cyffuriau ers 2 flynedd a hanner (Bachgen bl 11)*
*Roeddwn i'n arfer defnyddio cyffuriau ond ddim rŵan oherwydd be dwi wedi ei ddysgu yn yr ysgol, a thu allan i'r ysgol (Bachgen bl 11)*

*Ymddygiad gwrthgymdeithasol*
Yn y grwpiau ffocws cynradd roedd ymdeimlad cryf bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweld eu hunain fel rhai sy'n 'cadw o fewn y gyfraith' ac yn nodi mai'r problemau oedd yn peri trafferth oedd ymddygiad pobl eraill y tu mewn a thu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau a roddwyd yn yr arolwg o newidiadau yn eu hymddygiad:

*Dwi'n ymddwyn yn well ar y strydoedd.*
*Dwi wedi newid trwy sylweddoli nad ydi ymladd yn datrys dim byd.*
*Dwi ddim yn chwistrellu paent bellach.*
*Dwi ddim yn yfed mor aml.*

Roedd enghreifftiau hefyd o newidiadau mewn ymddygiad cymdeithasol yn yr arolwg gan ddisgyblion blwyddyn 8 a 11:

*Wedi bod yn fwy gofalus ar y strydoedd (Merch bl 8)*
*Dwi'n cadw'n fwy tawel pan fyddai allan hefo'n ffrindiau (Merch bl 11)*
*Oherwydd mod i'n arfer mynd i helynt, ond dwi ddim rŵan (Bachgen bl 8)*
*Dwi ddim yn ymladd llawer bellach (Bachgen bl 8);*
*Dwi ddim yn cychwyn ffeits mor aml (Bachgen bl 11)*

Soniodd disgyblion ysgolion uwchradd mewn nifer o grwpiau ffocws hefyd am ddysgu amrywiaeth o strategaethau trwy'r RhGCYCG oedd yn eu helpu i ymdrin ag agweddau o ymddygiad anodd gan eraill.

Roedd arwyddion hefyd bod newidiadau mewn agweddau tuag at gamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, er bod y darlun yn un cymhleth. Pan ofynnwyd i ddisgyblion uwchradd am eu hagweddau at ddiod a chyffuriau, roedd mwy na dwy ran o dair o'r disgyblion yn ystyried nad oedd cymryd cyffuriau anghyfreithlon yn gyffrous, ac yn cydnabod bod cymryd cyffuriau anghyfreithlon neu yfed gormod o alcohol yn niweidio eich iechyd, ond dim ond tua'u hanner a ddywedodd eu bod yn wybodus am effaith cyffuriau anghyfreithlon. Er eu bod yn gweld cyffuriau a gormod o alcohol yn niweidio, nid oedd tua 40% - 50% o'r disgyblion yn ystyried bod pobl sy'n meddwi yn wirion, ac roedd ychydig dros draean yn teimlo bod meddwi yn rhan o gael amser da. Fe fyddai hyn yn awgrymu agwedd fwy llac at yfed o'i gymharu â chymryd cyffuriau anghyfreithlon.

***Crynodeb***

- Dywedodd 91% o ddisgyblion cynradd a thua 75% o ddisgyblion uwchradd bod y RhGCYCG yn rhoi gwybodaeth newydd iddynt.

- Teimlai'r rhan fwyaf o ddisgyblion, tua 80%, yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd, bod ganddynt yn awr ddigon o wybodaeth i gadw eu hunain yn ddiogel.

- Nododd ychydig dan hanner y disgyblion cynradd a thua chwarter y disgyblion uwchradd bod y gwersi wedi arwain at newid yn eu hymddygiad.

- Rhoddodd bron i dri chwarter y disgyblion cynradd a dros draean o'r disgyblion uwchradd enghreifftiau o'r ffordd yr oeddynt wedi newid. Roedd bron y cyfan o'r enghreifftiau hyn o newid positif gyda llawer ym maes camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad cymdeithasol.

**5.5**
**Pa fath o dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio gan y rhanddeiliaid amrywiol wrth lunio barn am effeithiolrwydd y Rhaglen?**
Fel y nodwyd eisoes, mae'n anodd, os nad yn amhosibl, mesur effeithiolrwydd rhaglen fel y RhGCYCG ar wahân i fentrau a thueddiadau cenedlaethol/lleol eraill. Trafodwyd y canfyddiadau o adroddiadau blynyddol y RhGCYCG yn barod, a defnyddid data o'r adroddiadau hyn gan rai rhanddeiliaid (yn arbennig y rhai mewn ysgolion), fel sail a chefnogaeth i'w barn ar effeithiolrwydd y RhGCYCG.

Nid yw'n syndod bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gynigir gan y rhai a gyfwelwyd yn anecdotaidd, ond mae swm a graddfa'r dystiolaeth hon a'i chysondeb o ran neges, yn caniatáu i ni lunio barn am effeithiolrwydd y rhaglen. Yn wir, fel y darluniwyd yn barod, mae'r amgyffrediad o'r RhGCYCG fel rhaglen effeithiol, sy'n cael effaith ar ymddygiad ac agweddau pobl ifanc, yn gyffredin i bron y cyfan o'r ymatebwyr ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid. Mae'r enghreifftiau o newid mewn ymddygiad ac agwedd a roddir gan rai disgyblion yn eu hymateb i'r holiadur yn haeddu sylw arbennig, er nad yw'r farn bositif ar effaith y  RhGCYCG yr un mor gyffredin ymysg disgyblion ag y maent gan grwpiau rhanddeiliaid eraill. Fdd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod dealltwriaeth o effeithiolrwydd yn dibynnu yn drwm ar ansawdd y berthynas rhwng y SHCY a'r disgyblion a'r ysgolion. Er enghraifft, roedd y cydlynwyr rhanbarthol yn rhoi gwerth sylweddol ar y ffaith bod SHCY yn gwybod enwau'r disgyblion a'u bod yn cael eu hymddiried â gwybodaeth. Mae'r sylw canlynol yn nodweddiadol o'r rhai a wnaed gan SHCYau wrth drafod yr anawsterau o geisio cael tystiolaeth o newid mewn ymddygiad/agweddau:

> *… yr hyn dwi'n dueddol o edrych arno, yw'r ymateb y byddaf yn ei gael gan y plant, maen nhw'n gwybod fy enw, a ydyn nhw'n hapus i stopio a siarad hefo fi, a ydyn nhw'n hapus i ofyn cwestiwn i mi, cwestiynau eithaf personol weithiau. Pethau all fod wedi digwydd iddyn nhw, ac maen nhw wedi dod ataf fel rhywun y maen nhw'n ymddiried ynddo.  A, gobeithio, dwi'n meddwl yn bersonol, os gallai roi ateb iddyn nhw, yna dwi'n meddwl mod i'n gwneud rhywbeth yn iawn, a, gobeithio, yn gwneud iddyn nhw feddwl ddwywaith.  Achos mae 'na lawer o'r cwestiynau y maen nhw'n eu gofyn i mi, wrth gwrs, yn bethau y maen nhw wedi eu gweld yn digwydd o gwmpas, tu allan i'r ysgol - pethau y maen nhw'n feddwl na ddylai ddigwydd, ac maen nhw wedi gofyn i mi am y peth. Felly, os ydyn nhw wedi cymryd rhan neu beidio, neu eu*

*bod wedi cymryd rhan, neu eu bod wedi cymryd rhan fach iawn yn yr hyn ddigwyddodd, maen nhw wedi camu yn ôl. Ccyn hyn, efallai, os na fyddwn i wedi bod yn yr ysgol yn siarad hefo nhw, fe fydden nhw wedi dal ati i'w wneud heb feddwl.* (SHCY1)

**Crynodeb**

- Defnyddiwyd Adroddiadau Blynyddol RhGCYCG gan rai rhanddeiliaid (yn arbennig y rhai mewn ysgolion), fel tystiolaeth bellach o'u barn.
- Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn anecdotaidd, ond mae'r swm a graddfa'r dystiolaeth a chysondeb y neges, yn caniatáu i ni lunio barn am effeithiolrwydd y rhaglen.
- Er bod rhai disgyblion wedi rhoi enghreifftiau o newid agwedd ac ymddygiad yn eu hymateb i holiaduron, nid yw'r farn bositif am effaith y RhGCYCG mor gyffredin ymhlith disgyblion ag y maent ymhlith grwpiau rhanddeiliaid eraill.

**5.6**


**Pa dystiolaeth arall ellir ei chael o gymharu ffynonellau data perthnasol sy'n bodoli ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddlu/cyfiawnder ieuenctid, ac ysgolion a fyddai'n awgrymu bod newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad disgyblion**?

Defnyddir ffynonellau data sy'n bodoli a pherthnasol yma yng nghyswllt alcohol, camddefnyddio cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch personol er mwyn archwilio a yw ymddygiad pobl ifanc wedi newid dros gyfnod gweithredu'r RhGCYCG. Ond rhaid rhoi gair o rybudd. Mae ystadegau sy'n cael eu casglu dros gyfnod o amser yn agored i gael eu hystumio oherwydd newidiadau yn y modd y cesglir neu y cofnodir data. Yn ychwanegol, nid yw unrhyw newidiadau dros amser a welir yma o angenrheidrwydd o ganlyniad i'r RhGCYCG gan na allwn ond archwilio cydberthynas ac nid yr achosion. Rydym felly yn cyflwyno'r data fel data sy'n cynrychioli'r tueddiadau cyffredinol mewn ymddygiad ymhlith bobl ifanc dros y degawd diwethaf.

Er bod y data ar ysmygu, alcohol a chyffuriau yn dod o Ystadegau Iechyd Cymru 2010 a Chanolfan Iechyd Cymru, 2009, dylid cadw mewn cof bod y data ei hun yn llawer hŷn. Mae'r ddau gyhoeddiad yma yn cynnig dadansoddiad o'r data o'r arolygon Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol gyda ffocws arbennig ar Gymru.

Fe gododd y canran o ferched 13-14 oed sy’n ysmygu yn eithaf llym o 1994 i’w frig yn 1998 ers hynny mae’r duedd wedi bod ar i lawr ond mae’n dangos arwyddion o lefelu rhwng 2004 a 2006. Mae’r canran cyffredinol o ferched sy’n ysmygu yn 2006 ychydig yn uwch nag yr oedd yn 1986. Er bod peth cynnydd mewn bechgyn yn ysmygu, nid oedd y cynnydd mor fawr ag i ferched.

Ffigwr 5.7: Canran o fechgyn a merched yn ysmygu yn wythnosol, 13-14 mlwydd oed, 1986-2006, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010 (Ystadegau Iechyd Cymru 2010)


Mae’r data yn yr arolygon hyn yn dangos bod pob oedran o fechgyn yn fwy tebygol o yfed yn wythnosol na merched a bod y ganran sy’n dweud eu bod yn yfed yn wythnosol yn cynyddu gyda’u hoedran o fod yn is na 10% o fechgyn yn 11-12 mlwydd oed i tua 50% o rai 15-16 mlwydd oed yn 2006. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad cymharol gyson yn y rhai 11-12 oed sy’n dweud eu bod yn yfed. Bu’r gostyngiad hwn yn fwy amlwg i fechgyn yn y grŵp oedran hwn ond mae hyn oherwydd, ar gychwyn y cyfnod, roedd 30% yn dweud eu bod yn yfed yn wythnosol o’u cymharu ag ychydig dan 15% o ferched. Erbyn 2006 roedd llai o fechgyn a merched yn dweud eu bod yn yfed ac roedd y bwlch rhwng bechgyn a merched yn lleihau.

Ar gyfer rhai 13 i 14 mlwydd oed roedd gostyngiad mewn yfed rhwng 1986 a 1998 ond yna roedd y duedd ar i fyny ar gyfer y ddau ryw hyd 1996. Wedyn gwelwyd gostyngiad i fechgyn a wnaeth lefelu hyd 2004 pan welwyd gostyngiad pellach. I ferched bu tuedd ar i lawr o 2000. Roedd y ganran a ddywedodd eu bod yn yfed yn 2006 ychydig yn is nag yn 1986.

Mae’r patrwm yfed i rai 15-16 mlwydd oed yn debyg i’r un ar gyfer rhai 13-14 mlwydd oed ond gyda chanran uwch yn nodi eu bod yn yfed. Mae’r

uchafbwynt yn 1996 yn amlwg gyda thuedd ar i lawr i fechgyn ers y dyddiad hwnnw. Roedd gostyngiad mwy i'r merched yn 1998 ond yna fe gododd y ganran hyd 2002 ond ers hynny mae'r duedd ar i lawr. Roedd y ganran a nododd eu bod yn yfed yn wythnosol o leiaf bron yn union yr un fath yn 2006 a 1986.

Ffigwr 5.8: Canran o fechgyn a merched yn yfed yn wythnosol, 15-16 mlwydd oed, 1986-2006, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010 (Ystadegau Iechyd Cymru 2010)

Wrth gymharu â gwledydd penodol a gymerodd ran yn yr arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol, roedd rhai 13 oed o Gymru yn sylweddol fwy tebygol na rhai 13 oed mewn gwledydd eraill o yfed yn wythnosol, ac eithrio bechgyn yn y Wcráin a'r Eidal a merched yn y Wcráin.

*Defnyddio cyffuriau*


Mae'n anos cael data cymharol ar gyfer defnydd cyffuriau ond roedd yr arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol yn 2002 a 2006 yn cynnwys dau gwestiwn ar ddefnyddio canabis ar gyfer rhai 15 oed: roedd un yn holi a oeddent erioed wedi defnyddio canabis; roedd yr ail yn holi a oeddent wedi ei ddefnyddio yn y flwyddyn ddiwethaf. Y duedd mewn bechgyn yw gostyngiad yn y defnydd. I'r rhai a ddywedodd eu bod wedi ei ddefnyddio ar ryw achlysur roedd gostyngiad o bron i 36% i tua 30%, ac o 26% i tua 23% i'r rhai oedd wedi ei ddefnyddio yn y flwyddyn ddiwethaf. Er bod ychydig llai o ferched wedi dweud eu bod wedi defnyddio canabis yn 2002, roedd y duedd ar i lawr i ferched bron yn rhy fychan i sylwi arno ac roedd mwy o ferched nag o fechgyn yn dweud eu bod wedi ei ddefnyddio rhywbryd neu'r llynedd na bechgyn. Mae'n ymddangos, erbyn 2006 bod y duedd o ysmygu canabis ymhlith

merched yn debyg i ysmygu o ran eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r sylwedd na bechgyn (er, wrth gwrs, bod canabis yn cael ei ddefnyddio lawer llai na thybaco).

*Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs)*

Cyflwynwyd y Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn 1999 a'u bwriad oedd ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy orchmynion llys sifil, ond gall torri ASBO arwain at euogfarn droseddol. Mae'r nifer o Orchmynion a roddwyd i bob unigolyn rhwng 10 ag 17 oed ar draws pedair ardal heddlu Cymru wedi mynd i lawr ers 2006, er bod y gorchmynion yma wedi cael eu defnyddio yn bennaf ar gyfer bechgyn. Fodd bynnag, fe ddylid nodi mai dim ond un ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r Gorchmynion, ac mae eraill, fel llythyrau rhybuddio ac atgyfeirio wedi ei dargedu yn cynyddu. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigyrau hyn yn arbennig o ran cymharu ardaloedd heddlu gan nad yw cyfanswm poblogaeth pob ardal yn hysbys.

Tabl 5.9: Nifer o Orchmynion a roddwyd 2000-2008, yn ôl rhyw, oedran 10-17




Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, agorwyd 07.09.10

*Gwaharddiadau o'r ysgol*

Mae'r data ar waharddiadau yn dod o Statwales ac mae'r cyfraddau wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r nifer o waharddiadau yng nghyswllt cyfanswm y disgyblion yn y sector. Dylid nodi bod y data hwn yn cyfrif pob gwaharddiad ac nid cyfanswm y nifer o ddisgyblion a waharddwyd, fodd bynnag, os bydd disgybl yn cael ei wahardd fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn ysgol fe fydd ef/hi yn ymddangos yn yr ystadegau fwy nag unwaith. Dim ond ar gyfer ysgolion uwchradd y mae data ar waharddiadau yn ôl awdurdod lleol ar gael.

Mae’r gyfradd o waharddiadau parhaol mewn ysgolion cynradd yn isel ac nid yw wedi newid dros y cyfnod 2002-2009; ond, fe welwyd gostyngiad yn y gyfradd mewn ysgolion arbennig, a hefyd, i raddau llai mewn ysgolion uwchradd yn ystod y cyfnod hwn. Dylid nodi bod yr union niferoedd yn fychan iawn ac felly bod cynnydd bychan yn cael effaith fawr.

Mae’r ganran o ddisgyblion sy’n gadael yr ysgol heb gymhwyster wedi gostwng yng Nghymru yn gyffredinol. Yn gyffredinol mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ffigyrau’r awdurdodau lleol er bod mwy o amrywio yno.

**Crynodeb**

- Mae tuedd ar i lawr yn y nifer o rai 13-14 oed sy’n ysmygu.
- Bu gostyngiad cymharol gyson yn y nifer o rai 11-16 oed yng Nghymru sy’n dweud eu bod yn yfed.
- Mae’r defnydd o ganabis hefyd wedi gostwng, er bod mwy o ferched nag o fechgyn yn dweud eu bod wedi ei ddefnyddio ar ryw adeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn yr un modd â thybaco, dywedodd mwy o ferched nag o fechgyn eu bod wedi defnyddio canabis yn 2006.
- Mae’r nifer o ASBOs a roddwyd i rai rhwng 11 ac 17 oed ar draws y pedair ardal heddlu yng Nghymru wedi mynd i lawr ers 2006, er bod y gorchmynion yma wedi cael eu defnyddio ar gyfer bechgyn yn bennaf.
- Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd Cymru yn isel ac nid yw wedi newid dros y cyfnod 2002-2009; fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad yn y gyfradd mewn ysgolion arbennig a hefyd, i raddau llai, mewn ysgolion uwchradd yn ystod y cyfnod hwn.

**5.7**

**Beth yw nodweddion rhaglenni effeithiol pan fydd arwydd bod rhai effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a diogelwch personol?**

Canolbwyntiodd y gwerthusiad hwn ar un ar ddeg o ysgolion sydd wedi ymwneud â’r RhGCYCG dros nifer o flynyddoedd, ac sydd â pherthynas dymor hir bositif gyda’u SHCYau. Mae tystiolaeth sylweddol gan randdeiliaid a disgyblion yn awgrymu bod hyn wedi cael effaith bositif ar ymddygiad, camddefnyddio sylweddau a diogelwch personol.

Mae ein tystiolaeth yn awgrymu yn gryf bod y berthynas rhwng SHCY a disgyblion ac ysgolion yn elfen allweddol wrth werthuso pa mor effeithiol yw’r RhGCYCG yn ymarferol.

Mae nodweddion eraill ymyrraeth effeithiol yn cynnwys nifer o elfennau gwahanol y gellir eu crynhoi fel:

- Rhoi statws uchel i ABCh yn strategaeth, cwricwlwm ac amserlen yr ysgol.
- Sicrhau bod cynllunio ar y cyd yn digwydd rhwng y cydlynydd ABCh a’r SHCY ar gyfer cyflwyno gwersi yn effeithiol.

- Darparu hyfforddiant athrawon o safon uchel i staff ysgol mewn ABCh a chefnogaeth barhaus ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus yn y pwnc.
- Hwyluso cynllunio paratoi a dilyniant ar gyfer gwersi RhGCYCG.
- Sefydlu cyswllt cyson ar gyfer staff a dysgwyr gyda'r SHCY tu allan i'r amser cyflwyno gwersi ffurfiol.

**5.8**
**Sut y gall data o ffynonellau sy'n bodoli gael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth a gwella'r arferion presennol a'r systemau gwerthuso mewnol?**

Fel y nodwyd yn barod (5.6) mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng gwahanol setiau data, na dynodi achosion penodol ar gyfer newidiadau mewn ymddygiad. Dylai datblygu gwell prosesau gwerthuso anelu at roi golwg leol ei naws a darlun cenedlaethol clir.

Rhai awgrymiadau yw:

- Targedu gwaith mewn ardaloedd penodol ac awdurdodau lleol lle mae data lleol yn dangos bod problemau penodol.

- Rhannu data lleol rhwng ysgolion, yr heddlu lleol a'r awdurdodau lleol.

**5.9**
**Pa ddata newydd fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer monitro a gwerthuso arferion yn y dyfodol?**

Rydym yn awgrymu'r canlynol fel data defnyddiol ar gyfer monitro a gwerthuso arferion yn y dyfodol:

- Olrhain grwpiau blwyddyn benodol.

- Holiaduron dilynol i ddisgyblion sydd wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar yn gofyn am eu barn wrth edrych yn ôl ar y RhGCYCG a sut y gellid ei gwella.

- Datblygu pecynnau offer gwerthuso gyda chydlynwyr ABCh a allai hefyd fod yn sail i gynlluniau datblygu ysgolion.

- Datblygu holiaduron mwy effeithiol i ymgorffori cwestiynau i ysgolion a staff awdurdod lleol a fyddai'n dynodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Dylent hefyd gynnwys cwestiynau a fyddai'n dynodi a yw'r argymhellion blaenorol wedi eu gweithredu, a'r cynnydd wedi ei fonitro.

- Defnyddio data gan rieni, gweithwyr proffesiynol yn y gymuned ac asiantaethau arbenigol (fel y rhai sy'n ymdrin â thrais yn y cartref) i roi gwybodaeth am unrhyw newidiadau ac effaith a all fod oherwydd y RhGCYCG.

## 6. Trafodaeth a chasgliadau

Nodau allweddol y RhGCYCG yw gweithio tuag at gyflawni lleihad mewn trosedd ac anrhefn, a hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol trwy addysg.

Er bod gostyngiad wedi digwydd mewn camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith rhai yn eu harddegau yng Nghymru, mae'n amlwg nad yw'n bosibl honni mai oherwydd y Rhaglen y digwyddodd hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y RhGCYCG wedi cael effaith yn y meysydd hyn. Fel yr amlygwyd yn y gwerthusiad annibynnol cyntaf ar y RhGCYCG, mae mesur effeithiau tymor hir ymyraethau gyda phobl ifanc yn gymhleth. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a diogelwch personol yn broblemau byd-eang, ac mae'r deunydd printiedig yn dangos yn glir nad oes unrhyw ymyrraeth wedi dod o hyd i'r ateb perffaith eto. Rhaid i'r gwerthuso felly fod yn realistig am yr hyn y gellir ac y dylid ei fesur ac y dylid honni ei fod yn effeithiol. Mae pob ymyrraeth yn rhan o ddarlun ehangach, gyda llawer yn cael effaith bositif ar bobl ifanc tu hwnt i'r nodau gwreiddiol neu hyd unrhyw raglen benodol. Mae'n bwysig felly bod effeithiolrwydd rhaglen, yn arbennig rhaglen gyffredinol fel y RhGCYCG, yn cydnabod y cymhlethdod hwn ac yn ei gwerthuso ei hun yn feirniadol yn ôl hynny. Serch hynny, fel yr awgrymodd Estyn (2007) dylai ysgolion ac awdurdodau lleol chwarae rhan fwy gweithredol wrth werthuso a monitro mentrau fel y RhGCYCG.

Mae llawer o'r sylwadau a roddwyd gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod newidiadau wedi digwydd mewn agweddau ac ymddygiad, yn arbennig tuag at y teulu a'r gymuned, sy'n galonogol ac yn awgrymu y bydd ymddygiad ac agweddau mwy positif yn y dyfodol. Yn wir, mae'r gred bod y RhGCYCG yn cael effaith yn gyson ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid, yn genedlaethol ac yn lleol. Mae barn gyffredin hefyd bod y RhGCYCG yn cynnig gwerth ychwanegol sylweddol o ran bod y gwersi a'r cyswllt gyda'r SHCY yn cynnig gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth i'r *holl* ddisgyblion y gallant eu defnyddio i gadw eu hunain yn ddiogel ac allan o drafferth. Mae'r sylwadau a roddwyd gan ddisgyblion yn eu holiaduron yn dangos meddylgarwch a'u bod yn gweld sut y mae'r gwersi RhGCYGC a chyswllt â SHCY wedi cael dylanwad positif ar eu gweithredoedd a'u hagweddau. Fodd bynnag, fe fyddem yn pwysleisio eto bod gan yr ysgolion y buom ni'n ymweld â nhw berthynas bositif dymor hir gyda'r RhGCYCG/SHCY, felly, er bod ein canfyddiadau yn galonogol iawn, ni allwn roi sylw ar ddylanwad y RhGCYCG ar ddisgyblion yn gyffredinol.

Serch hynny, mae ein canfyddiadau yn rhoi arwydd clir o nodweddion ymyrraeth RhGCYCG effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Perthynas bositif rhwng y SHCY a'r disgyblion ac ysgolion sy'n cael ei datblygu dros amser.
- Rhoi statws uchel i ABCh yn strategaeth, cwricwlwm ac amserlenni'r ysgol.

- Sicrhau bod cynllunio ar y cyd yn digwydd rhwng y cydlynydd ABCh a'r SHCY ar gyfer cyflwyno gwersi yn effeithiol.
- Darparu hyfforddiant athrawon da i staff ysgolion mewn ABCh a chefnogaeth barhaus ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus yn y pwnc.
- Hwyluso paratoadau a dilyniant ar gyfer gwersi RhGCYCG sydd wedi eu cynllunio.
- Sefydlu cyswllt cyson ar gyfer y staff a'r dysgwyr â'r SHCY tu allan i amser cyflwyno gwersi yn ffurfiol trwy'r rôl blismona gefnogol.
- Sicrhau bod y SHCYau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am y materion tu hwnt i'r fframwaith cyfreithiol y maent yn ymdrin â nhw.

Mae'r RhGCYCG yn parhau i ehangu tu hwnt i'r rhaglen graidd i ddarparu, er enghraifft, modylau ychwanegol; deunydd cefnogol ar y we; lefel gynyddol o blismona cefnogol mewn ysgolion; ymwneud â grwpiau cefnogi disgyblion; a gwaith gyda disgyblion sydd wedi ymddieithrio. Nid yw'n syndod bod rhai ysgolion yn ymddangos fel petaent yn dibynnu mwy a mwy ar gyfraniad y RhGCYCG wrth gyflwyno ABCh ac ym mywyd yr ysgol yn gyffredinol.

Nid oes amheuaeth bod y SHCY yn medru helpu pobl ifanc i ddeall achosion a chanlyniadau ymddygiad troseddol, ond a yw'n iawn iddynt gael eu defnyddio fel yr addysgwyr allweddol yn y meysydd hyn? Nid dyna yw nod y rhaglen, ond mae'n ymddangos mai dyma'r sefyllfa wirioneddol a'r arfer ar y RhGCYCG mewn rhai ysgolion. Mae, er enghraifft, oblygiadau clir i'r heddlu fod yn unig a phrif ddarparwr gwersi ar gam-drin domestig, lle mae gan ymddygiad anghyfreithlon ganlyniadau personol dwys i bawb sy'n ymwneud â'r sefyllfa. Pryder arall yw bod mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo y byddai athrawon yn anghyfforddus yn ymdrin â rhai o'r materion. Roedd hyn yn wir hyd yn oed gyda hyfforddiant ychwanegol yn y meysydd hynny, ac mae iddo oblygiadau difrifol ar gyfer cyflwyno ABCh yn effeithiol i ddisgyblion.

Yng nghyswllt canfyddiadau'r ddau werthusiad annibynnol blaenorol rydym yn medru cefnogi llawer o'r casgliadau hyn. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi parhau i gael agwedd gadarnhaol iawn tuag at y RhGCYCG ac maent yn cael y gwersi yn ddefnyddiol, yn rhoi mwynhad ac yn bwysig. Mae'r berthynas rhwng ysgol a SHCY, a disgybl a SHCY hefyd yn parhau yn allweddol bwysig wrth ystyried effeithiolrwydd ac effaith y RhGCYCG yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r pryderon cynharach am ddiffyg argaeledd deunyddiau paratoi a dilyniant, diffyg dewis o ran modylau, a'r angen i ymestyn allan at rai mewn UCD ac ysgolion/unedau AACY yn cael eu trin wrth i'r RhGCYCG barhau i ddatblygu ac ehangu.

Fe wnaethom hefyd ganfod bod rhai materion a godwyd mewn gwerthusiadau cynharach yn parhau. Nid yw hyn yn dweud na welwyd cynnydd yn y meysydd hyn, yn hytrach maent yn darlunio'r anawsterau wrth newid agweddau ac amgyffrediad pan fydd newid yn cael ei weithredu. Er enghraifft mae cwestiynau o hyd am natur a graddfa cyswllt y RhGCYCG/SHCY ag ysgolion ac mewn awdurdodau lleol, gan godi problemau am yr hyn sy'n cael ei werthuso, a sut y gall yr wybodaeth hon gael gwell cyhoeddusrwydd a'i defnyddio i ymdrin â materion lleol. Yn benodol mae'r pryder a godwyd gan

Tregidga et al., (2005) am yr angen i fabwysiadu agwedd realistig at fesur llwyddiant o ran lleihau troseddu, heb ei wireddu hyd yn hyn. Mater arall pwysig a godwyd mewn gwerthusiadau cynharach yw arwyddocâd y model ABCh a fabwysiedir mewn ysgolion ar gyfer monitro a gwerthuso'r modd y cyflwynir craidd y rhaglen, ac ar gyfer cyflwyno ABCh yn ddigonol yn gyffredinol: Mae hyn yn parhau yn bryder allweddol.

Gwelwyd beirniadaeth gan Estyn hefyd (2007) bod y cyllido canolog ar y RhGCYCG yn cael ei weld fel anfantais i waith rhai awdurdodau lleol ac mae'n golygu na allant ddatblygu eu cynlluniau eu hunain yn rhwydd i gefnogi gweithio amlddisgyblaethol, ac i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni addysg camddefnyddio cyffuriau mewn ysgolion er enghraifft. Mae ein canfyddiadau gan weithwyr proffesiynol mewn cyfiawnder ieuenctid a gwaith ieuenctid yn ymddangos fel petaent yn cytuno â'r amgyffrediad bod diffyg cydbwysedd rhwng cyfraniad ysgolion at raglen genedlaethol, fel RhGCYCG, ac ymwneud ysgol â mentrau lleol neu rai eraill. Nid yw'n nod gan y RhGCYCG i dra-arglwyddiaethu dros y ddarpariaeth yn y modd hwn, ond mae'n cael ei ddeall, gan rai, o ganlyniad i gyllido canolog ac argaeledd y rhaglen ym mhob ysgol. Rhaid cydnabod oblygiadau hyn i ysgolion a darparwyr ABCh, ac o bosibl, ei wrthweithio fel bod disgyblion yn medru derbyn amrywiaeth eang o wybodaeth a safbwyntiau.

## 6.2 Oblygiadau i LlCC

- Gwerthuso gweithrediad y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol i rai 7 i 19 oedd yng Nghymru.

- Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella datblygiad staff ar gyfer ABCh, a thrafod gyda sefydliadau hyfforddi athrawon sut i ddatblygu sgil ABCh a gwybodaeth i athrawon dan hyfforddiant.

- Gweithio gydag awdurdodau lleol i fonitro pa mor ddiwnïad yw mentrau cenedlaethol sy'n ymwneud â nifer o asiantaethau. Nid yw bob amser yn ymddangos yn glir beth yw'r meini prawf ar gyfer mentrau cydweithio llwyddiannus.

## 6.3 Oblygiadau i'r RhGCYCG

- Mae angen darparu data cenedlaethol a lleol yn olrhain cyfraddau troseddu a monitro cynnydd a newid mewn meysydd allweddol eraill. Mae data o'r fath yn anodd ei gael ar hyn o bryd.

- Dylai plant a phobl ifanc gymryd rhan fwy gweithredol wrth gynllunio a gwerthuso'r RhGCYCG. Er enghraifft, roedd disgyblion yn yr astudiaeth hon yn gwerthfawrogi'r cyfle i roi eu barn yn ddienw.

- Dylai'r RhGCYCG ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o werthuso eu gwaith gydag ysgolion sy'n cynnwys gwerthuso lefel yr ymrwymiad gan yr ysgol a'u cydweithrediad.

## 6.4 Oblygiadau i ysgolion ac awdurdodau lleol

- Rhaid datblygu trefniadaeth, strwythur a chyflwyno ABCh i ganfod y ffordd orau o ddiwallu anghenion y dysgwyr.

- Dylid gweld mwy o integreiddio'r RhGCYCG i ABCh mewn ysgolion uwchradd.

- Dylai ysgolion sicrhau bod athrawon yn cymryd rhan fwy gweithredol wrth gefnogi dysgu pellach pan fydd asiantaethau allanol fel y RhGCYCG yn arwain wrth gyflwyno gwersi.

- Mae'r mater bod athrawon yn gyndyn o ymwneud â'r materion a drafodir gan y SHCYau yn peri pryder. Rhaid i blant a phobl ifanc gael gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant drafod eu pryderon am y materion hyn â nhw.

- Gallai effaith y RhGCYCG gael ei archwilio ymhellach gydag ysgolion ac awdurdodau lleol yn chwarae mwy o ran yn y gwaith monitro a gwerthuso.

### 6.5 Oblygiadau i'r heddlu

- Dylai SHCYau sy'n gweithio mewn ysgolion barhau i gael blaenoriaeth, eu gwerthfawrogi a'u hariannu.

- Mae angen cryfhau a chadarnhau'r cysylltiadau rhwng SHCYau, heddlu cymdogaeth, ysgolion a'r sefydliadau cymunedol perthnasol.

- Er bod y berthynas rhwng disgyblion a SHCYau yn dda, rhaid gwneud mwy i annog swyddogion yr heddlu yn gyffredinol i ddatblygu perthynas bositif â phobl ifanc yn y gymuned.

## 7. Cyfeiriadau


ACCAC (2000) Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol: Cyfnodau Allweddol 1 i 4 yng Nghymru. Caerdydd: Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.

Case, S., a Haines, K. (2003) Promoting prevention preventing youth drugs misuse in Swansea, UK by targeting at risk and protective factors *Journal of Substance Misuse* Cyf. 8 (4): 243-251

Chapman, T. (2000) *Time to Grow*. Russell House Publishing: Lyme Regis

Bancroft, A., Wilson, S., Cunningham-Burley, S., Backett-Milburn, K., & Masters, H. (2004) *Parental drug and alcohol abuse. Resilience and transition among young people* http://www.jrf.org.uk/bookshop/eBooks/1859352499.pdf

Black, C., Homes, A., Diffley, M., Sewel, K., Chamberlain, V. (2010) Evaluation of Campus Police Officers in Scottish schools. (http://www.scotland.gov.uk/Publications/2010/03/12111010/10)

Bottrell, D., a Armstrong, D. (2007) Changes and Exchanges in Marginal Youth Transitions *Journal of Youth Studies* Cyf. 10 (3): 353-371

Buckley, E.J., White, D.G. (2007) Systematic review of the role of external contributors in school substance use education *Health Education* 107 (1): 46-62

Deed, C. (2007) Policy implications of teacher perspectives on early intervention for substance misuse *Drugs Education, Prevention and Policy* Cyf. 14 (5): 415-428

Drugscope (2001) Is drug use mainly in deprived areas? http://www.drugscope.org.uk/resources/faqs/faqpages/is-drug-use-mainly-in-deprived-areas.htm Agorwyd Tachwedd 2009

Estyn (2007) Datganiad i'r wasg am yr Adroddiad ar Gyfarwyddyd Rhyw a Pherthnasau. http://docs.google.com/viewer?a=v&q=cache:n2iKv4eJkyYJ:www.estyn.gov.uk/press_releases/Sex_and_Relationships_Press_Release_2007.pdf+ABCh&hl=en&pid=bl&srcid=ADGEESiPfaUZubj8cv9LF4WLd-pygDYV5c2JqtpWFoaEp89mP0XIoSDMfaSrjg8iqd2PdbgDo9a7vBED_I4Vp2FDnt0FMN-oPvUdIz8GMvRrIiF7mW0B0Dl3KzvweW0Y1F3DW1MtBHGR&sig=AHIEtbSE1AmgQ6sTl4MXhazwDnSxQa4QNw (Agorwyd Rhagfyr 16 2010).

Estyn (2002) Safonau Ansawdd mewn Addysg Bersonol a Chymdiethasol mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru. Estyn: Caerdydd

Faggiano, F., Vigna-Taglianti, F., Versino, E., Zambon, A., Barraccino, A., Lemma. P. (2009) *School-based prevention for illicit drugs use* (Review) Issue 1 Cochrane Collaboration: Wiley & Sons Ltd

Flanagan, R. (2008) The Review of Policing. The Final Report. Y Swyddfa Gartref.

Hill. M., Stafford, A., Seaman, P., Ross, N. & Daniel, B**.** (2007) *Parenting and resilience Review of the literature.* Cyhoeddiad JRF

Lloyd, G., McCluskey, G., Riddell, S., Stead, J., Weedon, E. (2007) *Restorative Practices in Three Scottish Councils. Evaluation of pilot*

*projects 2004-2006*. Adroddiad i Adran Addysg y Weithrediaeth yn yr Alban
Llywodraeth Cynulliad Cymru (heb ddyddiad) Adroddiad ar Effeithiolrwydd y prosiect DARE yng Nghymru: http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/safetyresearch/drugabuse/?lang=en
Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2005). Cynhwysiant a chefnogaeth disgyblion, polisi ac arweiniad. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Markit Training & Consultancy Ltd (2007) *The National Evaluation of the All Wales School Liaison Core Programme.* Llywodraeth Cynulliad Cymru
McAra, L. (2004) Truancy, school exclusion and substance misuse. (Digest 4 Edinburgh Study of Youth Transitions and Crime). http://www.law.ed.ac.uk/cls/esytc/findings/digest4.pdf
McCluskey, G., Lloyd, G., Stead, J. (2004) 'It was better than sitting in a group talking'. An evaluation of a film-making project with young people in trouble or 'at risk' in school. Yn *Pastoral Care in Education* Cyf. 22 (4)
McLaughlin, C. (2008) Emotional well-being and its relationship to schools and classrooms: a critical reflection. *British Journal of Guidance & Counselling*. Cyf. 6 (4): 353-366
Mitford, D. (2007) EDITORIAL Drug education and other programmes for students *Drug and Alcohol Review* 26: 573-575
Mytton, J.A., DiGuiseppi, C., Gough, D., Taylor, R.S., Logan, S. (2009) *School-based secondary prevention programmes for preventing violence (Review)* Rhifyn 3 Cochrane Collaboration: Wiley & Sons Ltd.
Reid, K. (2008) National Behaviour and Attendance Review (NBAR) Report. Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Ofsted (2002) *Drug education in schools: an update* www.ofsted.gov.uk
Ofsted (2007) Time for change? Personal, social and health education. www.ofsted.gov.uk
Ofsted (2010) Personal, social, health and economic education in schools. www.ofted.gov.uk
Rees, G. (2005) Democratic devolution and education policy in Wales: The emergence of a national system? *Contemporary Wales*. Cyf. 17 (1): 28-43
Roe, S., & Becker, J. (2005) Drug prevention with Vulnerable Young People: a review *Drugs Education prevention and policy* Cyf.12 (2): 85-99
Shaw, M. (2004) *Police, Schools and Crime Prevention: a preliminary review of current practices. International Centre for the Prevention of Crime – a draft discussion.* Agorwyd y papur ar-lein yn: http://www.crime-prevention-intl.org/publications.php?type=REPORT Mehefin 2009
Smith, D.J. (2006a) *School experience and delinquency at ages 13-16* (Digest 13, Edinburgh Study of Youth Transitions and Crime). http://www.law.ed.ac.uk/cls/esytc/findings/digest13.pdf
Smith, D.J. (2006b) Social inclusion and early desistance from crime. (Digest 12, Edinburgh Study of Youth Transitions and Crime). http://www.law.ed.ac.uk/cls/esytc/findings/digest12.pdf
Stead, M & Angus, K. (2004) *Literature review into effectiveness of school drug education* Institute for Social Marketing, Prifysgol Stirling Cynhaliwyd i Adran Addysg Gweithrediaeth yr Alban

Stead, J., Lloyd, G., Kendrick, A. (2004) Participation or Practice Innovation: Tensions in Inter-agency Working to address disciplinary exclusion from school. *Children & Society* Cyf. 18: 42-52

Stewart-Brown, S. (2006), *What is the evidence on school health promotion in improving health or preventing disease and, specifically, what is the effectiveness of the health promoting schools approach?,* Swyddfa Ranbarthol y WHO dros Ewrop (Adroddiad Tystiolaeth Iechyd); Copenhagen, ar gael yn: www.euro.who.int/document/e88185.pdf (agowyd Hydref 2009).

Surgeon General USA (2001) Youth Violence: A Report of the Surgeon General. http://www.surgeongeneral.gov/library/youthviolence/chapter5/sec4.html

Sutton, P.W., Love, J.G., Bell, J., Christie, E., Mayrhofer, A., Millna, Y., Williams, H., Yuill, C. (2005) *The emotional wellbeing of young people: a review of the literature* School of Applied Social Studies Robert Gordon Institute

Thombs, D. L. (2000) Retrospective study of DARE: Substantive Effects not Detected in Undergraduates *Journal of Alcohol and Drug Education* Cyf. 46 (1): 27-47

Wilson, S.J., Lipsey, M.W., Derzon, J. H. (2003) The Effects of School-Based Intervention Programmes on Aggressive behaviour: A Meta-Analysis *Journal of Consulting and Clinical Psychology* Cyf.71 (1): 134-149